
Comisiynydd
**Cenedlaethau'r**
**Dyfodol**
Cymru

**Future**
**Generations**
Commissioner
for Wales

# Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2017-2018



Yr hyn y mae Cymru'n
ei wneud heddiw,
*bydd y byd yn ei*
*wneud yfory*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2017-2018

Rydyn ni wedi cynhyrchu'r ddogfen hon i'w darllen fel cyflwyniad rhyngweithiol.

Lle rydych chi'n gweld yr arwyddion hyn:

Darganfyddwch fwy — **Darllenwch fwy**

Gwrandewch ar Soundcloud

Gwyliwch Fideo

Tudalen Gynnwys

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cynnwys

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-2018

Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw,
*bydd y byd yn ei wneud yfory*


Pwrpas 1
Amlygu'r materion mawr, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol
Tudalen 16

Pwrpas 3
Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen
Tudalen 70

Diweddariad
Diweddariad ar argymhellion a wnaethpwyd yn 2017-2018
Tudalen 102

Adroddiad Atebolrwydd
Tudalen 110

Pwrpas 2
Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor y pethau y maent yn ei wneud
Tudalen 34

Pwrpas 4
Gweithredu yn ogystal â thrafod
Tudalen 86

Y 12 Nesaf
Yr hyn a wnawn yn Y 12 Mis Nesaf
Tudalen 106

Datganiadau Ariannol
Tudalen 128

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Rhagair

**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rwyf yn aml wedi siarad am weithrediad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel taith ac mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyflwyno trosolwg o'r gwaith yr wyf fi a fy nhîm wedi ei wneud yn ystod ein hail flwyddyn o weithredu i greu'r amodau iawn ar gyfer gwneud y daith hon yn llwyddiant.

Mewn llawer ffordd mae'r amodau wedi bod yn llym – y lleihad mewn gwariant cyhoeddus yn cynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus a gweithlu'r sector cyhoeddus o dan warchae yn brwydro yn erbyn storm caledi. Mae apêl gwneud penderfyniadau tymor byr yn yr hinsawdd hon yn gryf ac eto mae ein deddfwriaeth yn gofyn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud newidiadau sylfaenol yn y ffordd y maent yn meddwl, a bod yn barod i wneud penderfyniadau sy'n ystyried cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn dull holistig.

Credaf y daith hon hon yn cychwyn mewn man lle gwneir **'newidiadau syml'**, sy'n symud drwy wahanol gyfnodau o herio arfer presennol, ymestyn ein hunain a gweithio gydag eraill i ddatblygu ymagweddau newydd gan symud wedyn i gyfnod trawsffurfiol sy'n newid bywydau pobl. Y gyrchfan derfynol yw'r man lle gall Cymru fod yn siŵr fod y polisïau a wnaed a'r gwasanaeth a ddarparwyd yn y cyflwr gorau posibl yn nhermau cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol – y blaned yn ogystal â phobl.

Ar ôl arolygu gwaith cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn y flwyddyn ddiwethaf wrth iddynt bennu eu cynlluniau a chychwyn gweithio ar eu hamcanion, mae'n glir bod yna lawer sy'n gweld y Ddeddf fel **catalydd ar gyfer newid** – drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch enghreifftiau o'r mannau lle mae'r newid hwn wedi cychwyn. Mae llawer o weithwyr y sector cyhoeddus wedi dweud wrthyf fod hyn yn rhoi'r caniatâd a'r hyder iddynt weithio'n wahanol. Ond i eraill, gall ei fod yn dal i ymddangos fel dyletswydd gyfreithiol neu lefel ychwanegol o gydymffurfio. Rwyf wedi dweud yn glir ei bod yn annhebygol y bydd y cyrff cyhoeddus hynny mewn sefyllfa i gyflawni dyheadau'r Ddeddf.

Ond hyd yn oed i'r rhai sy'n ceisio gwneud y newidiadau angenrheidiol mae yna rwystrau o fewn y system sy'n bodoli. Mae yna lu o bolisïau cyfredol, arweiniad, dyraniadau cyllid a dangosyddion perfformiad sydd, pan fyddant ar eu gorau, yn methu ymgorffori gofynion newydd y Ddeddf, a phan fyddant ar eu gwaethaf yn sbarduno'r ymddygiadau a'r canlyniadau anghywir. Rhan o fy rôl, yn fy marn, yw adnabod a helpu i **ddileu'r rhwystrau sy'n sefyll yn ffordd** y newid sydd arnom angen ei weld yn y system. Dyna paham yr wyf, yn ystod y flwyddyn hon, wedi ffocysu ar herio polisïau a phrosesau nad ydynt yn galluogi'r newid hwnnw mewn diwylliant.

Ar ôl mynegi pryderon am y penderfyniadau a wnaed ar yr M4 rwyf wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu canllawiau gwerthuso trafnidiaeth sy'n gosod y meini prawf y mae rhaglenni trafnidiaeth yn seiliedig arnynt. Wrth ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y cyhoedd a'u cynrychiolwyr am benderfyniadau cynllunio a pholisi, rwyf wedi helpu i ail-gastio Cynllunio Polisi Cymru a fydd yn pennu'r polisi cyffredinol i Gymru, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwyf wedi herio'r Llywodraeth ar y modd y maent yn dangos bod y Ddeddf yn cael ei defnyddio wrth wneud **penderfyniadau ar wariant**, ac ar gyfer y gyllideb sydd ar y gorwel gobeithiaf y byddant wedi gwneud cynnydd wrth benderfynu ar **ddiffiniad o atal**, y gellir beriniadu eu gwariant yn ei erbyn. Rwyf hefyd wedi herio'r ffordd y mae **caffael** y sector cyhoeddus yn gweithio, a rwyf yn cyfrannu tuag at adolygiad y Llywodraeth. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru i gynghori ar gaffael masnachfraint y rheilffordd newydd ac yn hapus i weld bod cyfeiriad arwyddocaol at y Ddeddf a'r nodau llesiant yn yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni drwy'r contract hwn o £5bn.

Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf byddaf yn parhau i weithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru wrth i mi gychwyn y broses o **fonitro ac asesu cyrff cyhoeddus** wrth iddynt gynhyrchu eu set gyntaf o adroddiadau blynyddol. Ond byddaf hefyd yn parhau i'w cynorthwyo i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i drawsffurfio'r ffordd y maent yn gweithio a chyflawni'r nodau llesiant drwy fy rhaglen y Gallu i Greu, gan gydweithio gydag ystod o bobl, arbenigwyr a sefydliadau, i daflu goleuni ar newidiadau syml y gellir eu gwneud ac arfer da y gellir ei fabwysiadu.

Hoffwn ddiolch i fy nhîm a channoedd o bobl a sefydliadau sydd wedi gweithio gyda ni i'n helpu ar ein taith y flwyddyn hon. Credaf fod **momentwm yn tyfu o amgylch y Ddeddf a'i dyheadau,** ac rwyf yn awyddus i sicrhau bod y momentwm hwnnw'n trawsffurfio'i dyheadau yn realiti.

> ***"Dylen groesawu arloesedd, a derbyn wrth wneud hynny, bod yn rhaid i ni hefyd atal rhag gwrthwynebu risg. Rhaid i'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n eu harchwilio annog cymryd risg y gellir ei rheoli!"***



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Crynodeb

Yn fy ail flwyddyn rwyf wedi gweithio ar bolisiau cenedlaethol prosiectau lleol ac ar bob lefel rhyngddynt, gan fod yn rhaid defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhob peth yr ydym yn ei wneud os yr ydym i gyflawni'r Gymru a garem.

Rwyf wedi rhoi cymorth a chyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt baratoi eu hasesiadau llesiant, amcanion drafft a chynlluniau. Roedd hon yn garreg filltir arwyddocaol yng ngweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwneuthum barhau i roi cymorth i gyrff cyhoeddus i'w helpu i wneud y Ddeddf yn rhan annatod o'u gwaith.

Rwyf wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a mobileiddio gwybodaeth wrth i ni gyflymu'n taith tuag at Gymru gynaliadwy a chyfrannu i bob un o'r saith nod llesiant. Mae hyn wedi cynnwys partneriaeth gref gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwyf hefyd wedi cychwyn creu dulliau o weithio ar gyfer cyrff cyhoeddus a phob un sydd eisiau defnyddio'r Ddeddf, ac wedi sicrhau y gellir ei throsi ar lawr gwlad ar y lefel lle gwneir penderfyniadau. Rwyf hefyd wedi gwella fy null o weithio a fy mholisïau mewnol i facsimeiddio fy nghyfraniad i'r nodau.

Gan ddefnyddio fy mhump mesur perfformiad, yn fy ail flwyddyn rwyf wedi:

- **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda** mewn perthynas ag atal (yng nghyllidebu Llywodraeth Cymru); profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; fy nghyngor i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant, amcanion a chynlluniau drafft; cymhwysiad y Ddeddf ar yr M4, trwyddedu amgylcheddol, tai, datgarboneiddio, caffael, bargeinion dinesig a chynllunio; a hefyd yn yr ohebiaeth rhyngof a'r cyhoedd.
- **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill**, er enghraifft mwy o gyfeirio at y Ddeddf, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a chenedlaethau'r dyfodol mewn cyfarfodydd llawn; ceisiadau am wybodaeth ac ymgysylltiad ag ysgrifenyddion cabinet (parthed caffael, y GIG, cynllunio), yr Ysgrifennydd Parhaol a'r tendr am Fetro De Cymru a'r fasnachfraint rheilffyrdd.
- **Wedi sicrhau newid cyfundrefnol yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio** mewn perthynas ag archwilio, monitro ac asesu gweithrediad y Ddeddf drwy weithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru (WAO), Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG); cynlluniau tymor-canolig integredig (IMTPs); ac yn fy mholisïau a fy ngweithdrefnau i fy hunan.
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau** yng Nghynllunio Polisi Cymru; yn amcanion cyhoeddedig byrddau gwasanaethau cyhoeddus; yn yr agenda datgarboneiddio, yn arbennig Gynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru; mewn cyllidebu strategol, y bargeinion dinesig, iechyd a chynllunio ar gyfer yr hirdymor.
- **Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol eraill** a fy nhîm drwy fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol; y partneriaethau niferus yn y Gallu i Greu; hyfforddiant i gynghorwyr newydd; gohebiaeth gyhoeddus; sefydliadau iechyd a Labordai Byw parhaol.

**Mae fy nhîm a minnau**
wedi cyrraedd dros
**8,000 o bobl**
yn bersonol eleni, a llawer mwy drwy gyfrwng cyfryngau digidol ac ysgrifenedig.



Ymwelodd
**15,927**
**o ymwelwyr newydd** â'n gwefan
(a grëwyd ym Mawrth 2017)

**80%**
**o ymwelwyr newydd**

Mae dros **50%**
**o ymwelwyr newydd**
o dan **35** mlwydd oed

**Daeth ymwelwyr gwefan** o Ffrainc, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Nigeria ac Unol Daleithiau America.

**Y dudalen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
a gafodd y mwyafrif o ymwelwyr.

## Cyfryngau Cymdeithasol

- Twitter: 3,801 o ddilynwyr
- Instagram: 383 o ddilynwyr
- YouTube: 11 o danysgrifwyr
- LinkedIn: 164 o ddilynwyr

## Marchnata e-bost

Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 cysylltwyd â'r canlynol:

| | |
|---|---|
| AAelodau'r Cynulliad | 60 |
| Prif Weithredwyr ac Arweinyddion cyrff cyhoeddus | 88 |
| Cydlynwyr byrddau gwasanaethau cyhoeddus | 56 |
| Aelodau'r Cynulliad byrddau gwasanaethau cyhoeddus | 520 |
| Rhanddeiliaid eraill, oddeutu | 1,500 |
| ARAC a Phanel Cynghori | 19 |

**Cyfanswm cysylltiadau drwy gyfrwng e-bost**
**2,243**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Crynodeb (Parhad)

Rwyf wedi cydymffurfio â fy nyletswyddau o dan y Ddeddf ac wedi defnyddio fy mhwerau i facsimeiddio fy nghyfraniad i fy hunan i'r nodau llesiant. Rwyf hefyd wedi defnyddio'r pum dull o weithio ac wedi gweithio gyda fy nhîm i wella'u llesiant.

Mae fy ngwaith yn ystod blwyddyn dau wedi atgyfnerthu a pharatoi'r ffordd ar gyfer gweithrediadau parhaus y Ddeddf a'r defnydd o fy mhwerau, fel y byddaf yn 2018-2019 yn:

- **Parhau i roi cyngor pellach** a chymorth ar brosiectau penodol gan fwrw mlaen gyda fy nghyngor, yn arbennig mewn perthynas â thrafnidiaeth, datgarboneiddio a chyllido.
- **Ffocysu ar gyflwyno enghreifftiau** o lwyddiant cyflym drwy'r Gallu i Greu a datblygu ymhellach y Labordai Byw yr wyf ar hyn o bryd yn eu harwain gyda chyrff cyhoeddus.
- **Monitro ac asesu'r amcanion llesiant** pan fydd y setiau cyntaf o adroddiadau blynyddol wedi eu cyhoeddi. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru.

> *"Rwyf hefyd wedi defnyddio'r pum dull o weithio ac wedi gweithio gyda fy nhîm i wella'u llesiant."*





Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales



# Adroddiad Perfformiad

Daeth **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** i rym yn Ebrill 2016. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn arwain y byd yn ei bod yn gwneud datblygu cynaliadwy yn rhan hanfodol o'r hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi i ni'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i wella'r hyn a wnawn a'r modd yr ydym yn ei wneud ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bopeth mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud – o gychwyn syniad i wneud penderfyniadau polisi ar wasanaethau neu seilwaith. Mae'n ymwneud â newid y ffordd yr ydym yn meddwl, cynllunio a gweithredu. Mae hwn yn newid arwyddocaol yn hanes y 400,000 o'r rhai a gyflogir gan y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ni fydd yn digwydd dros nos. Mae hefyd yn golygu siwrnai sy'n gofyn am ymgyfraniad pawb.

## Cynllun Strategol


Mae fy nghynllun strategol yn amlinellu sut yr wyf yn defnyddio ac yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn dros fy nghyfnod saith mlynedd yn fy swydd. Mae'n dasg Dafydd a Goliath i mi a fy nhîm bychan. Rydym yn annog newid trawsffurfiol yn ein 44 corff cyhoeddus ac 19 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a fy ymagwedd o'r cychwyn cyntaf oedd hybu fy nhîm craidd ynghyd â phartneriaid a chydweithwyr fel y gallaf gyrraedd calon gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae fy ail flwyddyn wedi ffocysu ar sefydlu partneriaethau strategol i gyflawni gwaith ar gynorthwyo cyrff cyhoeddus; rhoi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus; rhoi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus mewn meysydd blaenoriaethau allweddol; aildrefnu fy swyddfa fel y gall gyflawni gwaith mewn ffordd hyblyg; a pharhau i wrando ac ennyn ymgyfraniad pob un a fedr gyflawni'r weledigaeth a'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol hon.

> *We are spreading love through Welsh language music*
> *Mae gen ein treftadaeth gerddol sut gymaint i gynnig*
>
> *Spread the love, share the music today and every day.*
> *Rhanu'r cariad a'r gerddoriaeth heddiw a phob dydd*
>
> *We are prosperous, resilient and equal*
> *A vibrant culture*
> *Ni'n ffyniannus, yn wydn a gyfartal*
> *Diwylliant bywiog*

Kizzy Crawford
© Kizzy Crawford/BDI Music Ltd





© Kirsten McTernan



# Adroddiad Perfformiad (Parhad)

## Sut rwy'n mesur perfformiad

Yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rwyf wedi mabwysiadu dulliau o fesur perfformiad a fydd yn fy helpu i ddangos effaith fy swyddfa. Mae'r rhain yn ffocysu ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Doeddwn i ddim eisiau mesur yr hyn oedd wedi ei wneud, roeddwn ni eisiau mesurau a fyddai'n rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth yr oedd fy swyddfa yn ei wneud a dangos sut mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn cynorthwyo a herio eraill i newid tuag at ddull mwy cynaliadwy o weithio.

Fy mhump mesur perfformiad strategol yw:

- **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda**
- **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill sy'n pennu polisïau**
- **Sicrhau newidiadau trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus ac eraill ym mynd ati i wneud pethau**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiad**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Mae'r mesurau'n feintiol, a dyma fy nghyfle cyntaf i adrodd ar yr effaith y mae fy swyddfa yn cychwyn ei gael. Mae fy adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gwaith yr wyf fi a fy nhîm wedi ei wneud yn 2017-2018 a'r effaith y mae eisoes wedi ei gael ar drawsffurfio agenda cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu sut mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag at y saith nod llesiant ac yn rhoi enghreifftiau o ble mae'r pum dull o weithio'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

## Amlygu arfer da


Rwyf eisiau manteisio ar bob cyfle posibl i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac amlygu arfer da wrth i ni deithio gyda'n gilydd ar y siwrnai i wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Dyma pam y tynnir sylw drwy gydol y ddogfen hon at enghreifftiau o arfer da ar draws y nodau a'r dulliau o weithio drwy ddefnyddio eiconau.

Mae'r saith nod llesiant sy'n rhan hanfodol o'r Ddeddf yn cyflwyno darlun cyflawn o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n rhaid i gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus gyfrannu tuag atynt. Bydd enghreifftiau o gyfraniad tuag at nodau llesiant penodol o fewn yr adroddiad blynyddol yn cael eu hamlygu gan eu lliw dynodedig.

Mae pob nod yn cael ei gynrychioli gan ei liw unigol o fewn yr adroddiad blynyddol hwn.

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu




Ein nodau llesiant

# Adroddiad Perfformiad (Parhad)

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer gwell ffyrdd o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn mabwysiadu'r pum dull o weithio:

1. Talu sylw **i'r hirdymor**
2. Helpu i **atal** problemau rhag digwydd neu waethygu
3. Mabwysiadu ymagwedd **integredig**
4. Ennyn **ymgyfraniad** ystod amrywiol o bobl
5. **Gweithredu ar y cyd** ag unrhyw berson (neu wahanol rannau o'r corff ei hunan) a fedrai helpu'r corff hwnnw i gyflawni ei amcanion llesiant

Mae pob dull o weithio'n cael ei gynrychioli gan ei eicon unigol o fewn yr adroddiad blynyddol. Mae pob darn o fy ngwaith wedi ystyried y pum dull o weithio ond rwyf yn tynnu eich sylw at enghreifftiau da drwy wneud defnydd o'r eiconau hyn.

Hirdymor

Atal

Integreiddio

Ymgyfraniad

Cydweithio

## Fy rôl i

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fy nyletswydd gyffredinol yw hybu datblygu cynaliadwy.

**Beth mae fy rôl yn ei gynnwys?**

*"Hybu egwyddor datblygu cynaliadwy (yn cynnwys y pum dull o weithio), yn arbennig gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion; ac annog cyrff cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn y maent yn ei wneud.*

*"At y diben hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni."*

I gyflawni fy nyletswydd gyffredinol, mae gennyf ystod o swyddogaethau a phwerau penodol.

Yn 2017-2018, gwneuthum gwblhau fy **nghynllun strategol** sy'n amlinellu sut y byddaf yn gwneud gwahaniaeth dros fy nhymor saith mlynedd. Rwyf wedi dewis y pedwar prif bwrpas canlynol ar gyfer fy swyddfa ac mae fy adroddiad blynyddol wedi ei lunio o gwmpas y penawdau cyfatebol hyn:

1. **Amlygu'r materion pwysig,** heriau a chyfleoedd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol
2. **Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus** i feddwl am effaith hirdymor yr hyn y maent yn ei wneud
3. **Gweithio gydag eraill** i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen
4. **Gweithredu yn ogystal â thrafod** – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Pwrpas 1

## Amlygu'r materion pwysig, yr heriau a chyfleoedd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

I gyflawni fy nyletswydd i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn arbennig ei ofyniad i mi **weithredu fel gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol,** rwyf wedi penderfynu rhoi her, cymorth a chyngor mewn nifer o feysydd yr wyf, drwy ymgynghori, wedi eu nodi fel rhai arbennig o bwysig i genedlaethau'r dyfodol.

Drwy gydol fy ail flwyddyn, rwyf wedi parhau i ffocysu ar godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf drwy'r holl gyrff cyhoeddus a gwmpesir ganddi, ond hefyd gydag arweinyddion a staff rheng flaen cyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol ac unigolion ledled Cymru a thu hwnt. Rwyf yn bersonol wedi mynychu 55 digwyddiad cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, yn amrywio o anerchiadau allweddol neu gyflwyniadau mewn cynadleddau a digwyddiadau, cyfraniadau mewn cyfarfodydd byrddau, gweithdai, seminarau, paneli, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a llawer o ddigwyddiadau anffurfiol, gyda fy nhîm yn mynychu llawer mwy, ac wedi siarad â dros 8,000 o bobl am y Ddeddf eleni yn unig.

Mae ein cysylltiadau drwy gyfrwng llwyfannau digidol (megis ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol, ac arolygon ar-lein fel SenseMaker) hyd yn oed y fwy niferus, ar dros 23,000.

Rwyf wedi codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i gofynion ar draws ystod eang o sectorau a sefydliadau, yn cynnwys cyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau llawr gwlad, busnesau ac academia, ar faterion yn amrywio o iechyd, addysg a'r newid yn yr hinsawdd i beirianneg, trafnidiaeth, cynllunio, y celfyddydau, tai a gofal cymdeithasol.

### Effaith:

- **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

### *Hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr newydd*


*Mae cynghorwyr lleol mewn sefyllfa unigryw i graffu ar benderfyniadau wrth iddynt gael eu datblygu a'u trafod. Maent yn aml yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr oddi wrth bobl leol ac yn helpu i fod yn bont rhwng cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gan weithio gyda* ***Llywodraeth Cymru,*** *rydyn ni'n darparu hyfforddiant i gynghorwyr lleol sydd newydd gael eu hethol i roi dealltwriaeth iddynt o'u rôl yng ngweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*

*Gwnaethom ddarparu anerchiad agoriadol a gweithdy'n ymwneud â'r pum dull o weithio. Gan gyrraedd dros 300 o gynghorwyr newydd drwy bum gweithdy rhanbarthol, llwyddodd y sesiynau i gynyddu gwybodaeth aelodau a'u dealltwriaeth o'r Ddeddf, ac mae ganddynt yn awr ymagwedd wahanol tuag at y broses o wneud penderfyniadau a mwy o awydd i graffu ar swyddogion.*

*Fel cam nesaf, rydyn ni'n dylunio Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn cynorthwyo'r broses hon.*





Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales




***Future Gen Cymru** @futuregencymru*
*"Weithiau pan rydyn ni'n siarad am dai, rydyn ni'n ymgolli mewn manylion technegol – y rheoliadau, y cynllunio a manylion penodol; rydyn ni'n anghofio mae'r pwnc a ddylai gael ein sylw, yn ei hanfod, yw cartref."*
*@sophiehowe #annualconf17 #housinghorizons*






Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

## Meysydd blaenoriaethol ar gyfer fy ngwaith

Rhwng Mawrth a Medi 2017 gweithiais gyda'r **New Economics Foundation** gan ymgysylltu â dros 1,300 o bobl a sefydliadau i benderfynu ar y manylion blaenoriaethol y byddaf yn ffocysu arnynt dros fy nhymor saith mlynedd. Mae'r meysydd yn cynrychioli rhai o'r materion pwysicaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a byddaf yn ffocysu fy adnoddau i gyflawni newid pwysig  a pharhaol.

Gellir rhannu fy mlaenoriaethau'n ddau grŵp:

**Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**

- Stoc dai
- Effeithlonrwydd a chynhyrchu ynni
- Cynllunio trafnidiaeth

**Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol**

- Sgiliau
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)
- Ymagweddau newydd tuag at hwyluso llesiant corfforol a meddyliol yn cynnwys presgreibio cymdeithasol

Bydd y meysydd hyn yn sylfaen i fy ngweithgareddau yn ystod fy nghyfnod yn y swyddfa a gwelaf gyfle enfawr i ysbrydoli a dylanwadu, fframio dadl a chael materion ar yr agenda. Byddaf yn defnyddio'r meysydd hyn i ffocysu fy sylw ar fonitro ac asesu yn ogystal ag amlygu arfer da.

Yn dilyn cymryd camau drwy gydol fy nwy flynedd gyntaf i ddeall a chodi ymwybyddiaeth o'r chwe maes blaenoriaeth hyn a'u pwysigrwydd i genedlaethau'r dyfodol, rwyf yn falch i weld eu bod yn cael eu cynnwys mewn dull arwyddocaol mewn 345 o'r amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn 2017.

Yn 2017-2018, rwyf wedi ffocysu ar drafnidiaeth a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn ogystal â datgarboneiddio (fel rhan o fy ngwaith ar effeithlonrwydd ynni a'i gynhyrchiad) a thai oherwydd bod cyfleoedd pwysig wedi codi yn ystod y flwyddyn ariannol, megis yr ymchwiliad cyhoeddus ar gynigion yr M4; gwaith y Llywodraeth ar gynhyrchu cyllideb garbon am y tro cyntaf, a materion a godwyd gan aelodau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr.



**Dyma sut mae fy chwe maes blaenoriaethol yn ymddangos ar draws y 345 amcan llesiant:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **97** amcan yn ymwneud â sgiliau | **59** amcan yn ymwneud â modelau iechyd a llesiant amgen | **37** amcan yn ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | **32** amcan yn ymwneud â thai | **30** yn ymwneud â thrafnidiaeth | **29** yn ymwneud ag ynni |
| **35** o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi pennu amcanion ar sgiliau | **33** o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi pennu amcanion sy'n berthnasol i fodelau iechyd a llesiant amgen | **23** o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi pennu amcanion ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | **21** o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi pennu amcanion ar dai | **20** o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi pennu amcanion ar drafnidiaeth | **23** o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi pennu amcanion yn ymwneud ag ynni |



Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

# cynllunio trafnidiaeth

Gan weithredu fel gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol a hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y caiff ei ddiffinio yn y Ddeddf, cyflwynais dystiolaeth bellach yn dilyn fy nhystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol i ymchwiliad cyhoeddus yr M4. Gwnaeth fy nghyngor i Lywodraeth Cymru a fy nghyflwyniad i'r ymchwiliad cyhoeddus gwestiynu sut roedd y Ddeddf yn cael ei hystyried mewn penderfyniad cyfredol (M4) ac ai'r penderfyniad i fenthyg dros £1biliwn oedd yr un cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roeddwn yn dymuno osgoi gweld cynsail peryglus yn cael ei osod drwy herio'r dadleuon a gyflwynwyd yn ymchwiliad yr M4 a fedrai yn fy marn arwain at gamddehongli Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thanseilio'i hysbryd a'i phwrpas.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau cytbwys wrth wella llesiant ar draws ei phedwar piler – economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol – ac adlewyrchu ei natur holistig. Ni ellir ei defnyddio ychwaith fel esgus dros beidio cydymffurfio â dyletswyddau eraill o dan ddeddfwriaethau eraill. Credaf fod fy ymyriad ar yr M4 wedi helpu **i fframio'r ddadl,** wedi helpu eraill i ddeall sut ddylai'r Ddeddf weithredu a sicrhau bod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth allweddol yr Ymchwiliad Cyhoeddus a chanlyniad yr ymchwiliad hwn.





NATIONAL

Guardians of Welsh natural beauty fight proposal for M4 relief route

Supporters claim Newport marshlands road would boost economy despite doubts by some officials

Backing M4 relief road plans 'might set a wrong precedent'

Darllenwch fwy

Rwyf yn gweld trafnidiaeth a thechnoleg yn datblygu'n gyflym iawn gan greu chwyldro yn y ffordd yr ydym yn teithio, gweithio a byw. I weithredu'r Ddeddf, rhaid i gynllunio ar gyfer yr anghenion hyn yn awr gynorthwyo hefyd Gymru carbon-isel, gydnerth, lewyrchus gyda chysylltiadau da ar gyfer y dyfodol.

Mae fy ymyriad hefyd wedi hwyluso'r ffordd tuag at sicrhau newid trefniadol gan fy mod wedi ei ddilyn gyda chyngor pellach i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i wneud y Ddeddf yn rhan hanfodol o ganllawiau ar brosiectau trafnidiaeth drwy Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob penderfyniad ar ymyriadau trafnidiaeth (a drafodir ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn).

Rwyf yn awyddus i helpu trafnidiaeth yng Nghymru i ddod yn wirioneddol gynaliadwy, gan facsimeiddio ei gyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant a gwella'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau boddhaus yng Nghymru.

## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Sicrhau newidiadau trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus ac eraill ym mynd ati i wneud pethau
- Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru fwy cyfartal

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



*"Wrth symud ymlaen, byddaf yn parhau i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy."*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

# stoc dai

Mae tai yn ffurfio conglfaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Gall yr adeiladau yr ydym yn byw ynddynt barhau i fodoli mewn 100 mlynedd neu fwy, mlynedd neu fwy, ac felly mae'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud heddiw hefyd yn cael effaith fawr ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ymrwymo i adeiladu llawer o dai i fynd i'r afael â materion prinder tai. Drwy staff a rannwyd gydag **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru** a hefyd **Gymdeithas Tai Unedig Cymru**, bu fy ffocws cyntaf ar nodi ble gallaf gael yr effaith mwyaf – gan gynorthwyo'r symudiad tuag at economi gwyrdd carbon-isel a gwaith o well safon drwy ddatblygu mentrau Cymreig a chadwyn gyflenwi a fedr ddarparu tai sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Yn Nhachwedd 2017, cyflwynais ymateb i ymgynghoriad **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru** ar dai carbon isel, gan fanteisio ar arbenigedd sefydliadau yn cynnwys **Cartrefi Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol Cymru, Rounded Developments, Comisiwn Dylunio Cymru, Cartrefi Melin, WWF Cymru, Datblygiadau Un Blaned** a SPECIFIC (Prifysgol Abertawe). Awgrymais y meini prawf rhagarweiniol canlynol ar gyfer tai sy'n 'addas ar gyfer y dyfodol'.

- Hyblygrwydd
- Effaith amgylcheddol net positif
- Diogelwch rhag heriau'r dyfodol
- Llesiant Cymunedol
- Economi gwyrdd

Rhaid iddynt wneud hyn i gyd tra'n dal i roi blaenoriaeth i bwrpas canolog tai, sef darparu cartrefi i bobl lle gallant fod yn gysurus, yn iach a diogel.

Rwyf yn ymroi i ddylanwadu ar yr Adolygiad Tai Fforddiadwy a gomisiynwyd gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, Hannah Blythyn AC, a gofynion Grant Adnewyddu Tai Llywodraeth Cymru – grant £90miliwn i ddwyn newid i dai yng Nghymru. Rwyf eisiau sicrhau bod cyfleoedd i gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant yn rhan hanfodol o'r rhaglenni hyn.

## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru o gymunedau cydlynus



Mae Tŷ Solcer a ddyluniwyd ac a adeiladwyd gan Ysgol Bensaernïaeth Prifysgol Caerdydd (wedi ei ariannu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o dan raglen gydgyfeirio Sefydliad Ymchwil Carbon Isel) yn cynhyrchu mwy o ynni nag y mae'n ei ddefnyddio dros gyfnod o flwyddyn, gyda lleihad arwyddocaol mewn allyriadau carbon a biliau ynni i'r preswylwyr.

> *"Byddaf yn ymroi i ddylanwadu ar yr adolygiad tai fforddiadwy a'r grant adnewyddu tai."*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

# effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu

Mae ynni'n ganolog i'n bywydau a'n heconomi ac mae angen i ni symud yn gyflym tuag at ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddol megis pŵer dŵr, haul a gwynt.

Yn 2016 cynhyrchwyd 43% o ynni Cymru o ynni adnewyddol, gyda chynnydd o 47% mewn capasiti ynni adnewyddol ers 2014 sef 18% o'r holl ynni a gynhyrchwyd, ond rydyn ni'n llusgo ar ôl gweddill y DU. Mae gennym stoc dai sy'n gymharol hen na chafodd eu dylunio i gynilo ynni, a dyna un o'r rhesymau paham, yn 2016, yr oedd bron i chwarter y boblogaeth (23%) yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae angen ymagwedd fwy systematig tuag at wella effeithlonrwydd ynni ar y raddfa sy'n ofynnol, os yr ydym eisiau bod yn wirioneddol gynaliadwy.

Mae fy ngwaith y flwyddyn hon yn canolbwyntio ar yr agenda datgarboneiddio, y manylir arno yn yr adroddiad hwn, ac ar hybu ynni adnewyddol yn fy nghyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrff cyhoeddus.

Yn 2010 cafodd

**43%**

**o drydan yng Nghymru** ei gynhyrchu o ynni adnewyddol, cynnydd o **47%** ers 2014

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

*Gwnaeth* **Cyngor Bro Morgannwg** *leihau eu hallyriadau o 20% yn ystod y cyfnod 2013-2015 ac mae* **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** *wedi gosod cynlluniau graddfa fawr ffotofoltaig ar lawer o adeiladau yn cynnwys 39 ysgol, gan gynhyrchu 3000 KWh o drydan ac arbed £400 a 19 tunnell o CO2 bob blwyddyn ym mhob ysgol. Maent hefyd yn gosod pwyntiau gwefru trydanol ac yn cyflwyno cronfa gerbydau trydan ynghyd â chronfa feiciau i'w defnyddio gan staff ac maent wedi ail-fuddsoddi £1.87 miliwn mewn mesurau effeithlonrwydd ynni drwy gyfrwng y fenter Buddsoddi i Arbed'.*

*Mae* **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen** *yn ffocysu ar y newid yn yr hinsawdd a byddant yn mabwysiadu'r ymagwedd a hyrwyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru i asesu eu hôl-troed carbon.*

*Mae un o amcanion llesiant* **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** *yn ffocysu ar reoli carbon a gwastraff.*



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol

# Mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)

Mae fy meysydd blaenoriaethol hefyd yn ffocysu ar bobl a'u cydnerthedd ac yn eu hystyried naill ai fel cyfrannwyr o bwys neu fel rhai sy'n rhwystro llesiant yng Nghymru. Rwy'n cydnabod yr effaith a gaiff Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gyfleoedd bywyd pobl, ar gymdeithas, y nodau llesiant a chenedlaethau'r dyfodol.

**Darllenwch fwy**


Mae atal y profiadau niweidiol hyn rhag digwydd, lle maent eisoes wedi digwydd, a'u hatal rhag cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth yn faterion cymhleth y dylasem fynd i'r afael â hwynt ar y cyd drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf. Mae angen i lawer o'n gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i wneud i hyn ddigwydd. Ni all unrhyw un ddatrys hyn ar ei ben ei hunan. Mae'r gwaith yr wyf wedi ei gyflawni yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cynorthwyo datblygiad a chyfrannu tuag at – Hwb Cymorth ACE – rhaglen waith o dan y bartneriaeth **Cymru Well Wales** sy'n datblygu ac yn rhannu arbenigedd ar sut i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod er mwyn cynorthwyo gweithrediadau pob corff cyhoeddus.
- Datblygu partneriaeth gyda'r system cyfiawnder troseddol drwy secondiad rhan amser gyda **Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth ei Mawrhydi yng Nghymru** i weithio'n agosach gyda'r Hwb Cymorth ACE.
- Cynorthwyo cais **Cronfa Trawsnewid yr Heddlu** i'r Swyddfa Gartref a sicrhaodd £6.78 miliwn i hwyluso trawsnewid plismona yng Nghymru'n aml-asiantaeth wybodus ei hymagwedd tuag at Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, sy'n galluogi ymyriad cynnar gan atal achosion craidd. Bydd y rhaglen hon yn dwysáu'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan **Hwb Cymorth Cynnar Maesteg.**
- Gweithio gyda Chyfnewidfa Arfer da Swyddfa Archwilio Cymru i gynhyrchu adnoddau dysgu ar gyfer cyrff cyhoeddus yn cynnwys gwefinarau.
- Rhoi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar sut i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod drwy broses gynllunio llesiant.

Drwy'r gwaith hwn rwyf wedi fframio'r ddadl a sicrhau ymrwymiadau polisi i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a ddangosir drwy 16 o'r 19 cynllun llesiant drafft ac amcanion llesiant.

Bydd fy nhîm yn parhau i herio'n adeiladol y partneriaid Hwb ac **ymagwedd yr ACE cenedlaethol tuag at blismona'r rhaglen fregusrwydd** i sicrhau bod y Ddeddf yn parhau'n egwyddor sylfaenol yn eu gwaith. Byddaf hefyd yn parhau i helpu i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gwybodus mewn Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i beri'r newid ymarferol sydd ei angen mewn eraill.



## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau
- Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

### *Hwb Cymorth Cynnar Maesteg*

*Mae* ***Hwb Cymorth Cynnar Maesteg*** *yn enghraifft wych o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Ei amcan yw ymyrryd yn llawer cynt lle mae gan deuluoedd faterion sydd efallai ar lefel isel neu gymhleth, i wneud yn siŵr nad ydynt yn gwaethygu'n faterion sy'n golygu ymgyfraniad gwasanaethau cyhoeddus a diogelwch. Maent yn dod i wybod am bobl ifanc sy'n amlwg yn dioddef profiadau niweidiol na fyddent efallai wedi cael unrhyw gymorth cyn hyn. Maent yn gwneud hyn drwy rannu gwybodaeth yn well, drwy weithio ar draws nifer o asiantaethau yn cynnwys yr heddlu,* ***Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Barnardos Cymru*** *ac* ***NSPPC Cymru*** *i adnabod pobl ifanc a theuluoedd sydd efallai ar fin cael problemau neu faterion a fydd yn achosi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.*

> *"Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi bod yn gwbl allweddol yn natblygiad y rhaglen hon yng Nghymru, i Gymru. Rhoddodd y cyd-destun cyfreithiol a bennwyd gan y Ddeddf a hefyd yr ymchwil i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod gyfle i edrych ar sut y gallem weithio'n wahanol ar draws Cymru. Un o'r rolau allweddol a chwaraewyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw cynorthwyo cais sylweddol ar gyfer cyllid i'r Swyddfa Gartref yn Llywodraeth y DU."*
>
> **Janine Roderick**
> Cyfarwyddwr ymagwedd yr ACE Cenedlaethol tuag at y rhaglen plismona bregusrwydd

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Gwrando ac ymateb i'r cyhoedd

Mae'n bwysig fy mod yn ymwybodol o enghreifftiau lle mae pobl yn teimlo nad yw cyrff cyhoeddus yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rwyf yn annog pobl a sefydliadau i ysgrifennu ataf. Tra nad oes gennyf swyddogaeth gwaith-achos ar gyfer ymyrryd mewn achosion penodol rwy'n ymroi i ganfod materion systemig sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae aelodau o'r cyhoedd yn ysgrifennu ataf am ystod eang o faterion ac yn galw arnaf i herio'r modd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Tra nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i mi ymyrryd neu wyrdroi penderfyniadau penodol, fy ymagwedd yw darparu cyngor ac arweiniad ar weithrediad y Ddeddf, gan fy mod yn gweld hyn fel cyfle pwysig arall i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag unigolion a grwpiau gweithredu. Rwyf hefyd yn awyddus i alluogi pobl i ddefnyddio'r Ddeddf yn uniongyrchol yn eu rhyngweithio gyda chyrff cyhoeddus i annog gwell ymgyfraniad.

Mae'n glir oddi wrth yr ohebiaeth a dderbyniaf y byddai llawer o bobl yn hoffi herio'r system bresennol – y ddeddfwriaeth, gweinyddiaeth, biwrocratiaeth, y ffordd o wneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau. Yn aml, mae pobl a chymunedau sy'n ysgrifennu ataf yn teimlo bod datblygiadau a phenderfyniadau'n cael eu gwthio arnynt, maent yn awyddus i gael gwrandawiad ac i ymgyfrannu o'r cychwyn cyntaf fel y gallant gael cyfle i helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau cyd-gysylltiedig i heriau'r dyfodol sy'n gweithio iddynt hwy a chenedlaethau'r dyfodol.

Ymgymerais ag adolygiad mewnol o'r ohebiaeth a dderbyniais yn 2017 i drwytho ymarfer fy swyddogaethau ac adnabod elfennau cyffredin drwy y rhain y gallaf ddarparu her, cymorth a chyngor i gyrff cyhoeddus.

Derbyniais dros **200 o lythyron** yn 2017-2018 oedd yn galw arnaf i herio penderfyniadau a pholisïau. Roedd y mwyafrif oddi wrth unigolion, ond lleiafrif mawr oddi wrth gymunedau cymunedol a gwleidyddion lleol.

Mae dros **40 o wahanol faterion wedi eu codi** yn dilyn cau canolfannau hamdden, datblygiadau tai, gweithfeydd ynni a gwastraff, adeiladu ffyrdd, torri coed, ansawdd aer ayb.

Y prif themâu sy'n ymddangos dro ar ôl tro yw cynllunio defnydd tir, cyfleusterau lleol, rheoliadau trwyddedu cynllunio ac ynni.

**Mae ymgyfrannu wedi bod yn ffactor mewn mwy na thraean o'r holl lythyron** - nid yw pobl yn teimlo eu bod yn ymgyfrannu yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Roedd 80% o'r llythyron yn ymwneud â chyrff sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf.** Roedd llythyron a dderbyniwyd yn ymwneud â 24 o'r 44 corff cyhoeddus a'r mwyaf cyson oedd Llywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Caerdydd.

Rwyf wedi gweithio gyda **Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru** i ymateb i'r materion â'u cylch gwaith yn gorgyffwrdd.s.

Mae adborth yn dangos bod fy nghyngor wedi helpu i **fframio dadl** a sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau ac mae wedi cael **effaith ymarferol ar y modd y mae cymunedau wedi ymgyfrannu** mewn gwneud penderfyniadau ar lefel leol.

Byddaf yn ysgrifennu at gyrff cyhoeddus perthnasol i roi gwybodaeth iddynt am y materion a godwyd gyda mi gan wneud adolygiad tebyg yn flynyddol.

*"Mae aelodau o'r cyngor cymuned wedi gofyn i mi ddiolch yn fawr i chi am eich ymateb manwl. Mae eich llythyr wedi rhoi dull newydd o feddwl i aelodau newydd a allai fod yn ddefnyddiol."*

**Un cyngor cymuned**

*"Diolch o waelod calon am eich ateb cynhwysfawr a defnyddiol. Rwy'n gwerthfawrogi eich cyngor yn fawr iawn a byddaf yn defnyddio'r wybodaeth pan fyddaf yn delio â'r mater hwn."*

**Judith**
o Wynedd

*"Helo Sophie, Llawer o ddiolch am eich ymateb llwyr a gwybodus. Mae'n hynod ddefnyddiol ac rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn a'r dolenni yr ydych wedi eu rhoi i ni."*

**Helena a Chris**
Powys

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

*"Diolch yn fawr iawn am roi gwybod i ni ymlaen llaw am ddatganiad y Comisiynydd i'r wasg. Rydym wrth ein bodd fod y Comisiynydd wedi medru defnyddio ein hachos i helpu i amlygu'r materion sydd o bwys mawr i ni i gyd ac wrth gwrs fe welodd pawb yr erthygl a'r diddordeb a enynnodd yn y cyfryngau."*

**John**
o Gaerffili

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer o bobl wedi cysylltu â mi a fynegodd bryder am ystod o ddatblygiadau ar draws Cymru, yn arbennig y Cynllun Biomas yn y Barri a chyfleuster gwastraff Hazrem yng Nghwmfelinfach. Nid yw fy rôl fel y'i disgrifiwyd yn y Ddeddf yn cynnwys swyddogaeth gwaith-achos i ymyrryd mewn achosion penodol, fodd bynnag rwyf wedi addo gwrando ar bryderon y tynnir fy sylw atynt gan y cyhoedd a monitro'r rhain i ganfod unrhyw faterion systemig ehangach.

Ymddangosodd **penderfyniadau trwyddedu amgylcheddol** a wnaed gan **Gyfoeth Naturiol Cymru** fel elfen gyffredinol yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd gennyf ac felly yn Nhachwedd 2017, ysgrifennais at Gyfoeth Naturiol Cymru am fwy o wybodaeth a sicrwydd am y modd yr oedd eu proses drwyddedu amgylcheddol yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gweithiais gyda'n cyfreithwyr i archwilio'r wybodaeth a roddwyd ganddynt, ac rwyf yn croesawu parodrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio yn y broses hon. Roeddwn hefyd yn ddiolchgar am yr wybodaeth oddi wrth grwpiau cymunedol, cynrychiolwyr lleol a rhanddeiliaid eraill a roddodd fewnwelediad defnyddiol a thystiolaeth i mi.

> *Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am gymryd cymaint o ddiddordeb yn y broses a ddefnyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru i roi Trwydded Amgylcheddol a gwn fod y Grŵp Gweithredu ar Losgydd Dociau'r Barri, ynghyd â phreswylwyr y Barri a'r Fro, yn rhannu'r teimlad hwn.*
>
> **Jane Hutt AC,**
> Bro Morgannwg

Adnabu fy nhîm a minnau rai o'r meysydd lle dylai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn fy marn, ymgymryd â gwaith pellach i sicrhau fod yr holl broses sy'n ymwneud â thrwyddedu amgylcheddol a systemau cysylltiol sy'n berthnasol iddo, yn gweithio'n ddeallus gyda'i gilydd. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen ond fy argymhellion cychwynnol yw:

- Y byddwn yn cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i wella gweledededd y modd y maent yn defnyddio'r Ddeddf ac egluro'u penderfyniadau trwyddedu, a gwnaethom gytuno i adolygu cynnydd ymhen blwyddyn.
- Y byddwn yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar ganllawiau statudol i egluro gweithrediad y Ddeddf a'i hymgorfforiad yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru).
- Y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i edrych ar holl siwrnai datblygiadau arfaethedig yn cynnwys rhyngweithio gyda, a rolau a chyfrifoldebau, rhannau eraill o'r system yn cynnwys cynllunio, trwyddedu, asesiadau effaith ac ymgyngoreion statudol, fel bod y system yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn hawdd i'r cyhoedd yn gyffredinol ei deall. Mae ymgynghoriad drafft Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) yn rhoi impetws ar gyfer y fath ymagwedd.
- Y bydd fy swyddfa'n mynychu hyfforddiant mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn rhoi cyngor.

> *Cafodd eich ymyriad diweddar ym mhenderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gwmfelinfach ei groesawu gan gymuned Cwm Sirhywi Isaf.*
>
> **Chris**
> o Gaerffili

> *Annwyl Sophie, rwy'n berchen cyfranddaliadau yn Aviva. Rwy'n ystyried bod y Barri, wrth wthio'r gweithfeydd biomas ar y preswylwyr yn ymddwyn yn anfoesol. Mae cyfran fawr o'r cyfranddalwyr (yn cynnwys fy hunan) yn gwrthryfela. Os gwelwch yn dda peidiwch stopio.*
>
> **Cyfranddaliwr Aviva**
> Swydd Efrog

## Impact:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Sicrhau newid yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus (Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) yn mynd ati i wneud pethau.
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau
- Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill

> *Annwyl Sophie... Fel y gwyddoch, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda'ch tîm ers Tachwedd 2017 i edrych ar ein swyddogaeth drwyddedu i weld sut rydyn ni'n adeiladu gofynion y Ddeddf i mewn i'n dull o wneud penderfyniadau. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol ac addysgiadol, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr iawn eich cymorth a'ch cyngor. Gan ddefnyddio rhai enghreifftiau penodol o benderfyniadau diweddar, rydyn ni wedi sylwi, er ein bod yn ystyried y pum dull o weithio, y gallem wneud mwy, ac mae yna hefyd angen i ni sicrhau ein bod yn cofnodi'r ymresymu sydd wrth wraidd ein penderfyniadau'n fwy manwl. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi ar hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf – i ddatblygu ein cyfarwyddyd ar reoleiddio ymhellach yn ogystal â'n proses ar gyfer dogfennu ein penderfyniadau.*
>
> **Clare Pillman,**
> Prif Weithredydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru o gymunedau cydlynus

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales

# Pwrpas 2


# Cefnogi a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i feddwl am yr effaith hirdymor

I gyflawni fy nyletswydd i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn arbennig ei ofyniad i mi **weithredu fel gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol,** rwyf wedi penderfynu rhoi her, cymorth a chyngor mewn nifer o feysydd.

Eleni rwyf wedi ffocysu fy sylw:

- Ar gynhyrchu **Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol** i roi cyfarwyddyd i gyrff cyhoeddus ac eraill ar ddefnyddio'r Ddeddf.
- Ar **gynghori byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar** amcanion llesiant a chynlluniau llesiant.
- Ar **gynghori ar bolisïau a phrosiectau penodol** yn cynnwys bargeinion dinesig, cyllidebu strategol Llywodraeth Cymru, datgarboneiddio, caffael, cynllunio, **WelTAG, Metro De Cymru** a fframwaith cynllunio'r **GIG.**

Hefyd, wrth baratoi ar gyfer cyhoeddiad adroddiadau blynyddol cyntaf cyrff cyhoeddus rhwng Mai 2018 a Mai 2019, rwyf hefyd wedi gosod yn ei lle fy strategaeth ar gyfer gweithredu fy nyletswydd i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion yn cael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus a byddaf yn gweithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru (gweler y manylion o dan 'Pwrpas 3' isod).



> *"Rwyf hefyd wedi gosod yn ei lle fy strategaeth ar gyfer gweithredu fy nyletswydd i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion yn cael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus."*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Fframwaith cenedlaethau'r dyfodol

Ar y cyd â'r **New Economics Foundation (NEF)** Consulting, rwyf wedi datblygu'r Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol – set o ysgogiadau wedi eu bwriadu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymgorffori amcanion a chynlluniau llesiant, y pum dull o weithio a'r nodau llesiant yn y broses o wneud penderfyniadau.

Ar ôl ystyried adborth oddi wrth ystod o ddefnyddwyr, cwblheais a chyhoeddais hwn fel Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau yn Rhagfyr 2017. Rwyf wedi ei rannu gyda phob corff cyhoeddus ac yn dymuno eu gweld yn ei ddefnyddio mewn unrhyw brosiectau seilwaith mawr a ddatblygir ganddynt, yn ogystal ag annog grwpiau cymunedol ac unigolion sy'n ysgrifennu ataf i'w ddefnyddio yn eu rhyngweithio gyda chyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod y ddau fis diwethaf, ymwelodd dros **2,000** â'n gwefan ac mae wedi cael ei defnyddio gan:

- **Dinas Ranbarth Bae Abertawe** ar un o'u prosiectau (Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli)
- Gwnaeth **Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd** ei ddefnyddio i drwytho Cynllun Busnes ei Bargen Ddinesig
- **Trafnidiaeth Cymru** parthed y system Fetro
- **Llywodraeth Cymru** fel rhan o'u Harweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)
- **Cyngor Ynys Môn** i asesu gwahanol ddewisiadau ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol prosiect seilwaith mawr fel yr Wylfa Newydd
- Mae **Chwaraeon Cymru** yn trwytho ei sgwrs genedlaethol a'i gweledigaeth. Drwy roi'r cyngor hwn, gwnaethom sicrhau newid trefniadol yn y modd yr oedd Chwaraeon Cymru'n mynd ati i weithredu'r darn mawr hwn o waith.

Mae **Llywodraeth Cymru** ar hyn o bryd yn y broses o benodi cadeirydd ac aelodau'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo cyngor annibynnol, wedi ei drwytho'n well, ar strategaeth tymor hwy ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith. Unwaith y bydd hwn yn ei le (i'w ddisgwyl ym Mehefin/Gorffennaf 2018) byddwn yn ystyried gweithio gyda hwynt i gyflawni'r dyhead hwn, gan roi cymorth drwy ddulliau o weithio megis ein fframwaith.

Mae'r fframwaith wedi llunio sylfaen ar gyfer cyfres o gynhyrchion ac wedi ei anelu at gynorthwyo pobl i sicrhau eu bod yn defnyddio'r Ddeddf yn iawn. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru rwyf wedi datblygu'r fframwaith ymhellach i'w ddefnyddio mewn dylunio gwasanaeth ac wedi ei gyhoeddi ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (gweler y sgrîn ddarluniau sydd ynghlwm). Mae adborth yn dangos bod cyrff cyhoeddus wedi cychwyn defnyddio'r cwestiynau yn eu gwaith i ysgogi meddwl. Dywedodd un rheolwr corfforaethol mewn awdurdod lleol:

> *"Gallaf weld sut fydd y fframwaith hwn yn ddefnyddiol i ni pan fyddwn yn ystyried cynigion i'r cabinet neu'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Gallwn ddethol y cwestiynau hyn i'w defnyddio wrth asesu a yw'r Ddeddf mewn gwirionedd wedi cael ei hystyried hyd yn hyn wrth wneud penderfyniadau."*

Byddaf yn cadw golwg ar y cynhyrchion hyn a'r defnydd a wneir ohonynt a byddaf yn gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru i gyd-gynhyrchu fersiwn sy'n addas i fyrddau a phwyllgorau graffu arno.



## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Sicrhau newididau trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus ym mynd ati i wneud pethau
- Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rhoi cyngor

# i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant

Mae fy ail flwyddyn wedi ffocysu ar gyflawni un o fy nyletswyddau penodol o dan y Ddeddf sef cynghori byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau). Gwneuthum benderfyniad cynnar i roi adborth unigol i bob un o'r 19 BGC ar eu hasesiadau llesiant i sicrhau eu bod yn gweithredu'r Ddeddf i eithaf eu gallu o'r cychwyn cyntaf.

Cafodd casgliadau'r gwaith hwn eu cyhoeddi yng Ngorffennaf 2017 yn fy adroddiad Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory a lansiwyd mewn 'anghynhadledd' gan roi i FGCau ofod ar y cyd oedd yn ddiogel fel lle i ddysgu, trafod y profiadau o weithio ar yr asesiadau llesiant a chynlluniau, a thrafod yr hyn oedd ar eu meddwl.

Adnabu'r casgliadau allweddol o'r gwaith hwn:

- Bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi cymryd y cam cyntaf i'r cyfeiriad cywir. Dylid eu llongyfarch am yr ymagwedd gadarnhaol a fabwysiadwyd ganddynt wrth gwblhau'r asesiadau.
- Bydd arweinyddiaeth egnïol yn parhau i fod yn bwysig. Mae angen dangos yn gliriach **barodrwydd i wneud pethau'n wahanol,** i barhau i chwalu seilos a symud y ffocws o'r tymor byr i'r hirdymor.
- Mae angen mwy o waith ar gyfer **adeiladu gwell dealltwriaeth o fywydau pobl**. Dangosodd yr asesiadau bod ymdrechion clir wedi eu gwneud i weithio gyda'r cyhoedd ond mae angen gwneud rhagor i symud i ffwrdd oddi wrth ymgynghori traddodiadol tuag at sgwrs barhaus sy'n manteisio ar wybodaeth dydd i ddydd wedi ei chasglu o wasanaethau rheng flaen.
- Mae'r asesiadau'n amlygu nifer o dueddiadau brawychus. Mae'r rhain yn cynnwys gordewdra mewn plant, anghydraddoldebau iechyd, y newid yn yr hinsawdd, a thlodi parhaus sy'n pontio cenedlaethau. Mae angen i FGCau ennill y sgiliau, yr adnoddau a'r arbenigedd ar gyfer **deall yn well dueddiadau'r dyfodol** a sut i ymateb iddynt.
- Mae angen i gyrff cyhoeddus **dwrio'n ddyfnach i ddata.** Dylai'r asesiadau fod nid yn unig yn gasgliad o ddata, dylent fod yn gyfle i greu cysylltiadau rhwng materion allweddol gan ofyn " beth felly?" fel canlyniad i'r data sydd gennym.
- **Mae materion yn aml yn dal i gael eu taclo ar eu pen eu hunain.** Mae angen i FGCau ddangos dealltwriaeth ehangach o lesiant a chydnabod y cysylltiadau rhwng materion. Mae angen i FGCau ddangos sut y maent yn adnabod ac yn archwilio tensiynau rhwng gwahanol faterion a blaenoriaethau i alluogi trafodaeth ddidwyll am yr ymagweddau newydd a'r cydweithio sydd angen eu mabwysiadu wrth wneud pethau'n wahanol.



## Beth yw 'anghynhadledd'?

*Mewn 'anghynhadledd' mae'r agenda i raddau helaeth heb ei gynllunio ac mae cynrychiolwyr yn rhestru materion i'w trafod mewn gweithdai. Yn hytrach na chael nifer o anerchiadau, anogir cynrychiolwyr i greu'r ddadl eu hunain ac yn hytrach na chael Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fel prif siaradwr, cafodd ei wahodd fel 'gwrandäwr craff'. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys craffu, asesiadau llesiant, diffinio atal a chydweithio. Drwy gydol y dydd, rhoddodd gwirfoddolwyr fewnwelediad i brofiadau eu bywyd, i helpu cynrychiolwyr y sector cyhoeddus i feddwl am effaith eu gwasanaethau ar fywydau go iawn.*

*Mynychwyd ein 'anghynhadledd' gan oddeutu 250 o bobl o ryw 80 sefydliad.*

*Daliwyd cwestiynau a sylwadau gan ein hadnodd ar-lein Slido, a ddangosodd mai'r thema gyffredinol drwy gydol y dydd oedd 'pobl'.*

*Fel canlyniad i ffocysu ar brofiadau pobl o wasanaethau cyhoeddus, roedd gwell ymgyfraniad yn fater a gododd ym mhob gweithdy, a siaradodd yr actor a'r ymgyrchydd Michael prynhawn am bwysigrwydd galluogi pobl i godi eu llais a chael gwrandawiad.Fel canlyniad I ffocysu ar brofiadau pobl o wasanaethau cyhoeddus, roedd gwell ymgyfraniad yn fater a gododd ym mhob gweithdy a siaradodd yr actor a'r ymgyrchydd Michael Sheen yn y prynhawn am bwysigrwydd galluogi pobl I godi eu llais a chael gwrandawiad.*







Ers yr 'anghynhadledd', mae digwyddiadau eraill a sefydliadau eraill wedi cychwyn defnyddio actorion neu ddefnyddwyr gwasanaethau i fframio dadleuon ac annog cyrff cyhoeddus i ystyried penderfyniadau o safbwynt y bobl y maent yn eu gwasanaethu. Er enghraifft, roedd y digwyddiadau yn Ionawr 2018, a gynhaliwyd ar y cyd gan fy swyddfa, y Gyfnewidfa Arfer Da, Cymdeithas Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru a Chonfederaliaeth y GIG ar rôl craffu mewn perthynas â chenedlaethau'r dyfodol, yn cynnwys tystebau oddi wrth bobl ifanc a pherfformiad gan actorion ifanc, chwarae-rôl, a sefyllfaoedd o fywyd go iawn.

## Dyfyniadau'r rhai oedd yn bresennol:

*"Gellid gosod swyddogion gwasanaethau cyhoeddus mewn sefyllfa lle maent yn cael eu gwthio'n llawer amlach i mewn i ddulliau newydd o wneud pethau. Roedd y digwyddiad ar ddydd Llun yn gam i ffwrdd o'r dulliau arferol lle rydym fel arfer yn cael y sgyrsiau hyn, ond nid mor bell oddi wrth y 'norm' i ynysu pobl. Mae llwyddo i wneud hyn yn gamp a gallaf ei weld yn dwyn dulliau amgen o gynnal sgyrsiau yn y dyfodol, rhai sy'n agosach at y brif ffrwd. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd arloesedd mewn gwirionedd yn rhywbeth sydd angen ei ofni."*

*"Y sesiwn drafod gyntaf ar graffu, profiadau bywyd pobl, yn cyd-fynd â'i gilydd yn berffaith. Fe weithiodd yn dda iawn."*

*"Roeddwn i eisiau dweud pa mor dda oedd yr 'anghynhadledd' ar 17 Gorffennaf – roeddwn rhwng dau feddwl am y peth cyn iddo ddigwydd os ydw i'n onest, ond credaf na fyddai'r meysydd a drafodwyd ar y dydd yn y gweithdai wedi bod yr un fath petaent wedi cael eu gosod ar agenda ymlaen llaw. Credaf fod pobl, er eu bod ar y cychwyn yn teimlo'i fod yn rhyfedd, wedi teimlo ei fod yn llawer mwy hamddenol na rhywbeth mwy ffurfiol. Fe wnes i adael gyda rhai syniadau i'w dwyn rhagddynt. Roedd yn llwyddiant dwi'n credu."*




# Effaith:

- **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

A globally responsible Wales

Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Fel cam nesaf yn y broses, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hamcanion a'u cynlluniau llesiant lleol drafft sy'n adeiladu ar yr asesiadau llesiant. Rhaid i mi roi'r adborth o fewn 14 wythnos i bob BGC.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rhoi cyngor i'r

# byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hamcanion a'u cynlluniau llesiant

Fy mwriad wrth roi cyngor i bob un o'r 19 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus oedd bod yn gynorthwyol yn ogystal â heriol. Yn ysbryd cydweithio ac ymgyfrannu rwyf wedi sicrhau bod BGCau wedi cael y cyfle i ymgysylltu drwy gydol y cyfnod cynghori ynghyd â phartneriaid eraill oedd yn gweithio gyda mi ac a drwythodd y cyngor a roddwyd gennyf.

Mae fy nghyngor wedi trwytho gosodiad y cynlluniau llesiant a'r camau sydd angen i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus eu cymryd i gyflawni eu hamcanion. Mae wedi cwmpasu ystod eang o bynciau ac wedi herio BGCau i feddwl yn wahanol am y modd y byddant yn cyflawni heriau hirdymor a blaenoriaethau lleol. Mae'r cyngor cyflawn i bob BGC yma, ond rhoddir rhai enghreifftiau o'r cyngor isod:

- Wrth osod eu camau a chyhoeddi cynllun llesiant, **ym mha fodd y mae hyn yn wahanol** i'r hyn sydd wedi ei wneud yn y gorffennol? Pa wasanaethau fydd yn cael eu heffeithio, pa ymrwymiadau a wnaethant a sut mae pethau'n mynd i newid yn yr ardal?

- Dylai BGCau **feddwl am y dyfodol o safbwynt cyflogaeth a sgiliau**. Mae'r adroddiad Dyfodol Gwaith yn rhagweld y bydd 65 y cant o'r plant sy'n cychwyn yr ysgol yn awr yn gweithio, fel oedolion, mewn swyddi nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Ac yn ôl McKinsey gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd.

- **Mae seilwaith yn mynd tu hwnt i dai** – mae'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol, adeiladau, seilwaith a mannau agored cyhoeddus a chymunedol eraill fel rhan o'r cynllun datblygu lleol yn hollbwysig ar gyfer creu man llewyrchus, amgylcheddol-gydnerth. Mae'r adroddiad Closing the Circle yn rhoi enghreifftiau o'r modd y gall y sector cyhoeddus finimeiddio gwastraff ac adnoddau..

- **Mae'r newid yn yr hinsawdd yn her enfawr fyd-eang,** ond mae gennym i gyd gyfrifoldeb. Mae adroddiad diweddar Making it Happen Zero Carbon Britain yn nodi sut fedrwn ni weithredu nawr ar y newid yn yr hinsawdd ar gyfer y genhedlaeth nesaf. A yw ymagweddau presennol yn ddigonol ar gyfer ymdopi, a pha weithredu ataliol ellid ei gyflawni.

- Mae'n bwysig bod BGCau yn dyfnhau eu dealltwriaeth o **brofiadau bywyd pobl leol** yn eu cymunedau, a defnyddio chwaraeon, treftadaeth, iaith, traddodiadau a'r amgylchedd naturiol i alluogi pobl i gyfranogi.

- **Mae ennyn ymgyfraniad pobl yn ganolog ar gyfer herio'r system** oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae 'Why poor people don't plan long-term' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl yn y dasg o oresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn gan Locality yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o beidio mabwysiadu'r ymagwedd ataliol hon tuag at fywyd pobl.

Mae fy nghyngor hefyd wedi ffocysu ar bwysigrwydd ennyn ymgyfraniad pobl yn natblygiad asesiadau llesiant a chynlluniau a gwaith parhaus. Rwyf yn falch i weld BGCau yn derbyn y cyngor hwn, er enghraifft:

Sylweddolodd **BGC Sir Fynwy** yr angen i ennyn ymgyfraniad eu preswylwyr yn y cyfnod cynharach. Eu bwriad wrth iddynt ddrafftio amcanion oedd ennyn ymgyfraniad pobl (heblaw am y sefydliadau oedd yn bartneriaid iddynt) yn unig ar ôl dosbarthu'r cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori arno. Ond ar ôl derbyn fy nghyngor, treuliasant fwy o amser yn drafftio amcanion gan ennyn ymgyfraniad partneriaethau llawr gwlad ac aelodau eu cymuned yn gynnar ar gyfer llunio amcanion.

Darparodd **BGC Blaenau Gwent** gyfleoedd ar gyfer ymgyfrannu mewn asesiadau a datblygiad cynlluniau. Roedd y Blaenau Gwent a Garem yn golygu mynd i ganol pobl ac annog darluniau a chardiau post oddi wrth bobl ifanc am eu bywydau i drwytho gwasanaethau cyhoeddus yr ardal ar yr hyn sydd o bwys i bobl.

Mae **BGC Cwm Taf** yn rhannu adnoddau lle mae hynny'n bosibl, ymhlith partneriaid BGCau, yn cynnwys **Interlink RCT.** Mae **Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudfu**l wedi ymgyfrannu yn natblygiad amcanion a chamau'r BGC a chyn hyn wedi cynhyrchu fideos grymus am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, gan ddwyn eu profiadau i mewn i fforymau gwasanaethau cyhoeddus.

Bwriad fy nghyngor oedd ymestyn eu hymresymu wrth iddynt feddwl am gyflawni eu hamcanion. Mae adborth oddi wrth fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi dweud eu bod yn cydnabod gwerth hyn ac wedi gofyn am i'r berthynas hyfforddi rhyngom barhau ac mae wedi dylanwadu ar strwythur a chynnwys eu cynlluniau llesiant.

Byddaf yn parhau i wrando ar yr adborth ar yr hyn y gellid bod wedi ei wneud yn well yn y ffordd yr ydym wedi cynorthwyo BGCau, yn cynnwys yr angen i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol ag aelodau a swyddogion a sicrhau bod y pwyntiau allweddol yn ein cyngor yn rhai y gellir manteisio arnynt yn hawdd.

> *"Credaf mai'r hyn oedd yn bwysig i ni oedd y ddeialog barhaus a gawsom. Cawsom nifer o gyfarfodydd gyda Helen Morgan o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn nhermau'r cyngor ysgrifenedig, roedd hwnnw yn wir yn hynod ddefnyddiol a chawsom syndod i weld ei fod mor fanwl oherwydd yr oedd llawer o hyper-ddolenni i bapurau ymchwil ynddo, a phethau a allai fod yn ddefnyddiol i ni ar gyfer meysydd arbennig yn ein cynllun. Treuliasom beth amser yn canolbwyntio arnynt a thalu sylw i'r papurau ymchwil."*
>
> **Kathryn Peters,**
> Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

*"Maen nhw'n cerdded ochr yn ochr â ni, a does neb yn gwybod pa fath drywydd yw hwn eto, rydyn ni'n teithio drwyddo. Felly roedd honno'n ymagwedd ddefnyddiol hefyd."*

**Bernadette Elias,**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

*"Yr hyn a fu'n wirioneddol bwysig yw'r proffil y mae'r swyddfa wedi ei ddwyn i'r Ddeddf. Mae wedi golygu nad yw'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni yn cael ei weld fel rhywbeth ar yr ymylon, mae'n golygu ei fod yn ganolog ym meddyliau'n cydweithwyr a gwleidyddion, yn lleol a chenedlaethol."*

**Matthew Gatehouse,**
Cyngor Sir Fynwy

## Impact:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau
- Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill

Er nad oes gennyf ddyletswydd gyfatebol i gynghori cyrff cyhoeddus unigol ar eu hamcanion a'u camau llesiant, mae'n rhaid i mi fonitro ac asesu i ba raddau y maent yn eu cyflawni.

## Sylwadau a gasglwyd o adborth cydlynwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

*"Roedd y llythyr yn hynod werthfawr... roedd yr holl wybodaeth a oedd ynddo'n ddefnyddiol. Roedden ni'n hoffi'r adborth cynhwysfawr."*

*"Fe ddefnyddion ni eich cyngor i ddangos y cysylltiadau rhwng ein hamcanion, gan wneud y camau'n fwy integredig."*

*Drwy siarad â chi yn ystod y cyfnod cyngor14 wythnos , daethom i sylweddoli bod arnom angen ymgyfraniad mwy o bobl wrth ddrafftio'n hamcanion gan arafu pethau ac ennyn ymgyfraniad partneriaethau llawr gwlad ac aelodau o'r gymuned, nid yn unig i roi sylwadau ar, ond hefyd i lunio, ein cydamcanion."*

*"Y cyngor oddi wrth y Comisiynydd oedd bod arnom angen gweithio'n wirioneddol galed i wneud yn siwr bod gennym y bobl â 'nodweddion gwarchodedig'. Fe wnaethom ein gorau oherwydd y cyngor hwnnw i wneud yn siwr ein bod yn cyrraedd pobl o bob oed, pobl ag anableddau a phobl o bob ystod o gefndir na fyddent hwyrach fel arall wedi mynychu digwyddiadau. Yn hytrach na disgwyl i bobl ddod atom ni, gwnaethom ymdrech i ymweld â gwahanol fathau o grwpiau, gwahanol sefydliadau, eistedd yn ystafell aros y clinig ffliw, a mannau eraill... "... Roedden nhw'n glir ynglŷn â phwysigrwydd defnyddio'r pum dull o weithio ac ymgyfraniad a chydweithio fel rhan o hynny, ond gan roi llawer o ryddid i ni benderfynu ar ymagwedd oedd yn gweddu i ni."*

**Hazel Clatworthy,**
Cyngor Sir Fynwy

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwydiant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Monitro ac Asesu

Erbyn Ebrill 2017 roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lleol a chenedlaethol ledled Cymru a gwmpesir gan y Ddeddf i gyhoeddi eu hamcanion a'u camau llesiant, gan ddangos sut y byddant yn gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Cymru a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae'r cyrff cyhoeddus hyn wedi neilltuo llawer o amser ac ynni i sicrhau eu bod yn cyflawni amserlen heriol wedi ei phennu'n gyfreithiol, tra'n gweithio ar asesiadau llesiant ar gyfer eu hardal leol a datblygu cynlluniau llesiant ar y cyd os yr oeddent yn eistedd ar fyrddau cyrff cyhoeddus. Ers Ebrill 2017, mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn gweithio tuag at gasgliad o 345 amcan ac yn awr mae'n rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.

Mae'n ofynnol i mi fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r fath amcanion yn cael eu cyflawni. Eleni rwyf wedi bod yn datblygu fy ymagwedd ar gyfer gwneud hyn, cyn derbyn y set gyntaf o adroddiadau blynyddol oddi wrth gyrff cyhoeddus a fydd yn cael eu cyhoeddi rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

Gwaith ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilio'r modd y mae'r pum dull o weithio'n cael eu defnyddio gan gyrff cyhoeddus. Mae natur gyflenwol ein swyddogaethau, ynghyd ag ethos y ddeddfwriaeth (yn arbennig integreiddio, cydweithio ac ymgyfrannu) wedi ein harwain ni – Archwilydd Cyffredinol Cymru a minnau – i weithio'n agos iawn gyda'n gilydd ac fe wnaethom ddatblygu strategaethau cyfochrog a chyflenwol i gyflawni ein swyddogaethau. Mae'n hollbwysig i ni nad ydym yn anfon negeseuon sy'n gwrthdaro i gyrff cyhoeddus a'n bod yn cyd-dynnu i'r un cyfeiriad wrth sbarduno'r newidiadau dwfn a chywir tuag at y Gymru a garem.

Dros amser, byddaf i, Swyddfa Archwilio Cymru a phobl Cymru'n disgwyl i gyrff cyhoeddus fedru dangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud. Gan ein bod yn awr ar drothwy'r drydedd flwyddyn o ddeddfwriaeth, disgwyliaf weld mwy o gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu newidiadau syml ledled Cymru, yn ogystal ag ymagweddau newydd gan symud tuag at beri i newid trawsffurfiol ddigwydd.

Rwyf wedi gwneud **dadansoddiad o'r 345 amcan ac wedi edrych i weld a oes themâu cyffredin** yn ymddangos ar draws amcanion a chamau. Tra nad yw'n wyddor fanwl gywir, mae'n amlwg bod y mwyafrif o gyrff cyhoeddus wedi glynu wrth eu busnes craidd a heb ystyried eto sut y gallant facsimeiddio eu cyfraniad tuag at y saith nod llesiant (yn unigol neu gydag eraill) yn yr hyn y maent yn ei wneud a'r modd y maent yn ei wneud. **I raddau helaeth iawn, mae naws yr amcanion yn ymwneud â gwella llesiant economaidd a chymdeithasol ardaloedd, gydag ychydig iawn o bwyslais ar yr amgylchedd neu ddiwylliant.**

**99** o'r amcanion a bennwyd gan **38** corff cyhoeddus yn ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol, presgreibio cymdeithasol, diogelu a heneiddio'n dda

**98** Mae 98 o'r amcanion a bennwyd gan **37** corff cyhoeddus yn ymwneud â darparu gwasanaeth, newid sefydliadol, hyfforddi staff neu reolaeth ariannol y sefydliad

**74** o amcanion a bennwyd gan **38** corff cyhoeddus yn ymwneud â chymunedau, cydlyniad, diogelwch, cyfleusterau a mynediad i wasanaethau

**74** o amcanion a bennwyd gan **35** corff cyhoeddus yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, gwella sgiliau a gwirfoddoli

**59** o amcanion a bennwyd gan **31** corff cyhoeddus yn ymwneud â'r amgylchedd, yn cynnwys adnoddau naturiol, digwyddiadau tywydd eithafol, cydnerthedd yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd

**51** o'r amcanion, a bennwyd gan **29** corff cyhoeddus yn ymwneud yn benodol â'r economi, twf economaidd, busnes a chreu cyfoeth

**40** o amcanion a bennwyd gan **24** corff cyhoeddus yn ymwneud â thrafnidiaeth, cysylltedd, digideiddio a chysylltedd digidol

**38** o amcanion a bennwyd gan **27** corff cyhoeddus yn ymwneud â diwylliant, treftadaeth, yr iaith Gymraeg, chwaraeon, twristiaeth a'r celfyddydau

**29** o amcanion a bennwyd gan **21** corff cyhoeddus yn ymwneud â thlodi, cydraddoldeb, tegwch (prinder tegwch) tai a digartrefedd

Mae fy myfyrdodau ar bwrpas, cynnydd a chyflymder y gwaith hwn ac argymhellion ar yr hyn y disgwyliaf ei weld mewn adroddiadau blynyddol ar gael yn yr adroddiad Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad o Swyddfa Archwilio Cymru ar sylwebaeth eu blwyddyn gyntaf: Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'rDyfodol (Cymru) 2015?

Byddaf yn parhau i gydweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni fy nyletswyddau ar fonitro ac asesu a gyda Chyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru i hybu arfer da a rhoi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus.

Ochr yn ochr â hyn rwyf wedi sefydlu cytundeb partneriaeth gydag **Ysgol Fusnes Caerdydd a fydd yn gweithio gyda mi i asesu sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni amcanion perthnasol i swyddi a sgiliau ar gyfer y dyfodol** ac i roi cyfarwyddyd ar arfer gorau yn y maes hwn.

## Effaith:

- **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda**
- **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill**
- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwydiant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rhoi cyngor a chymorth

# i gyrff cyhoeddus ar eu gwaith

Mae cyrff cyhoeddus hefyd yn aml iawn yn galw arnaf am gyngor. Yn 2017-2018 rwyf wedi cwrdd â 24 corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf ac wedi rhoi cyngor manwl i, neu wedi gweithio'n agos gydag o leiaf 11 ohonynt, yn ogystal â chwech o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru.


Mae'r canllawiau statudol yn y Ddeddf yn amlinellu saith maes ar gyfer newid o fewn canolfannau corfforaethol sefydliadau (risg, rheoli perfformiad, cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, asedau a chaffael) ac mae llawer o fy nghyngor wedi bod yn berthnasol i'r meysydd hyn.


## Datgarboneiddio

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno dyletswydd i ddatblygu cyllidebau carbon i Gymru, a lleihau allyriadau o 80% o leiaf erbyn 2050. Mae hon yn her sylweddol gan fod dros 50% o allyriadau'n cael eu cynhyrchu gan nifer bach o safleoedd diwydiannol (e.e. dur Tata, gorsaf bŵer Port Talbot ac Aberddawan). Mae hyn yn cysylltu'n agos â fy ngwaith yn y meysydd blaenoriaethol sy'n tanategu nifer o'r nodau llesiant. Rwyf wedi cynorthwyo, herio a threfnu fforymau ar gyfer rhannu arfer da ymarferol i helpu cyrff cyhoeddus i symud ymlaen tuag at ddatgarboneiddio. Rwyf hefyd wedi:

- Cynnal digwyddiad o'r enw 'Arwain gweithredu cadarnhaol ar y newid yn yr hinsawdd – cael sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030' ar y cyd â **Llywodraeth Cymru** a **Chyfoeth Naturiol Cymru. Gyda 60 o arweinyddion cyrff cyhoeddus yn bresennol;** ei bwrpas oedd sefydlu sgwrs ar draws y sector cyhoeddus Cymreig ar gyflawni'r uchelgais i ddatgarboneiddio Cymru..
- Amlygu'r gwaith da a gyflawnwyd gan Brosiect Carbon Positif Cyfoeth Naturiol Cymru ac annog sefydliadau i ddysgu o'r ymagwedd hon a rhannu astudiaethau achos gyda ni yn barhaus.
- Annog cyrff cyhoeddus i edrych yn ehangach ar arbed carbon drwy drafnidiaeth ac adeiladau ac i sylweddoli buddiannau posibl datgarboneiddio i gydlyniad cymunedol a mynd i'r afael â thlodi ayb.
- Ysgrifennu at gadeiryddion pob cronfa bensiwn llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill (mae'r un ar ddeg awdurdod lleol a'r cronfeydd pensiwn mwyaf yn buddsoddi mewn tanwydd ffosil), gan ofyn iddynt gadarnhau sut mae eu penderfyniadau'n ystyried yr hirdymor a'r risg i'r hinsawdd (a'u hannog i roi'r gorau i'r arfer hwn).

Mae **Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP)** wedi cael ei sefydlu ar ran wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol yng Nghymru,  ac er bod cronfeydd unigol fel Gwynedd yn datblygu Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol, credaf y bydd yna gyfleoedd pellach i'r WPP ystyried sut y gall buddsoddiadau gynorthwyo llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Cefais fy nghalonogi i weld bod **Cronfa Bensiwn Abertawe** yn edrych ar ehangder eu buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil a chanlyniadau'n dangos bod eu buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil 9% yn is na'r cyfartaledd a'u bod yn ystyried anelu at leihad o 50% gan fuddsoddi mewn ynni adnewyddol a thechnoleg lân.




- Herio'r Llywodraeth ar dargedau carbon y dylid eu cynnwys yng nghaffael Metro De Cymru.
- Rhannu arfer da am amcanion llesiant sy'n cyfrannu tuag at ddatgarboneiddio yn fy adroddiad Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn – mae 23 o wahanol sefydliadau cyhoeddus wedi gosod amcanion sy'n berthnasol i ynni.
- Cynorthwyo gwaith **National Energy Action Cymru** a'r **Gynghrair Tlodi Tanwydd** gyda byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
- Cynorthwyo prosiect **Re-energising Wales, Sefydliad Materion Cymreig** a'i weledigaeth o Gymru  â'i holl ynni'n adnewyddol erbyn 2035.
- Cynnal dau weithdy ar Gymru Ddi-garbon mewn partneriaeth â **Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** a'r **Ganolfan Technoleg Amgen.**

### *Enghreifftiau o arfer da o gyrff cyhoeddus*

**Cyngor Abertawe:** Mountain View Children's Centre. Syrjeri Ymarferwyr Cyffredinol a Fferyllfa. Newydd ei hagor/dylunio carbon isel/integreiddio gwasanaethau.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin** wedi: gosod goleuadau LED yn eu holl orsafoedd tân drwy gynllun Buddsoddi i Arbed, a phaneli thermal solar a phaneli ffotofoltaig mewn pum gorsaf dân ar draws y gwasanaeth sy'n parhau i gael eu cynnwys ym mhob adeilad newydd a phob ailwampio.

*Derbyniodd cynllun ail-adeiladu* ***Gorsaf Dân Gymunedol Aberystwyth*** *99.12% am eu menter Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, y gyfradd uchaf o holl brosiectau yng Nghymru. Derbyniodd yr adeilad hefyd gyfradd o 98% am ailgylchu yn y rhaglen dim-gwastraff, sy'n ei wneud yn un o'r prosiectau uchaf ei berfformiad yng Nghymru.*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rwyf hefyd wedi herio Llywodraeth Cymru i ddangos yn glir eu hymrwymiad ym mhob rhan o'r Llywodraeth i leihau carbon. Rwyf wedi rhoi cymorth i dîm datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, yn benodol ar gynigion i'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel a fydd yn cyfrannu tuag at y saith nod llesiant. Mae hyn wedi arwain at:

- Ymrwymiad polisi oddi wrth **Ysgrifennydd y Cabinet** at gyfer creu sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Byddaf yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i benderfynu sut y gellir, mewn gwirionedd, gyflawni'r ymrwymiad hwn.
- **Llywodraeth Cymru**'n datblygu matrics i'w ddefnyddio fel rhan o'u proses asesu llesiant, i sicrhau bod eu Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael ei fframio o fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gychwyn datblygu polisi (mae hwn yn gam arwyddocaol ymlaen o'r ymagwedd draddodiadol tuag at asesu effaith ar ôl i benderfyniad gael ei wneud). Bydd y matrics hefyd yn helpu i ddatblygu polisïau sy'n lleihau allyriadau ac yn cyflawni buddiannau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol gwell.step forward from the traditional impact assessment approach which is done after a decision is taken). The matrix will also help the development of policies that reduce emissions and deliver wider social, cultural, economic and environmental benefits.
- **Llywodraeth Cymru**'n alinio'u cylchoedd cyllidebu ariannol i'w cyllidebau carbon, sy'n golygu bod penderfyniadau am ble i wario'r arian yn medru ffocysu'n fwy ar gyflawni targedau lleihau carbon. Dyma'r unig lywodraeth yn y DU i wneud hyn.
- Y cyngor a roddwyd i **Lywodraeth Cymru** gan Bwyllgor y **DU ar Newid Hinsawdd** yn adlewyrchu'r Ddeddf nid yn unig drwy ystyried llwybrau cost effeithiol ar gyfer lleihau allyriadau ond hefyd y cyfleoedd ehangach i wella llesiant.



*"Er enghraifft, prif amcan ôl-osod tai fyddai lleihau'r galw am ynni, ond mae yna hefyd gyfleoedd i wella iechyd a lleihau tlodi tanwydd, cynyddu swyddi lleol a sgiliau, a hyd yn oed fuddiannau ehangach yn cynnwys gwella cyrhaeddiad addysgol a chydlyniad cymunedol."*

*"Mae'r Rhaglen Ddatgarboneiddio'n gymhleth iawn, mae'n golygu ystod eang o bartneriaid yn cydweithio, integreiddio amcanion ar draws llywodraeth a meddwl am yr hirdymor. Rydyn ni wedi bod yn datblygu a threialu ymagweddau a syniadau newydd ac wedi bod yn cydweithio gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i herio, cynorthwyo ac adolygu'r syniadau hyn. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i gael cyfaill beirniadol i arwain a chynghori ar y dulliau newydd hyn o weithio, datblygu datrysiadau gyda'n gilydd a dysgu ar hyd y ffordd."*

**Lucy Corfield,**
Pennaeth Datgarboneiddio, Llywodraeth Cymru

*"Un o'r pethau y mae'r Ddeddf, yn fy marn, wedi llwyddo i'w wneud yw rhoi cyfle i ni edrych yn fwy eang...Yn draddodiadol rydyn ni wedi bod yn edrych ar leihau carbon mewn adeiladau a thrafnidiaeth, ond mae hyn yn rhoi cyfle i ni feddwl ar draws yr holl wasanaethau sy'n cael eu cyflawni o fewn yr awdurdod. Mae cymorth Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn ddefnyddiol yn nhermau ein cysylltu â phrosiectau eraill a rhannu arfer da. Y funud hon, mae gennym fws trydan sydd wedi cael ei dreialu yng nghanol tre Caerffili ac rydyn ni wrthi'n gweithio ar gerbydau trydan. Rydyn ni'n edrych ar greu cronfa geir a cherbydau trydan ar gyfer gwahanol wasanaethau, a'r wythnos nesaf bydd un neu ddau o gerbydau trydan yn ein cyrraedd."*

**Paul Cooke,**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiad
- Sicrhau newidiadau trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus ac eraill ym mynd ati i wneud pethau

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru o gymunedau cydlynus

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

# Caffael

## Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n gwario dros £6 biliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei weld fel buddsoddiad tuag at gwrdd â'n saith nod llesiant.

Rwyf wedi mynegi pryderon wrth Lywodraeth Cymru ac wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cymru gan amlygu'r ffaith nad yw polisi caffael ac arfer yng Nghymru wedi cydymffurfio â'r gofynion newydd o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid yw'r Datganiad Polisi Caffael, er enghraifft yn adlewyrchu'r Ddeddf ac nid yw'n glir i ba raddau mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru'n ymgorffori'r Ddeddf.

Yn dilyn yr ymyriadau hyn ym Medi 2017 cychwynnodd **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC,** adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru. Mae hwn yn gyfle clir i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fframwaith trosfwaol ar gyfer y modd yr ydym yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau newid mewn polisi a threfniadaeth yn y maes hwn rwyf wedi:

- Cyfrannu tuag at adolygiad Llywodraeth Cymru drwy aelodaeth o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'r adolygiad hwn yn mynd yn ei flaen ac rwyf yn parhau i weithio gyda swyddogion a gyda'r Grŵp i bwysleisio'r potensial ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy'r hyn yr ydym yn ei brynu.
- Cynorthwyo gweithdai ar ran **Gwerth Cymru** a'r **Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol** ac wedi trefnu cymorth i'w helpu i ddeall sut y gellir defnyddio'r Ddeddf yn well yn eu holl weithgareddau, ar lefel strategol ac ymarferol.
- Herio cyrff cyhoeddus i edrych ar y modd y gallant ddefnyddio caffael fel cyfrwng i roi cynnig ar ddulliau newydd o feddwl a darganfod ffyrdd drwy y rhain y gall caffael gyflawni llawer mwy na dim ond prynu nwyddau a gwasanaethau, drwy ddefnyddio'r ymagwedd cylch bywyd cyfan, gan gyfrannu at ddileu gwastraff a charbon a chyflawni buddiannau cymunedol gwirioneddol, yng Nghymru ac mewn gwledydd sy'n datblygu. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag ystod o sefydliadau eraill yn cynnwys **WRAP, Cyfnewidfa Arfer Da, Busnes yn y Gymuned, Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** i archwilio cyfleoedd i gydweithio, i herio a newid y ffordd y mae caffael yn cael ei wneud yng Nghymru.
- Gweithio gyda Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ddylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau bwyd yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – drwy ddilyn y pum dull o weithio maent wedi datblygu amcanion caffael o dan bob un o'r saith nod llesiant i hybu cyflenwyr lleol, ystyriaethau amgylcheddol, lleihau allyriadau carbon, nwyddau moesegol a Masnach Deg. Mae'r contract fframwaith bwyd yn werth £73 miliwn ac mae ar gael i 72 o gwsmeriaid cyrff cyhoeddus. Canlyniad y gwaith yw bod **80% o gyflenwyr ar y contractau newydd bwyd ffres** yn FbaChau Cymreig. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn awr yn gweithio gyda'u cyflenwyr i ddatblygu dangosyddion a fydd yn monitro gwastraff bwyd, pacio, y defnydd o nwyddau cynaliadwy, trafnidiaeth ac allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda'r bwriad o wella perfformiad amgylcheddol dros amser.
- Cynnwys cyngor ar gaffael yn fy nghyngor statudol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus fel a ddisgrifir uchod yn yr adroddiad hwn.
- Fel canlyniad i'r gwaith gyda hwynt, rydyn ni wedi dylanwadu ac wedi trwytho ymagwedd **Llywodraeth Cymru** tuag at ddatblygu prosiectau peilot sy'n ffocysu ar y Ddeddf, gan weithio gyda chynghorau **Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy, Ceredigion a Sir Benfro** i ddatblygu ymagwedd effeithiol a chyson tuag at roi'r Ddeddf ar waith yng ngweithgaredd caffael sefydliadau, y gellir wedyn ei efelychu ledled Cymru. Mae rhai o'r prosiectau peilot hyn yn golygu lleihau deunydd plastig yn y gadwyn gyflenwi sy'n ymwneud â bwyd, gan gynyddu'r cyflenwad lleol drwy wella dadansoddiad o gadwyni cyflenwi, cynorthwyo awdurdodau gyda'u Fframwaith Deunydd Arlwyo Tafladwy drwy edrych ar ddulliau amgen cynaliadwy. Mae'r prosiectau peilot wedi cychwyn, ac mae ffocws fy ngwaith yn awr ar gynorthwyo'r dasg o adeiladu capasiti, rhoi prawf ar wahanol ymagweddau ac archwilio cyfleoedd i ymgorffori'r Ddeddf mewn nwyddau penodol, cynyddu'r nifer o gyflenwyr lleol yn y gadwyn gyflenwi a ffocysu ar nwyddau plastig a phacio. Rwyf yn edrych ymlaen at weld effaith yr ymagweddau newydd hyn dros y flwyddyn sy'n dod.

Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

> *"Rydym yn croesawu cynnwys gweithio tuag at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng ngheisiadau tendro'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae hwn yn gam cadarnhaol, ac rwy'n gobeithio, wrth i'r broses dendro esblygu y rhoddir i'r meini prawf fwy o bwysoliad pwyntiau. Mae llawer o'r gofynion yn alinio'n naturiol i'n hegwyddorion ym Mwydydd Castell Howell. Mae'n bwysig i gynorthwyo'r economi lleol a gweithio tuag at sicrhau bod llesiant ein gweithwyr yn uchel ar yr agenda, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."*
>
> **Edward Morgan,**
> Bwydydd Castell Howell

### Caffael moesegol

*Mae degawd ers i Gymru ddod y Genedl Fasnach Deg gyntaf yn y byd, ac roeddwn yn hapus i weld cynnydd o 49% yng ngwerthiannau nwyddau moesegol a theg yng Nghontract Arlwyo Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru yn ystod y tair blynedd ddiwethaf gydag i fyny at 60 o eitemau Masnach Deg wedi bod ar gael yn neg tŷ bwyta'u swyddfeydd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag dim ond 11% o werth y contract cyfan yw Masnach Deg, felly rwyf yn edrych ymlaen at weld cynnydd pellach yn y maes hwn gyda chyrff cyhoeddus eraill yn dilyn eu hesiampl.*

*Gan nad yw agweddau ar ddatblygu cynaliadwy bob amser yn cael eu deall gan gyrff cyhoeddus, rwyf wedi dod yn rhan o bartneriaeth gyda Masnach Deg Cymru Llywodraeth Cymru a Hwb Cymru Affrica a arweiniodd at secondiad i fy swyddfa.*

*Gan adeiladu ar yr adolygiad o holl gyrff cyhoeddus yn 2015 gan Masnach Deg Cymru a Hwb Cymru Affrica sy'n nodi mater yn ymwneud â chasglu data ar gaffael cynaliadwy a moesegol yn y sector cyhoeddus, mae'r bartneriaeth hon yn amcanu cynorthwyo Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gydnabod gwerth caffael – beth maent yn ei brynu a sut maent yn ei brynu. Rwyf yn annog cyrff cyhoeddus i ddod yn fwy ymwybodol a chreadigol yn y ffordd y maent yn cyfrannu tuag at y nod 'Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Byd-eang' drwy, er enghraifft, ynni, bwyd a phlastig untro, sy'n dangos integreiddio gyda nodau eraill. Fel canlyniad i fy ngwaith mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn casglu mwy o ddata ac o Fehefin 2018 ymlaen rwy'n falch i weld y byddant yn cynnwys Masnach Deg ar eu holiadur i gyflenwyr. Dylai hyn gael gwared â rhwystr posibl gan annog mwy o nwyddau Masnach Deg i mewn i gadwyn cyflenwi Cymru*

## Effaith:

- **Framio dadleuon a chael materion ar yr agenda**
- **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill**
- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiads**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cynllunio defnydd tir

Mae'r mwyafrif o lythyron yr wyf wedi eu derbyn eleni'n ymwneud â phryderon am benderfyniadau cynllunio. Mae pobl a chymunedau'n dweud wrthyf eu bod yn aml yn teimlo bod datblygiadau wedi cael eu gwthio arnynt yn erbyn eu hewyllys gydag ychydig iawn o gyfle i ymgyfrannu.

Tra mod i'n derbyn bod penderfyniadau cynllunio'n aml iawn yn faterion cymhleth sy'n polareiddio, awgryma hyn nad yw cyrff cyhoeddus, o bosib, yn darganfod y ffyrdd gorau o gysylltu â'r cyhoedd mewn dull sy'n harneisio'u gweledigaeth a'u gwybodaeth o'u cymuned. Gellir mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf ac yn arbennig y pum dull o weithio.

Mae tua 25,000 o benderfyniadau cynllunio unigol, yn cynnwys 700 o brosiectau mawr yn mynd drwy'r system gynllunio bob blwyddyn (ffigurau 2015). Mae'n amhosibl i mi ymgymryd ag asesiad o bob un ac nid yw fy rôl fel y'i disgrifir yn y Ddeddf yn caniatáu i fy swydd fod yn haen ychwanegol ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau amhoblogaidd. Fodd bynnag rwyf yn cydnabod rhwystredigaethau llawer o gymunedau â'r system bresennol a'r angen i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn bodloni anghenion y dyfodol.

Yng ngoleuni hyn ac yn unol â fy swyddogaethau, yn arbennig fy nyletswydd i hybu datblygu cynaliadwy, rwyf wedi penderfynu bod fy mewnbwn eleni'n fwy effeithiol ar lefel strategol i ddylanwadu ar y polisïau a'r prosesau o fewn y rhain y mae'r system gynllunio'n gweithredu.

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi cychwyn diweddaru'r gyfres o ddogfennau polisi cynllunio cenedlaethol, gan gychwyn gydag adolygiad llawn o **Bolisi Cynllunio Cymru** (y strategaeth gynllunio genedlaethol ar gyfer Cymru), ochr yn ochr â dyluniad y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (y cynllun gofodol statudol cenedlaethol ar gyfer Cymru) a grëwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru).

Rwyf yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y Llywodraeth i ail-gastio polisi cynllunio yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n galonogol bod y Llywodraeth wedi bod yn awyddus i weithio gyda mi o'r cychwyn cyntaf. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Gynllunio i sicrhau bod polisïau cynllunio newydd yn cydfynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol tra'n ymateb i bryderon y tynnwyd fy sylw atynt gan unigolion, grwpiau gweithredu a gwleidyddion

### *Y tri Deddf*

Deddfwyd ar gyfer Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar yr un pryd â'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gyda'r bwriad o newid y gyfraith mewn dull integredig a gosod yn eu lle elfennau allweddol oedd eu hangen os ydyw Cymru i ddatblygu'n gynaliadwy, sef:

- *Syniad clir o'n hamcanion a pharodrwydd i ymgymryd â'r egwyddorion sy'n ein llywio (Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*
- *Darlun clir o'r adnoddau naturiol sydd gennym, y risgiau y maent yn eu hwynebu a'r cyfleoedd a ddarperir ganddynt (Deddf yr Amgylchedd).*
- *Proses effeithlon sy'n sicrhau bod y datblygiad iawn wedi ei leoli yn y lle iawn ar gyfer gwneud iddo ddigwydd (Deddf Cynllunio Cymru).*

Rwyf wedi cynorthwyo proses adolygu Polisi'r Llywodraeth drwy:

- Gynghori ar y defnydd o'r pum dull o weithio a'r nodau llesiant
- Addasu ein Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer eu hymarfer ymgynghori
- Rhoi gwybodaeth ar dueddiadau'r dyfodol
- Sicrhau mewnbwn gan ystod ehangach o randdeiliaid nag a fyddai fel arfer wedi cael eu sicrhau cyn y cyfnod ymgynghori
- Cynorthwyo integreiddio rhwng y themâu ym Mholisi Cynllunio Cymru

Mae fy nghyngor wedi dylanwadu ar brosesau (ymgyfraniad) Llywodraeth Cymru ac ar gynnwys y Polisi Cynllunio Cymru drafft – gan sicrhau naratif cryf ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gydol y ddogfen a ffocws cyson ar y saith nod llesiant. Rwyf wedi sicrhau bod y dyheadau'n cynnwys cyfeiriadau cywir tuag at y pum dull o weithio, tuag at y nodau llesiant yn eu natur holistig, yn cynnwys carbon isel, cydraddoldeb a lleihad mewn tlodi.

Mae fy nhîm hefyd wedi cynorthwyo **Arolygiaeth Gynllunio Cymru** a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Ddeddf.

Byddaf yn parhau i adeiladu ar y berthynas ac ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn i sicrhau llif cyson yng ngwaith y dyfodol ar y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** a'r Llawlyfr Hyfforddi ar Ddatblygu Lleol Byddaf yn parhau i ymgysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnwys arsyllu mewn nifer bach o wrandawiadau ac ymchwiliadau cynllunio lleol, a byddaf hefyd yn parhau i roi cyngor i unigolion a grwpiau ar sut i ddefnyddio'r Ddeddf wrth ddelio ag awdurdodau cynllunio lleol ac Arolygiaethau Cynllunio.




## Effaith:

- **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda**
- **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill**
- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau**

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

# Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)

Gofynnwyd i mi gan dîm trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn fy ymyriad yn yr M4, i'w cynghori ar eu diweddariad arfaethedig o'r Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth. Roeddwn yn awyddus i sicrhau bod y Ddeddf yn rhan hanfodol o'r holl gyfarwyddyd yn hytrach na chael ei chyflwyno fel nodyn ychwanegol fel y rhagwelwyd ar y cychwyn.

Roedd hwn yn ddarn o waith dwys, drwy yr hwn y chwiliais am ymgyfraniad **Sustrans, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Anabledd Cymru, ymarferydd awdurdod lleol, Prifysgol De Cymru** a **Phrifysgol Caerdydd.**

Fel canlyniad i fy nghyngor a'm cymorth, roedd yr Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth newydd a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2017 yn sylweddol wahanol, gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog a blaengar. Mae'r cyfarwyddyd yn awr yn datgan yn eglur:

*"Mae wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn macsimeiddio cyfraniad i lesiant Cymru, fel y nodwyd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn gwireddu gweledigaeth y Ddeddf o'r Gymru a garem" neu fod "WelTAG wedi cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn medru sbarduno'r newid cadarnhaol hwn ac arloesedd yng Nghymru, i sicrhau cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol gan ymgorffori ysbryd y Ddeddf".*

Mae'r cyfarwyddyd newydd hwn yn cynrychioli newid trefniadol arwyddocaol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau, ac mae wedi dylanwadu ar newidiadau mewn ymddygiad ymarferol mewn eraill. Mae'n annog pobl i feddwl am fwy na dim ond datrysiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd, ac yn pwysleisio'r angen i ystyried materion ehangach megis mynediad i bawb, iechyd, ansawdd aer, hybu teithio llesol a lleihau allyriadau carbon pan fyddant yn llunio'u dewisiadau, drwy gydol y broses, i fyny at werthusiad y prosiect.

Mae fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gynnwys hefyd fel rhan o'r ddogfen gyfarwyddyd. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at sicrhau newid trefniadol a bydd yn dylanwadu ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ar holl brosiectau trafnidiaeth y dyfodol.

Mae fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gynnwys hefyd fel rhan o'r ddogfen gyfarwyddyd. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at sicrhau newid trefniadol a bydd yn dylanwadu ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ar holl brosiectau trafnidiaeth y dyfodol.



## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiad




Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru o gymunedau cydlynus

*"Bydd aelodau o'r cyhoedd yn parhau i roi mewnweledIad defnyddiol i'r modd y mae Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth yn cael ei weithredu."*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Metro De Cymru

Mae trafodaethau cynhyrchiol wedi parhau gyda Thrafnidiaeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf wrth iddynt symud rhagddynt gyda'u proses ddeialog gystadleuol ar gyfer Metro De Cymru.

## Impact:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau

Mae trafodaethau cynhyrchiol wedi parhau gyda **Thrafnidiaeth Cymru** dros y deuddeg mis diwethaf wrth iddynt symud rhagddynt gyda'u proses ddeialog gystadleuol ar Fetro De Cymru.

Rwyf wedi bod yn ceisio sicrhau bod ymrwymiadau hirdymor ar garbon ac ynni yn eu lle, ac yn dilyn ymweliad â'r Unol Daleithiau, wedi cyflwyno Trimet i dîm Trafnidiaeth Cymru, asiantaeth sydd wedi ei lleoli yn Portland, Oregon, sydd wedi llwyddo i weithredu ystod o fentrau cynaliadwy llwyddiannus ar eu llinell reilffordd ysgafn.

Helpodd fy nghyngor Drafnidiaeth Cymru i ddatblygu eu gweledigaeth a diffinio chwe thema (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol, moesegol ac arloesol) gan nodi sut y dylai'r Metro newydd a'r fasnachfraint rheilffyrdd ddatblygu swyddi lleol, sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd cadwyni cyflenwi, ennyn ymgyfraniad cymunedau lleol a hybu diwylliant, a gweithredu'n gadarnhaol ar faterion amgylcheddol megis gwastraff, llygredd aer ac allyriadau carbon. Rwyf hefyd wedi annog Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i fod yn uchelgeisiol yn ei ymrwymiadau i system fetro carbon isel, yn benodol y targedau carbon y dylid eu cynnwys sydd wedi arwain at ofyniad i brif Linellau'r Cymoedd gael eu trydanu, a 100% o'r ynni i gael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddol, gyda thargedau ar gyfer y fasnachfraint sy'n weddill sy'n anelu at leihau allyriadau wrth iddynt chwilio am ystod o ddatrysiadau ar gyfer y stoc rholio, tra'n minimeiddio ôl-troed carbon a ymgorfforir mewn deunyddiau.

Rwyf wedi croesawu ymagwedd bositif Trafnidiaeth Cymru a'u parodrwydd i weithio gydag eraill i adnabod arfer da mewn mannau eraill.

Yn dilyn y datganiad mai **KeolisAmey** yw'r gweithredwr rheilffordd llwyddiannus, byddaf yn parhau i gynorthwyo a herio Trafnidiaeth Cymru a gweithio'n uniongyrchol gyda'r gweithredwr newydd i sicrhau bod pob cyfle'n cael ei gipio i gyfrannu i'r saith nod llesiant.



Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus

Rail franchise – the devil is in the detail

WALES IN MOTION
PROFESSOR STUART COLE

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Yn fy adroddiad blynyddol llynedd, argymhellais, tra bo bargeinion dinesig a rhaglenni datblygu economaidd ar draws Cymru'n symud rhagddynt, bod yn rhaid i'r **awdurdodau lleol** sy'n ymgyfrannu, a **Llywodraeth Cymru** eu hunain ddangos sut y maent yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith, yn arbennig drwy fyfyrio ar y diffiniad statudol o Gymru Lewyrchus, yn ogystal â chyflwyno'r achos dros fabwysiadu'r fframwaith mwy blaengar hwn gan Lywodraeth y DU.

Ysgrifennais at gadeirydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ym Medi 2017, mynychais gyfarfod y Cabinet Rhanbarthol ym Nhachwedd a sicrhau ymrwymiad oddi wrthynt hwy i weithio'n agos gyda fy swyddfa i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith. Fel canlyniad, mae'r Cyd-gabinet yn awr wedi cytuno ar gynllun busnes pum mlynedd sy'n adlewyrchu eu dyletswyddau ac yn amlinellu bod angen i gynlluniau arfaethedig ddangos y defnydd o'r pum dull o weithio a sut y maent yn cyfrannu i'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Rydyn ni hefyd wedi rhoi Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau i **Fargen Ddinesig Bae Abertawe** a **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** i'w helpu i roi'r Ddeddf ar waith wrth iddynt ystyried eu prosiectau. Fel rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi cydweithio gyda'u partneriaid i ddefnyddio'r fframwaith i'w helpu i gynllunio **Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli.**

**Dywedodd y tîm sy'n cyd-gysylltu Bargen Ddinesig Bae Abertawe:**

> *"Gall ymgysylltu mewn trafodaeth ar genedlaethau'r dyfodol yng nghyfnod ffurfiannol cynigion facsimeiddio effaith a gwireddi manteision. Gall hefyd helpu i 'ddiogelu dyfodol' y prosiect drwy feddwl am y gydberthynas rhwng llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol."*

**Huw Thomas**
@huwthomas_Wales

Great to welcome @futuregencymru Commissioner @sophiehowe to @ccrcitydeal cabinet meeting. Good discussion on embedding sustainable development into City Deal

**CCRCityDeal**
@ccrcitydeal

Future Generations Commissioner for Wales @sophiehowe is speaking to @ccrcitydeal Regional Cabinet, and pays tribute to the Leaders for the progress they have made with the City Deal

## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau






Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cyllidebu strategol Llywodraeth Cymru

Mae strategaeth cyllideb Llywodraeth Cymru a'r broses gwneud-penderfyniadau'n rhan sylfaenol o sbarduno newid ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wrth iddi fframio cyfran arwyddocaol o benderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus. Rwyf yn rhoi cymorth i **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC** ac wedi gweithio gyda'r tîm cyllidebu strategol i adolygu cyllideb y flwyddyn ddiwethaf a rhoi adborth ar y mannau lle gellid gwneud gwelliannau yn unol â'r Ddeddf yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Rwyf wedi cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, bod yn rhaid i'r Llywodraeth ddatblygu diffiniad o atal, i'w ddefnyddio mewn pryd ar gyfer y rownd gyllidebu nesaf. Effaith hyn yw ei fod **wedi comisiynu'r gwaith hwn i gael ei wneud, sy'n cael ei gynorthwyo gan fy swyddfa.** Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth gytuno ar ddiffiniad o 'atal'.

Pwysleisiodd y dystiolaeth a roddais i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Nhachwedd 2017 yr angen am newid pendant tuag at ymagweddau ataliol, gwell integreiddio ar draws polisi, ac i benderfyniadau'r Llywodraeth (megis yr M4) gael eu fframio yn yr hirdymor.

Fel canlyniad i'r dystiolaeth a roddais i'r Pwyllgor Cyllid mae tri o'u naw argymhelliad yn berthnasol i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

**Argymhelliad 7.** *Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaed ganddo mewn perthynas â chyllideb ddrafft 2017-2018 y dylai'r Llywodraeth ddangos mwy o aliniad rhwng ei chyllidebau drafft, y nodau llesiant a'r pum dull o weithio. Dylai cyllidebau drafft y dyfodol ddangos hefyd sut y bydd dosraniad cyllid yn cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn eu strategaeth genedlaethol, ar hyn o bryd, Ffyniant i Bawb.*

**Argymhelliad 8.** *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r asesiad effaith strategol integredig a ddarparwyd ochr yn ochr â chyllidebau'r dyfodol drafft roi eglurhad clir ar y modd y cyrhaeddwyd penderfyniadau.*

**Argymhelliad 9.** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried yr awgrym bod gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru rôl mewn asesu i ba raddau y mae effaith cyllideb y Llywodraeth yn cynorthwyo'r nodau llesiant, yn y tymor byr a'r hirdymor.*

*Byddwn yn parhau i gynorthwyo a herio'r tîm cyllidebu strategol i drwytho datblygiad cynnar cyllideb 2019-2020 a bydd yna ffocws arbennig ar ddatblygu gwell dealltwriaeth ac enghreifftiau ymarferol o wario ataliol.*

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Effaith:

- Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Tîm cynllunio GIG Llywodraeth Cymru

Mae'r modd y mae'n GIG yn helpu pobl i gadw'n iach (yn ogystal â'u trin pan fyddant yn sâl) yn her allweddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gwariant ar y system gofal iechyd yn cyfrif am oddeutu hanner gwariant cyhoeddus yng Nghymru ac eto dim ond oddeutu 15% mae systemau gofal iechyd yn cyfrannu tuag at iechyd a llesiant y boblogaeth.

Mae penderfynyddion ehangach iechyd yn ymwneud â materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n bwysig, felly, bod fy swyddfa'n cyflwyno her rymus i'r modd y mae'r GIG yn newid ar gyfer ymateb i heriau'r dyfodol, ac yn arbennig y symudiad o driniaeth i atal.

Mae 10 corff iechyd (7 bwrdd iechyd lleol a 3 o ymddiriedolaethau'r GIG) yn cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff iechyd yn dod o dan ddylanwad cylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Nid oedd canllawiau cyntaf yr IMTP a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016 yn adlewyrchu'r Ddeddf yn llawn, gan gyfyngu ar gyfraniad y cyrff iechyd i'r y nodau llesiant ac ymgorfforiad y pum dull o weithio. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd; felly eleni, mae fy nhîm wedi gweithi'n agos gyda thîm **Cynllunio GIG Llywodraeth Cymru** i roi cymorth, ac i herio ailddrafftio'r canllawiau, yn cynnwys sut y gellid cymhwyso'r pum dull o weithio i'r fframwaith cynllunio. Cyfrannodd fy nhîm hefyd i ddigwyddiad a gynhaliwyd gan y GIG yn yr haf, a amlinellodd yr hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl oddi wrth yr IMTP, seiliedig ar wersi o fy adroddiad asesiadau llesiant, Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2017.

Yn seiliedig ar yr ymyriadau hyn, yn Awst 2017 ysgrifennodd Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru at bob un o'r cyrff cyhoeddus yn amlygu argymhellion yr adroddiad, gan ofyn sut yr oeddent yn ymateb i ofynion y Ddeddf.

Mae fframwaith cynllunio'r GIG 2018-2019 (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 1017) wedi dangos yn glir welliant ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r Llywodraeth yn gofyn i gyrff cyhoeddus yn awr i gynnwys:

- Diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn narpariaeth amcanion llesiant y sefydliad yn unol â'r pum dull o weithio
- Cadarnhad o flaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf (o fewn cyd-destun y cynlluniau hirdymor).
- Tystiolaeth sy'n dangos fod y sefydliad yn macsimeiddio'i gyfraniad i'r saith nod llesiant.

Byddaf yn parhau i herio'r Llywodraeth i sicrhau bod y fframwaith cynllunio, ac yn eu tro weithrediadau'r byrddau iechyd ar lawr gwlad, yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf. Mae gen i ddiddordeb arbennig yn y modd y bydd yr Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018) yn dylanwadu ar y newid hwn.

*"Gwn fod perthynas waith gadarnhaol a heriol wedi bod rhwng ein timau, sydd wedi cyfrannu tuag at fwy o ffocws ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn arbennig arweiniodd y cyngor a dderbyniwyd gennym yn ystod datblygiad Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2018-2019 at roi llawer o sylw yn y canllawiau i'r pum dull o weithio, a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fel canlyniad, cododd hyn ymwybyddiaeth ar draws y GIG yn nhermau ei atebolrwydd a'r ymagwedd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu eu cynlluniau wrth fynd rhagddynt. Mae hyn wedi annog datblygiad ymagweddau mwy integredig, ac yn ei dro, mae'n dylanwadu ar gynllunio hirdymor y GIG.*

*Fel enghreifftiau, mae'n werth nodi bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi trawsnewid ei ymagwedd tuag at ei strategaeth hirdymor yn gyfan gwbl ac wedi integreiddio cynllun tymor canolig drwy osod ei gynlluniau drwy lens y pum dull o weithio; mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi alinio ei amcanion strategol a'i amcanion llesiant a hefyd wedi eu mapio i'r pum dull o weithio. Er bod y gwaith hwn yn dal yn ei gyfnod cynnar mae'n ddatblygiad sy'n dystiolaeth o ddylanwad eich tîm a'u hymrwymiad i'r Ddeddf."*

**Andrew Goodall,**
Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru

## Effaith:

- **Sicrhau newididau trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus ac eraill ym mynd ati i wneud pethau**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiad**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Cymru iachach

Cymru o gymunedau cydlynus

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ym Medi 2017 mynychodd fy nhîm sesiwn ddatblygu ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i roi beirniadaeth ar eu hymagwedd hyd yn hyn tuag at ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Elfen allweddol o fy adborth oedd y dylent ddefnyddio'r Ddeddf fel cyfle i ailystyried eu hamcanion yn hytrach na cheisio ailosod eu hamcanion presennol yn eu nodau. Dros gyfnod o fisoedd, rhoddasom gymorth parhaus a heriau'n ymwneud yn arbennig â'r pum dull o weithio ac, fel canlyniad, pleidleisiodd y Bwrdd i ddatblygu amcanion llesiant newydd yn unol â'i waith cydweithredol ar iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys a datblygu strwythur newydd ar gyfer eu IMTP.

Roedd yr adborth oddi wrth Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys:

## Impact:

- **Encouraged discursive commitments from Ministers, Government and others**
- **Secured procedural change in how public bodies go about things**

> *"Tra'r oedd y Bwrdd eisoes wedi rhoi peth ystyriaeth i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'i friffio a'i sesiynau diweddaru, gwnaeth y gweithdy a gynhaliwyd gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol helpu mewn nifer o ffyrdd. Cafodd y teimlad 'onid ydyn ni'n gwneud hyn yn barod?' ei herio wrth i'r grŵp archwilio'r disgwyliadau llawer mwy arwyddocaol oddi wrthym ni fel Bwrdd ac fel sefydliad oedd yn gweithio gydag eraill. Cafodd unrhyw syniadau felly o ailosod ein gwaith presennol yn ein nodau llesiant ar gyfer Cymru eu newid. Hefyd, gwnaethom gychwyn deall o ddifri gyd-destun llawer ehangach ein rôl fel bwrdd, nid yn unig ym maes iechyd y boblogaeth a darpariaeth gwasanaethau iechyd, ond trwy weithio gydag eraill i alluogi newid yn y tymor ehangach ac iechyd ein sir a'n cenedl yn y tymor hwy."*
>
> **Carol Shillabeer,**
> Prif Weithredydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys






Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Gweithio gydag

# Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Yn fy ail flwyddyn, rwyf wedi cychwyn cynorthwyo newid diwylliannol o fewn sefydliadau. Mae'n hanfodol bwysig bod gan staff mewn cyrff cyhoeddus well dealltwriaeth o'r mathau o ymddygiadau y mae angen iddynt eu mabwysiadu i beri i'r Ddeddf weithio ac mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n dangos arweinyddiaeth.

Rwyf wedi gweithio gyda **Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru**, ar y dasg o gynorthwyo'r newid pwysig hwn, sydd wedi cynnwys cyfrannu tuag at ddigwyddiadau staff, a datblygu set o gwestiynau a fydd yn cael eu defnyddio gan yr Ysgrifennydd Parhaol i roi prawf ar gynigion polisi newydd.



## *Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Parhaol*

1. ***Pa ystyriaeth ydych chi wedi ei roi i'r tueddiadau hirdymor a allai effeithio ar eich cynnig neu sut fedrai eich cynnig effeithio ar y tueddiadau hyn?***

   *Tueddiadau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol a thechnolegol posibl.*

   *Tueddiadau sydd eisoes yn hysbys*

   *Y rhai hynny ar lefel uwch o ansicrwydd*

2. ***A yw'r cynnig hwn yn ceisio atal problemau rhag digwydd? Os felly, beth ydynt a sut fyddwch chi'n gwybod eich bod yn eu hatal drwy gyfrwng y cynnig hwn?***

   *A yw'r cynnig yn ymwneud ag atal sylfaenol (h.y. mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r broblem) neu atal eilaidd (atal problem sy'n bodoli rhag gwaethygu)?*

   *Beth yw'r risgiau o greu problemau newydd neu adael i rai sy'n bodoli eisoes waethygu?*

   *Ble ellid cynnal y gweithredu ataliol gorau - yn cynnwys y tu allan i'ch adran neu'ch sefydliad chi eich hunain?*

3. ***Gyda phwy ydych chi wedi cydweithio i ddod i wybod am y broblem hon a'r datrysiadau posibl?***

   *Pa beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar gyflawni'r saith nod llesiant ac amcanion llesiant y Llywodraeth?*

   *Pwy arall sy'n ceisio 'datrys y broblem hon'?*

   *Sut i ennyn ymgyfraniad pobl sy'n dwyn mewnwelediad, her adeiladol, data a datrysiadau?*

> *"Mae'n ffordd o wneud yn siwr fy mod yn dwyn ynghyd yr holl swyddogion o bob rhan o'r Llywodraeth â ganddynt ddiddordeb mewn unrhyw faes arbennig. Er enghraifft, y dydd o'r blaen edrychasom ar ofal cymdeithasol. Cesglais ynghyd swyddogion oedd yn cwmpasu rhychwant eang iawn o feysydd polisi yn amrywio o dai, i iechyd, i ofal cymdeithasol, i gyfathrebu, i'n swyddogion cyfreithiol, ac amrediad eang iawn o swyddogion â diddordeb yn y maes hwnnw. Defnyddiais y cwestiynau a'r ymagwedd a awgrymwyd gan y Comisiynydd i wneud yn siwr ein bod yn rhoi prawf gwirioneddol ar ba mor bell mae'r polisïau hynny'n edrych ar draws yr holl ystod o faterion oedd yn ymwneud ag unrhyw un maes arbennig a'u bod yn edrych ymlaen i'r dyfodol."*
>
> **Shan Morgan,**
> Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

## Effaith:

- Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau
- Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Pwrpas 3
## Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newid sydd ei angen

Ni ellir cyflawni'r newid sydd ei angen i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan fy nhîm na gan gyrff cyhoeddus yn unig, ac felly rwyf wedi neilltuo llawer o amser eleni ar gyfer adeiladu partneriaethau a fydd yn datblygu mudiad a fydd yn creu newid, lle bydd pobl yn hyrwyddo'r ymagwedd Gymreig tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn cynorthwyo a chyflawni'r newidiadau ar lawr gwlad.



Mae'r rhain wedi ymddangos mewn nifer o ffurfiau:

- Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Gallu i Greu a'i brosiectau cysylltiol ar gyfer sefydlu Labordai Byw a Chwmwl o Arloeswyr
- Cydweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar hawliau'r plentyn
- Ymateb i, a manteisio ar ddiddordeb rhyngwladol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gweithio gydag

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r ymagwedd a fydd yn cael ei mabwysiadu yng Nghymru tuag at archwilio yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant neu fethiant gweithrediad y Ddeddf gan y bydd yn sbarduno'r ymagwedd a gaiff ei mabwysiadu gan gyrff cyhoeddus tuag at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi dyletswyddau tebyg a chyflenwol ar gyfer fy rôl i fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac ar gyfer rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fel y ddau brif sefydliad sy'n craffu ar waith cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus mae angen i ni sicrhau ymagwedd gyson a gofalu bod ein hymagwedd yn sbarduno'r math iawn o ymddygiadau yn hytrach nag annog ymagwedd gydymffurfiol 'ticio blychau'.

Mae yna nifer o feysydd penodol o dan y Ddeddf lle rwyf i a'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhannu diddordeb a chyfrifoldeb, sef:

- Monitro ac asesu cynnydd
- Archwiliadau ac adolygiadau
- Adroddiadau cenedlaethol
- Cyngor
- Lledaeniad arfer da

Er mwyn macsimeiddio effeithiolrwydd ein dyletswyddau a'n pwerau unigol rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Yn Rhagfyr 2017, gwnaethom lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth i sicrhau bod ein pwerau a'n dyletswyddau'n digwydd mewn dull cyflenwol.

Eleni rwyf wedi:

- Cynorthwyo Swyddfa Archwilio Cymru i weithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus ar gyfer datblygu eu hymagwedd tuag at archwilio.
- Cytuno ar ymagwedd gydweithredol tuag at ein gwaith sy'n golygu ein bod yn manteisio ar arbenigedd pob sefydliad ac yn darparu ymagwedd gydlynol ar gyfer cyrff cyhoeddus.
- Cynorthwyo datblygiad y dull a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i sylwebi ar flwyddyn un. Rhoddwyd cwestiynau i gyrff cyhoeddus sydd wedi ein helpu i ddeall sut y maent yn defnyddio'r Ddeddf yn y flwyddyn gyntaf. Roedd yn bwysig bod cyrff cyhoeddus yn rhoi adlewyrchiad didwyll o'u cynnydd i Swyddfa Archwilio Cymru, felly roedd naws a phwyslais y cwestiynau'n bwysig.
- Paratoi adroddiad cyflenwol Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn yn amlinellu'r hyn y mae sefydliadau wedi dweud y byddant yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf a rhoi cyngor ar y ffordd orau iddynt ddangos eu bod yn cymryd camau effeithio i gyflawni eu hamcanion.
- Gweithio gyda **Chyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru** i gynorthwyo'r sector cyhoeddus i ddysgu am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, craffu a chaffael.
- Rhannu gwybodaeth ar ein strategaethau, casgliadau a'r camau nesaf.







> *"Mae ymgyfraniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi helpu i newid natur ein proses archwilio. Roedd bob amser yn bwysig na ddylai archwilio'r ddeddfwriaeth fod yn rhyw fath o restr-dicio. Roedd angen i ni ymgorffori ymagwedd y Comisiynydd wrth i ni wneud ein gwaith archwilio. Felly, nid yw wedi bod yn broses hawdd a bu'n ofynnol i gael dadl, rhannu gwybodaeth am leoliadau prosiectau peilot, ac ymgyfraniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru."*
>
> **Huw Vaughan Thomas,** Archwilydd Cyffredinol Cymru

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n gilydd a chwblhau rhaglen waith ar y cyd i gyflawni ein dyletswyddau monitro ac asesu, gwahanol ond cyflenwol. Rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Archwilydd Cyffredinol newydd wrth iddo gychwyn ar ei swydd yn ystod Haf 2018.



***Anthony Barrett***
*Diolch yn fawr i Georgina@MelinHomes, Carwyn & Jane@WalesAudit a @sophiehowe@futuregencymru am roi gwir fewnwelediad twymgalon ar yr hyn y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu iddynt hwy. Ffordd wych o gychwyn meddwl am ddulliau newydd o gynorthwyo craffu #Scrutiny18*

## Impact:

- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Yn fy ail flwyddyn, rwyf hefyd wedi bod yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i'w helpu i wneud penderfyniadau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.




Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfrwng tair rhaglen waith gydberthnasol:

- **Y Gallu i Greu** – rhaglen gydweithredol sy'n archwilio ac yn egluro goblygiadau ymarferol gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt facsimeiddio'u cyfraniad i'r nodau llesiant.
- **Labordai Byw** – datblygu a rhoi prawf ar ddulliau o alluogi cyrff cyhoeddus i 'gerdded drwy' fater a dysgu sut i ddefnyddio lens y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Cwmwl o Arloeswyr** – rhwydwaith i gysylltu eiriolwyr ac arloeswyr cenedlaethau'r dyfodol yn eu maes, wedi eu grymuso ac yn barod i gynghori a helpu cyrff cyhoeddus i herio busnes-fel-arfer.

> *"Ein hamcan yw eu hysbrydoli a rhoi enghreifftiau ymarferol o'r modd y gallant gyflawni'r nodau llesiant"*

# Y Gallu i Greu

Gwyddom mai dim ond drwy gydweithio y gallwn gael effaith ar broblemau eang a chymhleth megis tlodi, y newid yn yr hinsawdd ac ymddieithriad cymdeithasol.

Rhaglen o bwys yw'r Gallu i Greu i fanteisio ar gyd-ddeallusrwydd pobl a sefydliadau ar draws Cymru i archwilio ac egluro goblygiadau ymarferol i wasanaethau cyhoeddus wrth iddynt facsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant. Bydd hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer dehongliad gwasanaethau cyhoeddus o'r nodau llesiant, a sut i'w gweithredu, ac yn taflu goleuni ar y gwaith da sy'n digwydd eisoes. Bydd yn dylanwadu ar, ac yn cynorthwyo newid mewn ymddygiad ymarferol drwy gynnig banc o arfer da (storïau am newid) i gyrff cyhoeddus, ac adnoddau (dulliau i'w helpu i newid).

I gyflawni'r gwaith hwn rwyf wedi sicrhau ymrwymiad 12 o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector â ganddynt yr arbenigedd, ac sy'n rhan o'r rhwydweithiau sy'n cynorthwyo pob un o'r nodau llesiant.

Mae gan y rhaglen gydweithredol hon fanteision deuol, sef dwyn arbenigwyr i mewn i fy nhîm, ond rhai sydd hefyd yn cynorthwyo'r sefydliadau secondio i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r Ddeddf.

Mae creu cronfa o adnoddau ar gyfer cyflawni amcan cyffredin yn un o ofynion allweddol y Ddeddf ar gyfer pob corff cyhoeddus ac mae'r rhai hynny sy'n gweithio gyda mi wedi dangos eu hymrwymiad i'r dull newydd hwn o weithio.

Fel rhan o gyfnod cychwynnol y rhaglen mae'r cynullwyr nodau wedi cysylltu ag oddeutu **200 o wahanol sefydliadau** i gasglu storïau o arfer da oddi wrth y cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector i'w rhannu gydag eraill. Gan ddefnyddio'u rhwydwaith eang, cynhaliwyd dau **weithdy i arloeswyr** ym Mawrth gyda phobl sydd wedi dangos dull arloesol o feddwl a datblygu dulliau newydd o weithio. Mae'r bobl hyn yn ein helpu i gasglu syniadau da sy'n cynorthwyo'r Ddeddf a'r newidiadau syml y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud.

Rydym yn ymdrechu i roi i'r mentrau arloesol hyn y credadwyedd a'r hyder i gysylltu â gwneuthurwyr polisi a, thrwy hynny, atgyfnerthu'r ffaith bod gan brosiectau arloesol bychan ran i'w chwarae yn llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â chyrff cyhoeddus mawr.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

*"Mae ymgyfrannu yn y Gallu i Greu wedi galluogi Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru i ddatblygu partneriaeth â mawr alw amdani gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae gweithio gyda'r Gallu i Greu, wedi caniatau i Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru ddeall a pharhau i ddefnyddio'r Ddeddf o fewn ein sefydliad ein hunan, yn arbennig y pum dull o weithio, fel bod ein tîm yn wirioneddol gydweithredol, hirdymor, ymglymedig ac yn integreiddio ar draws pob un o'r 7 Nod, gan atal colli bioamrywiaeth pellach."*

**Rachel Sharpe,**
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru

*"Mae'r Gallu i Greu yn rhoi cyfle i ni rannu'r profiad hwn a hefyd weld yn fanwl a dysgu oddi wrth bartneriaid sy'n gwneud datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o'u gwaith. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein helpu i 'fframio' ein gwaith fel y gallwn fod yn eglur yn y modd yr ydym yn cyflawni llesiant. Rydym yn gweld gwasanaethau eraill – gyda'r rhain yr ydym yn rhannu amcanion – yn defnyddio'r un 'ffrâm' ac mae hyn yn ein helpu i gryfhau partneriaethau cyfredol a dechrau sgyrsiau newydd am gydweithredu yn y dyfodol. Rhaid bod hyn yn beth da."*

**Steve Cranston,**
Cymdeithas Tai United Welsh

Y partneriaid yw:

- **Cyngor Celfyddydau Cymru** - sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'
- **BT Cymru Wales** – sy'n cynorthwyo rheoli prosiect
- **Masnach Deg Cymru a Hwb Cymru Affrica a Llywodraeth Cymru** – sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang'
- **Interlink RCT** – sy'n cynorthwyo ymgyfraniad
- **Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG** – sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru fwy cyfartal'
- **Chwaraeon Cymru** – sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru iachach'
- **United Welsh** – sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'
- **Canolfan Cydweithredol Cymru** – sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru Lewyrchus'
- **Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru** – sy'n cynorthwyo'r nod 'Cymru gydnerth'
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – sy'n cynorthwyo ymgysylltiad â chyrff cyhoeddus a BGCau.

*"Rydyn ni wedi bod wrth ein bodd i gael y bartneriaeth oherwydd ei bod wedi rhoi mewnwelediad i ni o'r hyn y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu mewn gwirionedd. Mae wedi'n galluogi i gael Rachel, sydd gyda'r Comisiynydd, i ddod yn ôl a rhoi mewnwelediad i ni o'r hyn y mae eraill yn ei wneud a sut y mae eraill yn ei dwyn rhagddi. Felly yn nhermau cyngor ymarferol, cymorth ymarferol, ond sydd ar yr un pryd yn ein herio, a ydyn ni mewn gwirionedd yn meddwl am y Gallu i Greu? Neu a ydyn ni'n meddwl, o hyd, mewn dull corfforaethol neu draddodiadol? Felly mae'r her honno ac, mae'n debyg, yr hyder i roi cynnig ar bethau gwahanol wedi bod yn ddefnyddiol iawn"*

**Sarah Powell,**
Chwaraeon Cymru

*"Ein pwrpas yn BT yw defnyddio pŵer cyfathrebu i wella'r byd, ac i gyflawni hyn mae'n rhaid i ni wneud busnes mewn dull cyfrifol. Mae hynny'n golygu ymddwyn yn foesegol, parchu pobl a'r amgylchedd, a buddsoddi mewn cymdeithas. Un dull o wneud hyn a chreu gwerth sy'n cael ei rannu ledled Cymru a thu hwnt yw drwy annog cydweithredu a phartneriaethau sy'n dwyn adnoddau ynghyd i gyflawni yn erbyn cyd-nodau a chyd-uchelgais"*


**Alwen Williams,**
Cyfarwyddwr BT Cymru.

*"I ni mae'n ymwneud nid yn unig â'r hyn yr ydym yn ei wneud ond â sut yr ydym yn ei wneud ac rydyn ni wedi bod yn herio'n hunain i feddwl efallai'n fwy gofalus nag yn y gorffennol am oblygiadau hirdymor yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud, ble rydyn ni'n dosbarthu ein hadnoddau ac yn hollbwysig gyda phwy rydyn ni'n gweithio fel partneriaid i gyflawni ein hagenda."*

**Nick Capaldi,**
Cyngor Celfyddydau Cymru

Y gwaith partneriaeth ar y nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang' a gychwynnodd gyntaf, ac mae wedi casglu consenswS rhwng gwahanol sefydliadau. Mae wedi galluogi cyd-gynhyrchu cydweledigaeth am yr hyn y mae bod yn gyfrifol yn fyd-eang yn ei olygu i gyrff cyhoeddus gan adnabod y newidiadau syml y gallant eu gwneud. Fel canlyniad, rwy'n gweld rhai cyrff cyhoeddus yn dangos gwell lefel o ddealltwriaeth o'r modd y gallant weithredu i gwrdd â'r nodau, yn ogystal â newid mewn ymddygiad ymarferol. Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n** datblygu adnodd i athrawon i'w cynorthwyo i integreiddio eu cynlluniau gwersi gyda'r Ddeddf fel y gall pobl ifanc ddysgu am ddatblygu cynaliadwy o Flwyddyn 1 mewn dull ymgysylltiol. Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** hefyd yn annog clybiau te a choffi Masnach Deg, tra'n adolygu eu contractau arlwyo a'r defnydd o blastig untro.

## Gwiriwr Siwrnai Byrddau Cyhoeddus & Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus "Ble ydyn ni nawr"




*"Fel canlyniad i'n hymgyfraniad yn y Gallu i Greu rydyn ni wedi cynnal gweithdy gyda chydweithwyr yn y sector cydweithredol i weld sut mae sefydliadau cydweithredol a gwaith cydweithredol yn medru cyflawni'r nodau llesiant. Roedd yn anghredadwy i weld faint o orgyffwrdd sy'n bodoli rhwng nodau, a gwerthoedd ac egwyddorion y sefydliad cydweithredol a'r mudiad busnes cymdeithasol. Rydyn ni nawr yn cynllunio i wneud rhagor o waith i ddangos i gyrff cyhoeddus sut y gall gweithio gyda chwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol eu helpu i gyflawni eu nodau."*

**Derek Walker,**
Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae fy nhîm wedi bod yn gweithio hefyd gyda'r cydlynydd a secondiwyd o **Interlink RCT** a **Thasglu'r Cymoedd** i gasglu storïau pobl am eu profiadau. Mae'r lleisiau hyn yn darparu'r cyd-destun ar gyfer storïau arfer da sy'n cael eu casglu am y newidiadau syml y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud, gan sicrhau bod y rhain yn arferion a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Wrth i'r rhaglen y Gallu i Greu dyfu byddaf yn rhoi prawf ar wahanol ddulliau o ennyn ymgyfraniad pobl yn y gwaith hwn gan dargedu'n arbennig lais pobl ar yr ymylon nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, i ddatblygu ein harfer a rhannu ein dysgu, a thrwy hynny gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu deialog ystyrlon a real rhwng cymunedau, unigolion a'u gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd y casgliadau a'r arfer da a adnabuwyd drwy'r rhaglen y Gallu i Greu yn sylfaen i fy nghyngor a fy nghymorth i gyrff cyhoeddus.

# Effaith:

- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiad**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Labordai Byw

Prototeipio'r cysyniad gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

I sbarduno newid o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru rwyf eisiau deall sut mae newid yn digwydd mewn gwirionedd mewn cyrff cyhoeddus.

Rwyf felly'n datblygu'r cysyniad 'labordy byw' sy'n amcanu gweithio a dysgu ochr yn ochr â nifer bychan o gyrff neu fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan ffocysu ar geisio rhoi cynnig ar ymagweddau newydd tuag at ddylunio a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus neu seilwaith, a rhoi prawf arnynt.

Dechreuais dreialu fy ymagwedd, gan fanteisio ar arbenigedd ystod o randdeiliaid, gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, y bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau i ryw 694,000 o bobl yng ngogledd Cymru. Mae pob bwrdd iechyd yn wynebu pwysau enfawr a chynyddol, sydd yn aml yn cael eu gweld fel rhwystr i ymgorfforiad y Ddeddf. Mae fy nhîm wedi bod yn sensitif i hyn, ac wedi buddsoddi amser yn y dasg o adeiladu ymddiriedolaeth a dealltwriaeth fel rhan o'r prototeip labordy byw.

Mae Labordai Byw yn ymwneud â chreu gofod lle mae'n ddiogel i sefydliadau fethu wrth ddatblygu dulliau newydd o weithio. Rwyf yn awyddus i labordai byw gael eu gweld fel cyfle i dorri'n rhydd o rai o lyffetheiriau proses sydd yn aml yn nodweddiadol o ddatblygiad ymagweddau newydd mewn cyrff cyhoeddus.

Wrth brototeipio'r cysyniad hwn, rwyf wedi:

- Annog staff i feddwl am yr heriau hirdymor a thueddiadau'r dyfodol (sy'n gysylltiedig â'u strategaeth deng mlynedd).
- Galluogi staff o lawer rhan o **Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr** i adnabod cyfleoedd ar gyfer rhoi prawf ar ddulliau newydd o weithio, er enghraifft, gordewdra plant a mamau, gwasanaeth i gleifion allanol a gwelliannau mewn iechyd yn ne Gwynedd a Bwrdd Sicrwydd.

Tra bo prototeip Betsi Cadwaladr yn parhau, rwyf yn dysgu oddi wrth ystod o sefydliadau eraill yn cynnwys **Prifysgol Dinas Birmingham** sydd wedi datblygu'r Labordy STEAM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, y Celfyddydau a Mathemateg) a phartneriaid o'r sector preifat sy'n datblygu ymagweddau tebyg a byddaf yn defnyddio'r cymorth hwn i ddatblygu model ar gyfer lledaenu'r ymagwedd yn fwy eang.

***Cathy Madge***
*Llawer o ynni ac ymrwymiad oddi wrth @BCUHB yn ein trafodaethau ar wneud agenda cenedlaethau'r dyfodol yn realiti, fel rhan o'n cydweithio gyda @PublicHealthW@futuregencymru@TanyaNash1@TeresaOwenDPH*

Yn fy nhrydedd flwyddyn yn gweithio ochr yn ochr â Labordai Byw, byddaf yn datblygu fy Nghwmwl o Arloeswyr. Bydd hyn yn cynnwys eiriolwyr cenedlaethau'r dyfodol ac arloeswyr yn eu maes, gyda'r gallu a'r parodrwydd i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus ar ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer yn fy meysydd blaenoriaethol a thu hwnt.

## Effaith:

- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**
- **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiad**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

## *Gweithio gyda Charchardai Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf (HMPPS) yng Nghymru*

Yn ychwanegol at sefydlu'r ddwy raglen flaenllaw hyn, rwyf wedi gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

*O'r asesiadau llesiant a gyhoeddwyd yn 2016-2017, roedd y cysylltiad rhwng llesiant cymunedol a materion perthnasol i droseddu yn gyfyngedig. Drwy drafodaeth gydag aelodau o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, adnabuwyd hefyd bod yna ar adegau ddiffyg dealltwriaeth leol o'r rôl a chwaraeir gan bartneriaid ehangach (darparwyr tai, gwasanaethau iechyd meddwl ayb) mewn materion yn ymwneud â diogelwch cymunedau, yn deillio o'r angen i ddeall yn well 'brofiadau bywyd' y rhai yn y system gyfiawnder. I helpu i wneud y cysylltiadau hyn, ymgymerais â swydd a ariannwyd ar y cyd gan Garchardai ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf (HMPPS) yng Nghymru i gynorthwyo'r gwaith o ymgorffori'r Ddeddf ym meysydd profiannaeth a'r sectorau cyfiawnder yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys:*

- *Fframio dadleuon drwy* ***gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth byrddau gwasanaethau cyhoeddus o faterion cyfiawnder troseddol a rheoli troseddwyr;*** *mabwysiadu ymagwedd gyd-gysylltiedig tuag at fynd i'r afael â throseddu a materion diogelwch cymunedol ac adnabod cyfleoedd i hwyluso mynediad i 'brofiadau bywyd' defnyddwyr y gwasanaeth prawf.*
- *Cael materion ar yr agenda a dylanwadu ar newid ymddygiad drwy helpu i ffurfio'r* ***Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rhai hynny sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru,*** *2018-2023 (wedi ei ddatblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a HMPPS yng Nghymru ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan). Pwrpas y fframwaith yw dwyn ynghyd bartneriaid i wella gwasanaethau i'r rhai mewn risg o fod ar drothwy'r system cyfiawnder troseddol (neu eisoes ynddo) ac mae'n nodi chwe maes allweddol ar gyfer gweithredu, yn cynnwys lleihau'r nifer o fenywod yn y system cyfiawnder troseddol a darparu cymorth i oedolion ifanc/rhai sy'n gadael gofal. Mewn dull adeiladol, gwnaeth fy nhîm herio'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu yn erbyn y fframwaith, yng nghyd-destun: cynnwys y bobl arferol a chyrff cyhoeddus ehangach nad ydynt, o bosib, wedi arfer ymgyfrannu mewn agendâu cyfiawnder troseddol; ystyried sut y maent yn ennyn ymgyfraniad byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan gydnabod fod gan FGCau y liferi ar gyfer creu newid yn nhermau atal/lleihau troseddu ac aildroseddu; a phennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer pob un o ffrydiau gwaith y Fframwaith.*
- *Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau drwy ddatblygu Cytundeb Partneriaeth Cymru Gyfan: Cydweithio i adeiladu cydnerthedd drwy ymagwedd iechyd cyhoeddus tuag at blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'r Cytundeb hwn yn amlinellu* ***sut y bydd plismona a phartneriaid cyfiawnder troseddol yn defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy*** *wrth symud rhagddynt faterion cyd-flaenoriaethol megis cydweithio i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.*
- *Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill drwy ddylanwadu ar* ***Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru*** *i ddefnyddio'r Ddeddf a'r pum dull o weithio yn eu prosesau penderfynu. Ysgrifennais at y Comisiwn gan roi enghreifftiau o'r modd y dylai'r Comisiwn dalu sylw i effaith y penderfyniadau a wneir ar genedlaethau'r dyfodol.*

# Gweithio gyda chomisiynwyr eraill

Sefydlu hawliau plant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae Comisiynwyr, ymhlith eraill, yn eistedd ar fy mhanel ymgynghori a fy hoff  ymagwedd tuag at weithio gyda fy mhanel ymgynghori yw drwy ganolbwyntio ar feysydd sydd yr un mor bwysig i ni i gyd.

Yn fy mlwyddyn gyntaf, fe drefnais gyda **Chomisiynydd Plant Cymru, Sally Holland,** bartneriaeth a arweiniodd at aelod o staff a ariannwyd ar y cyd. Gyda'n gilydd rydyn ni wedi datblygu adnodd a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus (yn cynnwys cynghorau ac ysgolion) i feddwl am y modd y maent yn gwneud hawliau a datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o'u gwaith ar gyfer gwneud y defnydd gorau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd y pecyn cymorth ei dreialu yn Abertawe a chaiff ei gyhoeddi ym  Mehefin 2018.

## Effaith:

- **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill**
- **Sicrhau newid trefniadol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

> *"Dros y flwyddyn ddiwethaf mae fy nhîm a minnau wedi gweithio unwaith eto gyda Sophie a'i thîm i sicrhau bod hawliau dynol plant yn cael eu hamddiffyn a'u hybu wrth i wasanaethau cyhoeddus addasu a newid mewn ymateb i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Mae'r ddwy ohonom yn gweld potensial enfawr ar gyfer trawsnewid profiadau plant a phobl ifanc fel dinasyddion o dan y Ddeddf, ac mae'n cyd-becyn cymorth yn helpu cyrff cyhoeddus i ystyried sut y maent yn diogelu hawliau plant i ddarpariaeth, amddiffynfa a chyfranogiad drwy, ac ochr yn ochr â'r Ddeddf."*
>
> **Sally Holland,**
> Comisiynydd Plant Cymru

# Mynd â Chymru i'r byd

a'r byd i Gymru

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddeddfwriaeth sy'n arwain y byd ac mae'n dal i dynnu sylw'n rhyngwladol. Nid yw'r holl atebion gan Gymru ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau sy'n ein hwynebu, a chredaf fod rhannu syniadau ac ehangu trafodaethau i gynnwys cenhedloedd a rhanbarthau eraill yn bwysig iawn wrth gyflawni amcanion a dyletswyddau'r Ddeddf.

Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod cymaint o'n heriau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn goresgyn gwahanfuriau cenedlaethol.

NIFG

I hybu datblygu cynaliadwy'n rhyngwladol, rwyf wedi meithrin a datblygu cysylltiadau cryf gyda nifer o bartneriaid rhyngwladol yn ystod y flwyddyn, gan arddangos ein gwaith arloesol ar ddatblygu a'n parodrwydd i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadeirio **Rhwydwaith Ryngwladol Sefydliadau Cenedlaethau'r Dyfodol** - mae'r rhwydwaith yn rhannu gwybodaeth o wahanol fannau yn y byd ac yn cynorthwyo gwledydd eraill sy'n ymroi i  sefydlu trefniadau llywodraethu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, mae'r Iseldiroedd wedi lansio ymgyrch i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn seiliedig ar y model Cymreig sy'n cael ei gefnogi gan Ei Mawrhydi'r Dywysoges Laurentien ac mae'r Ffindir ar hyn o bryd yn ystyried deddfwriaeth gyffelyb.
- Cynorthwyo gwaith yr **InterAction Council** sefydliad annibynnol dim-am-elw sy'n dwyn ynghyd gyn-arweinyddion y byd i fobileiddio'u hynni, eu profiad a'u cysylltiadau rhyngwladol, mewn ymdrech i ddatblygu argymhellion a meithrin cydweithredu a gweithredu cadarnhaol o gwmpas y byd
- Cymryd  rhan yn yr **'International Visitor Leadership Programme' a ariennir gan Adran Wladwriaeth yr Unol Daleithiau** – lle gwneuthum ymweld â nifer o ddinasoedd yr Unol Daleithiau i drafod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dysgu oddi wrth sefydliadau eraill sy'n hybu datblygu cynaliadwy.
- Ysgrifennais at bob cyfarwyddwr addysg a chyhoeddi llythyr agored i ysgolion yn eu hannog i gymryd rhan yng **Ngwers Fwya'r Byd** ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Codi proffil Cymru a'r Ddeddf drwy fforymau a chyfnewidiad gwybodaeth ryngwladol yn cynnwys drwy'r **Cenhedloedd Unedig,** Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ennill proffil rhyngwladol mewn nifer o wledydd yn cynnwys Seland Newydd ac Awstralia.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

*"Mae Sophie Howe fel Cadeirydd wedi bod yn allweddol yn y dasg o arddangos Rhwydwaith Ryngwladol Sefydliadau'r Cenhedloedd Unedig (NIFG) yn yr arena ryngwladol. Mae hyn yn cynnwys gyda Mr Yuwang Zhu, Cyfarwyddwr Adran Datblygu Cynaliadwy, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig a Mr Erik Solheim, Cyfarwyddwr Gweithredol Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig. O dan ei harweinyddiaeth mae aelodau wedi datblygu methodoleg o rannu arfer da mewn meysydd o ddiddordeb, ymhlith eraill y cynllun Cymreig, Plant! a ddefnyddiwyd fel un o rôl-fodelau ar gyfer Cynllun 'Tree Sibling' Hwngari. Mae ymgysylltiad sefydliadol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn brosiect cyffredin ymhlith llawer o aelodau NIFG ac o dan ei harweinyddiaeth gwnaethom gyd-drefnu cynhadledd ryngwladol "Cyd-greu sefydliad ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr Iseldiroedd", yn yr Hag yn Chwefror 2017."*

**Anna Martinez-Zemplén,**
Ysgrifenyddes Rhwydwaith Ryngwladol Sefydliadau Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu








Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Pwrpas 4

## Gweithredu yn ogystal â thrafod - ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Gan adeiladu ar yr ymagwedd datblygu cynaliadwy tuag at sefydlu fy swyddfa mewn cyfnod o un flynedd, eleni mae fy nhîm a minnau wedi cyrraedd nifer o gerrig milltir pwysig ar ein taith bersonol i 'weithredu yn ogystal â thrafod'.

Ym Mai 2017, gweithiodd fy nhîm gyda'i gilydd i weld sut y gallem facsimeiddio'n cyfraniad ni ein hunain i'r saith nod llesiant. Heriais fy nhîm i archwilio pa elfennau o'n huchelgais yn ein gwaith sy'n cydfynd â phob nod. Yn unol â'r Ddeddf a'r her yr wyf yn ei chyflwyno i weddill y sector cyhoeddus, rwy'n awyddus i sicrhau fy mod yn meddwl yn wahanol fel cyflogydd a fy mod yn medru dangos sut mae'r nodau llesiant a'r pum dull o weithio'n dylanwadu ar bopeth yr ydym yn ei wneud fel swyddfa.

Yn yr adran hon rwyf hefyd yn dangos effaith hyblygrwydd fy amgylchedd gwaith ac yn hybu'r arfer da yr wyf wedi ei adnabod. Roedd hwn yn ymrwymiad a wneuthum mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar Graffu ar Gyfrifon 2016-2017. Gofynnodd y Pwyllgor i mi hefyd werthuso'r gyfran uchel o secondiadau o fewn fy ngweithlu ac ystyried yr effaith ar allbynnau ac effeithlonrwydd fy sefydliad.

### Ymrwymiad fy swyddfa i'r pum dull o weithio

Eleni rydyn ni wedi bod yn archwilio strwythurau atebolrwydd llai hierarchaidd a mwy addasadwy a methodoleg fwy hyblyg ar gyfer cyflawni ein gwaith. Fel Comisiynydd, rwyf yn awyddus i alluogi'r bobl sy'n gweithio i mi i fod yn greadigol, i gymryd risgiau a reolir yn dda, a rhoi cynnig ar bethau newydd waeth beth fo'u safle yn fy sefydliad. Mae fy nhîm wedi gweithio gyda'i gilydd i ddisgrifio **fframwaith ymatebolrwydd newydd** a fydd yn esblygu wrth i ni dyfu a dysgu.

Sut mae ein fframweithiau atebolrwydd yn gweithio i ni:

**Cymorth tîm**
Cynhaliwch y cydbwysedd yn eich gwaith a'ch bywyd, rheolwch eich amser hamdden, gofalwch am eich iechyd, gofynnwch am help a byddwch yn ddiogel

**Perthynas waith y tîm**
Ar y siwrnai, deallwch eich rôl eich hunan a Pherchenogion Cynnyrch eraill, Rheolwyr Cyflenwi ac aelodau'r tîm

Dyfodol Cenedlaethau'r Dyfodol a mi

**Datblygiad personol tîm**
Carwch dysgu: tyfwch a datblygwch a chwiliwch am fentor i chi eich hunan

**Y Greal Sanctaidd**
Gwnewch yn siwr eich bod ar y siwrnai. Sicrhewch eich bod yn cael eich sbarduno gan y Map Ffordd sefydliadol i ddangos ein heffaith

Mae ein hymagwedd newydd tuag at atebolrwydd yn bwysig iawn i mi oherwydd ei fod yn fframio'n perthynas yn y gweithle ac yn helpu i wneud ein sefydliad yn arloesol, cynhyrchiol a phleserus i fod ynddo. Credaf ei fod yn ei hanfod yn adlewyrchu'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Hirdymor:** creu cydbwysedd rhwng anghenion y tymor byr a'r angen i ddiogelu hefyd y gallu i gyflawni anghenion yr hirdymor

Rwyf wedi mabwysiadu ymagwedd tuag at ymatebolrwydd sy'n golygu bod ein datblygiad sefydliadol yn esblygu wrth i ni dyfu a dysgu, gan gadw mewn golwg brofiadau pobl a'u syniadau arloesol ar sut i greu gweithle ardderchog. Gall fy ymagwedd tuag at sefydlu adnoddau ar gyfer fy swyddfa mewn partneriaeth ag eraill fod yn gymhleth i'w drefnu ar y cychwyn, ond credaf ei fod yn medi manteision yn y tymor hwy, gan ddwyn arbenigedd allanol i mewn i'r tîm, yn ogystal â rhannu dysgu am sut i weithredu'r Ddeddf. Bydd y sefydliadau a'r bobl fwyaf hyblyg yn y lle gorau i gwrdd â gofynion polisi cyhoeddus a swyddi'r dyfodol ac felly rwyf yn buddsoddi mewn creu gweithlu hyblyg a fydd yn medru cwrdd ag anghenion y dyfodol yn y ffordd orau posibl.

**Integreiddio:** ystyried sut y gallem drwy ein gwaith effeithio ar ein gilydd ac ar y sefydliad

Rwyf wedi 'chwalu' ymagwedd swyddogaethol tuag at ein gwaith drwy symud tuag at system waith hyblyg. Golyga hyn nad ydym yn gweithio mewn seilos a bod ein prosiectau'n gyd-ddibynnol ac yn elwa o integreiddio'n sgiliau a'n gwybodaeth arbenigol amrywiol, yn cynnwys lleoliadau allanol a rhai sy'n cael eu secondio. Mae hyn hefyd yn golygu bod ymatebolrwydd am gyflawni rhaglenni gwaith yn bodoli ar bob lefel yn y sefydliad, gan roi cyfleoedd i fwy o staff is i arwain gwaith a datblygu prosiect a sgiliau rheoli pobl.

**Ymgyfraniad:** pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant

Rydyn ni'n llofnodydd Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, set drosfwaol o egwyddorion yn cynnig ymagwedd gyson o safon uchel ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Rwyf wedi parhau gyda'n rhaglen sesiynau ciniawa a dysgu, gan ddysgu o brofiadau bywyd pobl.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae fy nhîm a minnau wedi siarad ac wedi ymweld ag ystod eang o grwpiau cymunedol, yn amrywio o'r prosiect Hapi yn Rhydfelin, yr ymgyrch dros gael gorsaf newydd ym Magwyr a Gwndy a phobl ifanc yn Llamau, i fenywod ysbrydoledig o Women Connect First. Ym mhob darn o waith fy amcan yw ennyn ymgyfraniad pobl a sefydliadau a defnyddio'u lleisiau yn fy ngwaith, er enghraifft cyfraniadau o brofiadau bywyd pobl oedd yn rhan o'n anghynhadledd, a chroesawu grŵp o Llamau i'n swyddfa i gael profiad gwaith.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales



**Cydweithio:** cydweithredu gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hunan)

Rwyf wedi ymroi i ddod o hyd i bartneriaethau tu allan i fy sefydliad oherwydd gwn na ellir cyflawni'r newid sydd ei angen i gyflawni'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan fy nhîm yn unig.

## Mae 40% o fy staff
**wedi eu secondio o:**

Comisiynydd Plant Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
United Welsh
Chwaraeon Cymru
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
BT Cymru Wales
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Interlink RCT
Cyngor Celfyddydau Cymru
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
Masnach Deg

## *Gwerthuso effaith secondiadau*

*Eleni, rwyf yn falch i ddweud fy mod wedi ymestyn cyrhaeddiad fy nhîm o un traean drwy bartneriaethau a chydweithio. Ar 31 Mawrth 2018, roeddem yn gweithio gyda 13 o wahanol sefydliadau drwy gytundebau secondiad a chydweithredu. Gellir gweld rhestr gyflawn o gydweithwyr yn ystod 2017-2018 yma.*

*Mae llawer o gydweithwyr yn cydnabod gwerth secondio staff i fy nhîm fel rhan bwysig o chwalu'r seilos rhwng sectorau. Mae'n cynnig cyfle uniongyrchol i ddarganfod sut yr ydym, yn unol â'r Ddeddf, yn gweithredu yn ogystal â thrafod. Mae fy nhîm hefyd yn dysgu oddi wrth y rhai sy'n cael eu secondio, sy'n dwyn persbectifau a syniadau newydd sy'n cyfoethogi'n datblygiad ymhellach. Mae cydweithio yn sicr yn helpu i gyflymu dealltwriaeth ddiwylliannol o'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn awyddus i'w cynorthwyo a'u herio a fydd yn cynyddu effaith ein hymyriadau yn yr hirdymor.*

*Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n sbardun allweddol sy'n gyrru'n hymrwymiad i gydweithio a gweithio gyda phartneriaid. Bydd gweithio mewn dull cyd-gysylltiedig yn arwain at feddylfryd gyd-gysylltiedig yn yr hirdymor ond yn y blynyddoedd cynnar mae'r tabl isod yn dangos bod hyn hefyd wedi bod yn fanteisiol I fy sefydliad o safbwynt ariannol, gan ddwyn £653,000 o adnoddau ychwanegol i fy ngwaith oherwydd bod y nifer o bobl sydd wedi eu secondio o bartneriaethau wedi eu hariannu'n rhannol neu'n gyfangwbl gan y partneriaid hynny. Mae hon yn ymagwedd arloesol tuag at gyflenwi adnoddau sylweddol sydd arnom eu hangen ar gyfer cyflawni gwaith fy swyddfa ac mae'n amlwg yn adlewyrchu 'sbrint' y ddeddfwriaeth.*

| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: SECONDIAD – GWERTH YCHWANEGOL (VA) | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | CYFANSWM(£) |
|---|---|---|---|---|---|
| VA o arbed costau (secondai nas talwyd) | 335,790 | 59,286 | 93,062 | - | 488,138 |
| VA o arbed costau (secondai a dalwyd yn rhannol) | n/a | 27,149 | 53,104 | - | 80,253 |
| **Cyfanswm** | **335,790** | **86,435** | **146,166** | **-** | **568,391** |
| **Canran o incwm a nodir yn nhermau incwm ychwanegol at y cymorth grant a dderbyniwyd** | **22%** | **6%** | **10%** | **-** | **13%** |

| AOTP: SECONDIAD – GWERTH YCHWANEGOL (VA) | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | CYFANSWM(£) |
|---|---|---|---|---|---|
| VA o arbed costau | - | 32,302 | 132,000 | 13,906 | 178,209 |
| VA o gyfraniad ariannol sefydliad sy'n bartner i ni | - | 86,159 | 352,135 | 36,460 | 474,754 |
| **Cyfanswm** | **-** | **118,461** | **484,135** | **50,366** | **652,963** |
| **Canran o incwm a nodir yn nhermau incwm ychwanegol at y cymorth grant a dderbyniwyd** | **-** | **8%** | **33 %** | **3%** | **14 %** |

*Mae'r arbedion hyn wedi eu cyfrifo ar sail gwerth y swydd a lenwid gan rai ar secondiad i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**Atal:** Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu

Nid oes arnaf ofn cymryd risgiau sy'n cael ei rheoli'n dda i gyrraedd ein nod. Nodir hyn yn glir yn fy Mholisi Risg Strategol. Mae'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni'n enfawr ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn arloesol a rhoi cynnig ar bethau newydd. Byddwn yn rhannu'n llwyddiannau a'n methiannau gyda'n gilydd fel y gallwn ddysgu oddi wrthynt, addasu ein hymagweddau a gwella'n tebygrwydd o lwyddo. Rwyf wedi rhestru'r chwe risg strategol allweddol ar gyfer fy nhymor saith mlynedd y credaf y gallent effeithio'n negyddol ar allu fy sefydliad yn ei ymdrechion ar ran cenedlaethau'r dyfodol.
Mae fy nghynllun strategol yn arwain gwaith fy nhîm i wneud popeth o fewn eu gallu i atal y risgiau hyn rhag dod yn realiti. Mae fy holl dîm wedi fy helpu i benderfynu ar y risgiau hyn ac maent yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu tuag at fynd i'r afael â hwynt. Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da yn ystod blwyddyn un a dau ac mae fy ail adroddiad blynyddol yn dangos sut mae ein gwaith yn cynyddu a sut yr ydym ar y trywydd iawn tuag at gyflawni ein hamcanion strategol. Byddaf yn parhau i adrodd yn flynyddol ar gynnydd wrth i ni symud i mewn i flynyddoedd tri i saith.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Ein gwerthoedd a'r hyn sy'n bwysig i ni

| A beth mae hynny'n ei olygu i'n ffordd o ymddwyn | |
|---|---|
| Cyflawni ein pwrpas a gwneud iddo ddigwydd | Byddaf yn gweithio gydag eraill i gynhyrchu teimlad o gyd-bwrpas gan edrych yn bositif ar natur y dyfodol. |
| Bod yn uwch-gysylltiedig | Byddaf yn ymroi i ddeall gwahanol amcanion ac agendâu y rhai yr wyf yn gweithio gyda hwynt ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i fynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro posibl ac i gyflawni canlyniad positif.<br>Byddaf yn cynllunio ymlaen llaw i adnabod a meithrin cysylltiadau sy'n debygol o fod yn bwysig ar gyfer cyflawni gwasanaethau'n llwyddiannus yn awr ac yn y dyfodol. |
| Bod yn uwch-ymgysylltiedig | Byddaf yn parhau i atgyfnerthu diwylliant cydlynol wrth wneud penderfyniadau ac arwain ar y cyd ag eraill. |
| Bod yn Arweinyddion sy'n gofyn nid traethu | Byddaf yn dangos ymddiriedaeth mewn eraill gan wybod pryd i gynorthwyo a phryd i gamu nôl.<br>Byddaf yn cyfathrebu'n agored, yn adeiladu credadwyedd a byddaf yn ddidwyll gyda phobl er mwyn ennyn eu hymddiriedaeth a'u hyder ynof. |
| Minimeiddio rheolau ac annog y rhyddid i fod yn arloesol | Byddaf yn annog ac yn cynorthwyo eraill i feddwl yn wahanol, i gwestiynu a rhoi cynnig ar ddulliau newydd o wneud pethau, gan gymryd risgiau priodol wedi eu hystyried ymlaen llaw.<br>Byddaf yn gweithio'n hyblyg i addasu fy rôl a fy mhwrpas mewn ymateb i anghenion a ragwelir ymhlith fy nhîm a'n rhanddeiliaid.<br>Byddaf yn ymroi i wella perfformaid ariannol yn barhaus a darparu gwerth am arian heb gyfaddawdu ansawdd. |
| Dathlu dysgu o'n camgymeriadau yn ogystal â'n llwyddiannau | Byddaf yn dysgu o fy llwyddiannau a fy nghamgymeriadau a datlbygu meysydd newydd o wybodaeth ac arbenigedd.<br>Byddaf yn canolbwyntio ar fentrau amhoblogaidd os yr ydynt yn cynrychioli cynnydd ac os mai dyna'r peth iawn i'w wneud. |
| Deall a gwerthfawrogi ein gwahaniaethau | Byddaf yn myfyrio'n onest ar fy steil bersonol a'i heffaith ar eraill a byddaf yn datblygu fy sgiliau fel y gallaf addasu fy steil yn ôl priodoledd. |
| Cael cydbwysedd yn ein bywyd "caru gwaith mwynhau bywyd' | Byddaf yn cynnal cydbwysedd realistig ac agwedd bositif tuag at heriau, helbulon a newid ac yn cynorthwyo eraill i wneud yr un fath. |
| Caru dysgu | Byddaf yn dysgu o fy llwyddiannau a fy methiannau ac yn datblygu meysydd newydd o wybodaeth ac arbenigedd.<br>Byddaf yn deall ac yn croesawu manteision technoleg newydd ac yn eu defnyddio ar gyfer rheoli a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus. |

# Macsimeiddio ein cyfraniad

i'r nodau llesiant




Yn ogystal â gweithio gydag eraill i sbarduno'r newid yr ydym dymuno ei weld mewn cyrff cyhoeddus ar draws Cymru, mae fy swyddfa a fy nhîm yn anelu at wneud ein cyfraniad ein hunain i'r saith nod llesiant - o weithredoedd bach i ddarnau mwy o waith i sbarduno'r math iawn o weithredu ac ymddwyn. Fy amcan yw creu gweithle lle mae pobl yn medru bod yn gynhyrchiol a chreadigol a lle mae eu hiechyd a'u llesiant yn ogystal â chyflwr yr amgylchedd lleol yn cael eu gwerthfawrogi.

## Cymru lewyrchus

Rwyf wedi cyflawni'r canlynol:

- Rwyf yn gyflogydd Cyflog Byw
- Rwyf wedi bod yn gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i recriwtio prentis
- Rwyf wedi rhoi cyfleoedd i sicrhau **profiad gwaith** ymarferol i nifer o fyfyrwyr drwy leoliad am dâl. Mae'r rhain wedi cyfrannu at ein gwaith ar fargeinion dinesig (Loren Axinte), fy adolygiad o ohebiaeth gyhoeddus (Charlotte Ford) a'r dadansoddiad o amcanion llesiant (Jess Antell).
- Os oes angen darparu lluniaeth rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cynorthwyo'r nifer mawr o fusnesau annibynnol ardderchog yng Nghaerdydd, er enghraifft Nature Cater, Women Connect First a Green Shoots Catering, menter gymdeithasol.
- Gwneuthum gysylltu'n benodol â'r person sy'n glanhau ein swyddfa, **Serena Barter,** a sefydlodd, ac sy'n rhedeg Emerald Green Clean, busnes Cymreig bach, nid yn unig oherwydd bod ei chais yn cynnig gwerth da am arian ond oherwydd ei bod wedi ymrwymo i ddefnyddio dim ond cynnyrch glanhau sy'n amgylcheddol-gyfeillgar. Rwyf yn falch i fod yn cynorthwyo rhiant sengl annibynnol a newidiodd ei bywyd ei hunan pan benderfynodd gychwyn ei busnes ei hunan.
- Rwyf yn annog fy nhîm i fod yn arloesol a rhannu syniadau da, er enghraifft mae ein Cynorthwyydd Cyfryngau Digidol wedi datblygu bwletin technegol wythnosol poblogaidd iawn 'Abby's Apps'.


## Cymru gydnerth

Rwyf wedi sefydlu man cychwyn ar gyfer adrodd ar agweddau amgylcheddol datblygu cynaliadwy. Rwyf wedi edrych ar bum gwahanol elfen yn ein gweithgaredd (teithio, gwastraff, trydan, dŵr a nwy) yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru ar fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ni fedraf gyrchu data ar y defnydd o ddŵr a nwy yn fy swyddfa oherwydd rwyf yn rhannu gofod swyddfa ond mae'r data ar ynni, teithio a gwastraff sydd ar gael i mi yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i effaith fy swyddfa ar yr amgylchedd a sut yr wyf yn cwtogi arno mewn termau absoliwt o un flwyddyn i'r llall.

Mae Ffigur 1 yn dangos bod dros 60% o allyriadau carbon fy nhîm yn deillio o deithio i'r gwaith. Mae sefydlu hyn wedi bod yn fan cychwyn pwysig a thra bo'r ddwy flynedd gyntaf yn adlewyrchu llawer iawn o deithio ar draws Cymru i gwrdd â phob un o'r 44 corff cyhoeddus a phartneriaid eraill, flwyddyn ar ôl blwyddyn bydd lleihau'r allyriadau sy'n dod o'n cyd-deithio'n un o fy amcanion. Mae aelodau o fy nhîm wedi bod yn herio'i gilydd i wella'n hôl-troed carbon drwy rannu canlyniadau personol cyfrifiannell sy'n mesur ôl-troed carbon.

**Ffigur 1 – Allyriadau carbon – tunelli (2017/18)**




I fonitro a lleihau effaith amgylcheddol fy swyddfa rwyf wedi:

## Trafnidiaeth

- Sefydlu man cychwyn ar gyfer mesur allyriadau carbon fy swyddfa.
- Amlinellu polisi sy'n annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol ar gyfer gwaith a theithio i'r gwaith.
- Cychwyn gwaith i olrhain dulliau o deithio i'r gwaith – mae data cychwynnol yn dangos bod **dros dri chwarter o fy nhîm yn teithio'n gyson i'r gwaith drwy gludiant cyhoeddus neu deithio llesol.**
- Ymrwymo i wrthbwyso fy allyriadau drwy wneud cyfraniad i elusennau perthnasol.
- Prynu beic i'w ddefnyddio gan staff i fynychu cyfarfodydd lleol.
- Trefnu cynadledda fideo gan gynnal cyfarfodydd yn gyson drwy gyfrwng Skype a FaceTime gan gwtogi ar yr angen i'r tîm a minnau deithio.

## Trydan:

- Newid ein darparydd trydan i **Ecotricity** i roi i ni 100% o ynni adnewyddol.

## Gwastraff:

- Monitro faint yr ydym yn argraffu a cheisio lleihau'r argraffu a wneir gan bob aelod o'r staff. Cynyddodd nifer ein staff eleni, felly yn gyffredinol cynyddwyd argraffu, ond cafwyd lleihad yn y maint o argraffu a wnaed gan bob aelod unigol o'r staff. Rydyn ni'n gweithio tuag at ddod yn swyddfa ddi-bapur.
- Rhoi ar waith bolisi llym **Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu** ac rwyf yn falch ein bod hyd yn hyn wedi prynu dim ond pedair eitem o ddodrefn i'n swyddfa. Mae'r rhan fwyaf o ddodrefn fy swyddfa wedi ei gael drwy ffynonellau uwchgylchu a siopau elusennol gan gyfyngu ar yr angen i brynu rhai newydd – gwnaeth hyn nid yn unig gynorthwyo siopau elusennol lleol ond fe wnaeth arbed £17,019 a 2.24tunnell o allyriadau carbon deuocsid.
- Gwneud compost o wastraff swyddfa ac ailgylchu
- Gwahardd y defnydd o gwpanau plastig untro o'r swyddfa

> *"Pryniad rhad ail-law oedd ein beic swyddfa o Hyfforddiant Beicio Cymru oedd yn golygu ein bod yn uwchgylchu yn ogystal â chynorthwyo menter leol gymdeithasol. Rhoddwyd yr holl gyfarpar i ni gan Sustrans neu aelodau o'r staff. Mae staff yn ei ddefnyddio i deithio i gyfarfodydd, gan arbed amser drwy ddefnyddio dull amgen o deithio. Mae mynd i gyfarfodydd ar feic hefyd yn gwrthbwyso'r ôl-troed carbon sy'n digwydd wrth deithio mewn car neu drafnidiaeth gyhoeddus."*
>
> **Clare Johnson,**
> Swyddog rhanddeiliaid




Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Yn gyffredinol, cynhyrchodd fy swyddfa 18 tunnell gymedrol o nwyon tŷ gwydr drwy drydan, gwastraff a theithio yn 2017-2018 ac mae gweithio i leihau ein hallyriadau ymhellach yn y dyfodol yn flaenoriaeth sefydliadol. Byddaf yn gwrthbwyso'r allyriadau hyn drwy gyfrannu £100 yr un i Goed Cadw a Maint Cymru a fydd gobeithio'n amlygu'r gwaith da a wneir gan y cynlluniau hyn gan ddangos ein hymrwymiad i reoli allyriadau carbon yn egnïol a chyfrifol.

**Mae Tabl 2 yn rhoi manylion pellach ac yn nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i hawliadau costau busnes.**


| **Gwastraff** | **2017/18** |
|---|---|
| Gwastraff: | |
| Anarianol (tunelli) | |
| Tirlenwi | 0.14 |
| Ailddefnyddio/ailgylchu | 0.14 |
| **Ynni** | **2017/18** |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Tunelli $CO^2$e) | |
| Allyriadau gros, sgôp; 2 & 3 | |
| (anuniongyrchol) | 6.73 |
| Defnydd o ynni (kWh) | |
| Trydan (anadnewyddol) | 7,249 |
| Trydan (adnewyddol) | 11,908 |
| Nwy (dim gwybodaeth ar gael, wedi ei gynnwys yn y tâl gwasanaeth) | N/A |
| **Teithio Staff** | **2017/18** |
| Allyriadau teithio (Tunelli o $CO^2$e) | |
| Rheilffordd | 1.40 |
| Aer | 4.05 |
| Car/bws/tacsi | 5.38 |
| Teithio (milltiroedd) | |
| Rheilffordd | 18,621 |
| Aer | 12,735 |
| Car/bws/tacsi | 18,414 |

**Tabl 3 – Ynni a ddefnyddiwyd gan ein swyddfa, a milltiroedd busnes**




Mae ein teithio awyr yn adlewyrchu ymweliad y Comisiynydd â'r Unol Daleithiau i fynychu'r 'International Visitor Leadership Programme' a noddwyd gan Adran Wladwriaeth yr Unol Daleithiau (10-27 Hydref 2017)

**Tabl 4 – Argraffu'r swyddfa**
Nifer o gopïau a argraffwyd gan bob aelod o'r staff




## Cymru iachach

Gan gydnabod pwysigrwydd cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol, rwyf wedi cyflwyno ymagwedd 'unrhyw amser unrhyw le' tuag at oriau gwaith sy'n galluogi pobl yn fy nhîm 'i garu gwaith a mwynhau bywyd'. Mae fy staff yn gwerthfawrogi'n fawr yr ymagwedd gwbl hyblyg hon ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn ein harolwg diweddar yn dangos hyn. Y pethau yr oedd fy nhîm yn eu hoffi fwyaf oedd:

- Y bobl, ein tîm
- Deddfwriaeth sy'n arwain y byd
- Ein cenhadaeth
- Yr her a'r newid yr ydym yn dylanwadu arno
- Lleoliad y swyddfa a'r gofod
- Yr amgylchedd creadigol
- Comisiynydd ysbrydoledig
- Teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Mentrau llesiant



> *"Rwyf i wir yn gwerthfawrogi'r polisi 'unrhyw le, unrhyw amser'. Mae hwn yn bwysig i mi."*
>
> *"Rwyf yn caru hyblygrwydd y gweithle, mae'n ymwneud â chanlyniadau, nid yr amser sy'n cael ei dreulio'n eistedd wrth y ddesg."*
>
> Sylwadau i holiadur staff

## Rwyf hefyd:

- Wedi treulio amser yn dylunio gwahanol fathau o ofod yn ein swyddfa ar gyfer gwahanol weithgareddau gan fy mod yn cydnabod bod gan amgylchedd y swyddfa'r potensial i gael effaith arwyddocaol ar iechyd a llesiant fy nhîm. Adlewyrchir cymeriad pob gofod yn y dewis o gadair esmwyth, lliwiau llachar, planhigion, lluniau a desgiau da hen-ffasiwn.
- Wedi prynu bwrdd bwyta mawr ail-law o'r siop elusennol i'w defnyddio yn ein gofod cegin, sydd wedi dwyn llawer o fudd a mwynhad i fy holl dîm ac ymwelwyr, gan ddarparu man lle rydyn ni'n aml yn dod at ein gilydd mewn grwpiau bach neu fawr i weithio neu fwyta'n cinio.
- Wedi cynyddu'r nifer o blanhigion yn fy swyddfa.

Mae fy nhîm hefyd wedi cydweithio eleni i nodi a gweithredu mentrau llesiant sy'n bwysig iddynt hwy. Maent yn rhannu gweithrediadau ymysg ei gilydd ac yn cynnal cyfarfod 'cwtsh llesiant' yn chwarterol i adolygu cynnydd. Gan adeiladu ar weithredu yn fy mlwyddyn gyntaf, mae gennym yn awr ystod o fentrau sy'n ffynnu a hynny wedi deillio o gymhelliad y tîm staff. Mae'r gweithredu hwn yn cynnwys:

- Trefnu ar y cyd i fynd i redeg neu gerdded bob wythnos yn ystod yr awr ginio
- Mynychu dosbarth yoga'n gynnar yn y bore bob wythnos, a'r rhai sy'n cymryd rhan yn talu
- Amser ffrwythau – archebu ffrwythau'n ddyddiol fel ein bod yn cael ein 'pump bob dydd'
- Trefnwyd sesiwn hyfforddi 'mindfulness'
- Arweiniwyd wythnos o weithgareddau gan un aelod o staff adeg Wythnos Iechyd Meddwl



*"Yr hyn sy'n ysbrydoli ein gweithgaredd llesiant fel tîm yw ein 'cwtsh llesiant' chwarterol. Rydyn ni'n casglu at ein gilydd fel cydweithwyr gan daflu syniadau da at ein gilydd. Rydyn ni'n lledaenu'r cyfrifoldeb am drefnu'r gweithgareddau rhyngom a does neb yn poeni os yr ydym yn rhoi cynnig arni unwaith, ac wedyn yn rhoi'r gorau iddi. Mae'n ymdrech gydweithredol ac yn un sy'n cynorthwyo nifer o nodau llesiant, yn cynnwys Cymru iachach, Cymru gydnerth, Cymru lewyrchus a Chymru â diwylliant bywiog."*

**Amanda Evans,**
Pennaeth Adnoddau Dynol

*"Mae'n wych i fedru bwyta byrbryd iach rhwng cyfarfodydd neu gael cyfle i gadw mewn cysylltiad â phobl. Rwyf yn gwerthfawrogi hyn yn arbennig oherwydd nid wyf bob amser yn bwyta digon o ffrwythau gartref - mae gen i ddau blentyn a stumogau mawr i'w llenwi a nhw sydd fel arfer yn cael y flaenoriaeth! Rwy'n gwerthfawrogi'r modd y mae fy nghyflogydd yn creu camau ymarferol i gyfrannu tuag at weithle iachach."*

**Cathy Madge,**
Gwneuthurwr Newid Arweiniol

*"Mae'r clwb rhedeg yn gyfle i fondio gyda fy nghydweithwyr wrth i ni gynorthwyo ac annog ein gilydd, waeth beth yw ein hoed a'n gallu, a hyn yn ein cryfhau fel tîm ac yn adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd. Mae'r clwb wedi fy ysgogi i wneud mwy o ymarfer corff a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Rwyf yn awr yn cerdded neu'n rhedeg i'r gwaith yn fwy aml na defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan helpu i gadw lefelau carbon yn isel gan gyfrannu at Gymru lewyrchus, iachach sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang"*

**Mari Gwyn,**
Swyddog Gwasanaethau Cymorth








*"Un o'r awgrymiadau o'r cwtsh llesiant oedd ffurfio côr. Yn ogystal â bod yn ddigwyddiad cymdeithasol, roedd yn amlwg ein bod i gyd yn edrych ymlaen at ein sesiwn canu; teimlai pawb ei fod yn helpu i leihau stres, yn ymarfer da i'r ysgyfaint ac yn lot o sbri. Arweiniodd hyn at berfformiad cyhoeddus yn Heol y Santes Fair i godi arian i elusennau pobl ddigartref."*

**Susan Crutcher,**
Rheolydd Swyddfa

*"Mae yoga'n brofiad diddorol sy'n cymylu'r ffin rhwng gwaith ac ymarfer corff. Yn sicr mae ymarfer yoga yn y swyddfa wedi gwella fy llesiant corfforol a meddyliol"*

**Sang-Jin Park,**
Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol

## Cymru fwy cyfartal

Mae gweithio 'unrhyw amser unrhyw le' nid yn unig yn helpu i gynorthwyo llesiant cyffredinol fy nhîm ond mae hefyd yn llesol i rieni sy'n gweithio, drwy eu helpu i gyflawni cyfrifoldebau gwaith a gofal. Ac eleni gwnaeth y dyfarniad cyflog staff roi cynnydd mwy i staff oedd yn derbyn cyflog llai – 2.25% i staff oedd yn ennill llai na £36,000 a 1.25% i staff oedd yn ennill dros £38,000.

Gan weithio gyda **Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall** yn ogystal â manteisio ar arbenigedd ein partner a secondiwyd o Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Iechyd Cyhoeddus Cymru, rwyf yn ymroi i wella'r modd yr ydym yn cyfathrebu, ac eleni rwyf wedi defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a 'Hawdd ei Ddeall' wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Cyflwynais siop gonestrwydd Masnach Deg i'r swyddfa i helpu staff ac ymwelwyr i ddysgu am yr amrywiaeth eang o nwyddau sydd ar gael, ac i gynorthwyo Masnach Deg lleol a chwmni budd cymunedol moesegol, **Fair Do's/Siopa Teg.** Mae staff ac ymwelwyr yn medru prynu eitemau megis siocled, byrbrydau a diodydd, a hyd yn oed anrhegion a wnaed â llaw a chardiau cyfarch, ar sail prynu neu ddychwelyd, yn fisol.

Mae fy swyddfa'n cyfrannu ar gyfartaledd £60 y mis i'r siop, sydd nid yn unig yn cynorthwyo busnes moesegol lleol, ond hefyd ffermwyr rhyngwladol yr ydym yn dibynnu arnynt.

Adeg Nadolig, cyfrannodd staff i'r 'Fair and Ehical Advent Box' a bob dydd roedd chwaraewr yn tynnu un o'r eitemau oedd wedi eu gosod o dan ein coeden Nadolig o ffynhonnell leol – wedi ei hardystio gan Gyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd. Ar bob eitem roedd neges am y cynnyrch, y cynhyrchydd a'r wlad y daeth ohoni fel y gallai staff gysylltu â'r person wrth wraidd y cynnyrch a dysgu wrth gael sbri!














Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Ysgrifennodd y gantores/cyfansoddwraig dalentog Kizzy Crawford, gân Gymraeg i ni.

Fel tîm rydyn ni'n mwynhau diwylliant iach dwyieithog, gyda naw aelod o'n staff (28%) yn hyfedr neu'n rhugl yn y Gymraeg, a deuddeg o gydweithwyr yn dysgu. Rwyf wedi rhoi ar waith wersi wythnosol yn y Gymraeg ar gyfer dechreuwyr a siaradwyr uwch sy'n dymuno gwella eu hyder a lefel eu sgiliau.



*"Mae'r iaith Gymraeg yn rhan mor fawr o'n diwylliant yn y gweithle. Nid wyf erioed wedi gweithio mewn unrhyw fan lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i'r fath raddau ac yn cael ei gwerthfawrogi. Mae'n rhan o DNA'r sefydliad."*

**Tanya Nash,**
Pennaeth Perfformiad

## Cymru o gymunedau cydlynus

Mae tyfu a dysgu'n egwyddor sylfaenol yn ein siwrnai tuag at weithredu yn ogystal â thrafod. Rwyf wedi parhau i annog ein sesiynau Ciniawa a Dysgu eleni, gan glywed storïau gwerthfawr oddi wrth bobl a sefydliadau yn y gymuned, fel fy mod yn cadw mewn cysylltiad â phobl sy'n cael eu heffeithio gan, ac sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Gan gydnabod problem digartrefedd yng nghanol dinas Caerdydd, ac yn fwy penodol, clywed storïau trist oddi wrth y bobl sy'n cysgu ger ein drws, mae fy nhîm wedi dewis codi arian i'w rhoi i elusennau digartrefedd gan rannu eu myfyrdod ar y mater hwn mewn blog.

*"Mae ein brwdfrydedd a'n hymrwymiad i'r Ddeddf wedi eu gwreiddio yn ein sesiynau ciniawa a dysgu cyson lle rydyn ni'n gwahodd pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru fel y gallwn ddysgu'n uniongyrchol am eu profiad. Mae rhai o'r gwesteion wedi siarad â ni am y gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael, profiadau a phersbectifau ffoaduriaid sy'n cyrraedd Cymru a gwasanaethau a gynigir i deuluoedd sydd wedi profi trais domestig. Drwy fynychu'r sesiynau gonest agored hyn, mae'r hyn sy'n bwysig i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn dod yn fwy amlwg i ni."*

**Susan Crutcher,**
Rheolydd Swyddfa

Mae gan fy nhîm a minnau lawer o syniadau i herio'n hunain ymhellach er mwyn sicrhau bod y pum dull o weithio'n tanategu'r hyn yr ydym yn ei wneud ac yn cyfrannu i'r nodau llesiant.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar leihau allyriadau drwy edrych ar y modd yr ydym yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Byddwn yn parhau i gynorthwyo busnesau lleol a dod o hyd i ddulliau creadigol o adlewyrchu'r diwylliant Cymreig a'r iaith.

**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Cenedlaethol Dyfodol
Gorffennaf 2018



# Effaith:

- **Newid ein dulliau o weithredu**
- **Rhoi ar waith gynnwys polisi mewnol ac ymrwymiadau sy'n adlewyrchu'r Ddeddf**
- **Dylanwadu ar newid yn ymddygiad ymarferol eraill**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Diweddariad ar argymhellion

**a wnaed yn 2016-2017**

Yn adroddiad blynyddol y flwyddyn ddiwethaf, gwneuthum nifer o argymhellion i sefydliadau eraill yr wyf wedi ymrwymo i adrodd arnynt eto eleni.

## Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol

**1. Argymhelliad:** Pan fydd Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r Comisiwn Seilwaith sydd newydd gael ei greu gael ei ddefnyddio i gynorthwyo'u gwaith.

Cyhoeddais fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau yn Rhagfyr 2017, yn dilyn adborth oddi wrth ystod o randdeiliaid a gyfrannodd tuag at ei ddatblygiad. Fel yr amlinellir uchod yn fy adroddiad perfformiad, rwyf wedi rhannu hwn gyda phob corff cyhoeddus ac rwyf yn eu hannog i'w ddefnyddio pan fyddant yn datblygu prosiectau seilwaith mawr – er enghraifft mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ei ddefnyddio fel rhan o'r trafodaethau ar yr Wylfa Newydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ei gyhoeddi fel rhan o'u cyfarwyddyd newydd mewn cysylltiad â'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) newydd.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn y broses o benodi cadeirydd ac aelodau Comisiwn Seilwaith Cymru a phan fydd hwn yn ei le (i ddigwydd ym Mehefin/Gorffennaf 2018) byddaf yn gweithio gyda hwynt i sicrhau bod fy fframwaith yn cynorthwyo'u gwaith.

Mae'r fframwaith hwn yn awr yn sail i gyfres o gynhyrchion wedi ei anelu at gynorthwyo pobl i sicrhau eu bod yn defnyddio'r Ddeddf yn iawn. Rwyf wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyd-gynhyrchu fersiwn ar gyfer dylunio gwasanaeth ac ar hyn o bryd rwyf yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, i gyd-gynhyrchu fersiwn addas ar gyfer craffu arno gan fyrddau a phwyllgorau

## Bargeinion Dinesig

**2. Argymhelliad:** Wrth i fargeinion dinesig a rhaglenni datblygu economaidd eraill symud rhagddynt ar draws Cymru, rhaid i awdurdodau lleol sy'n ymgyfrannu, a Llywodraeth Cymru eu hunain ddangos sut y maent yn defnyddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig y modd y maent yn adlewyrchu'r diffiniad statudol o Gymru lewyrchus, yn ogystal â chyflwyno'r achos dros fabwysiadu'r fframwaith mwy blaengar hwn i Lywodraeth y DU.

Rwyf wedi cyflwyno Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i helpu'r modd y maent yn defnyddio'r Ddeddf wrth ystyried prosiectau. Fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, mae Cyngor Caerfyrddin wedi cydweithio gyda'u partneriaid i ddefnyddio'r fframwaith hwn i'w helpu i gynllunio Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli. Dywedodd aelodau'r tîm *"Gall ymgysylltu mewn trafodaeth ar genedlaethau'r dyfodol yng nghyfnod ffurfiol prosiect facsimeiddio effaith a gwireddu manteision. Gall hefyd helpu i ddiogelu'r prosiect ar gyfer y dyfodol drwy feddwl am y gydberthynas rhwng llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol."*

Rwyf wedi cynghori Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar sut i ddangos eu bod yn defnyddio'r Ddeddf wrth wneud penderfyniadau. Fel canlyniad mae'r Cabinet wedi cytuno ar gynllun busnes sy'n adlewyrchu eu dyletswyddau ac yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau arfaethedig ddangos sut mae'r pum dull o weithio'n cael eu defnyddio a sut y maent yn cyfrannu i'r saith nod llesiant cenedlaethol er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

Mae model busnes chwe-achos ehangach yn cael ei ddatblygu ar gyfer cynlluniau arfaethedig, sy'n cynnwys achos llesiant. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn ofynnol i'r prosiectau arfaethedig ddangos sut y maent yn defnyddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Ffordd Liniaru'r M4

**3. Argymhelliad:** Dylai'r Llywodraeth adolygu'r broses o wneud penderfyniadau ar yr M4 gyda'r nod o sicrhau bod penderfyniadau ar seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na'u hôl-osod ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

Cyflwynais dystiolaeth i'r Ymchwiliad Cyhoeddus ar goridor yr M4 o gwmpas Casnewydd yn Chwefror 2017 a chyflwynais lythyr wedi hynny i'r Arolygydd ym Medi 2017 yn amlinellu pryderon am y dehongliad o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan dîm cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Rwy'n dal i bryderi am y modd y maent wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i drwytho'u proses o wneud penderfyniadau, ac yn awr gyda'r ymchwiliad wedi ei gwblhau rydyn ni yn y broses o ystyried a ddylem weithredu ymhellach.

## Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)

**4. Argymhelliad:** Dylai cyfarwyddyd diwygiedig WelTAG integreiddio'n llwyr y ddyletswydd i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio: yr hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio ac ymgyfrannu) yn ei ddylunio a'i gynnwys, a'r ddyletswydd i facsimeiddio cyfraniad i'r saith nod llesiant. Byddwn yn parhau i gynorthwyo swyddogion gyda datblygiad y gwaith hwn.

Rydyn ni wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddiweddaru'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, gan sicrhau bod y Ddeddf yn rhan annatod o'r Canllawiau newydd yn hytrach na chael ei chyflwyno fel nodyn atodol. Mae ystyriaeth o'r pum dull o weithio'n rhedeg drwy'r holl fodel busnes pum-achos, ac anogir sefydliadau i integreiddio cynlluniau posibl ynghyd â'u hamcanion llesiant i facsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant. Rydyn ni yn y broses o gytuno ar gynllun gyda Llywodraeth Cymru i fonitro ac asesu effeithiolrwydd y canllawiau newydd, yn cynnwys ein Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ni ein hunain ar gyfer prosiectau. Mae gohebiaeth gyhoeddus yn fewnwelediad defnyddiol i'r modd y mae hyn yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad a byddaf yn cadw llygad ar y modd y mae WelTAG yn cael ei ddefnyddio.

## Metro De Cymru

**5. Argymhelliad:** Mae'r gwaith hyd yn hyn yn addawol ond rhaid hefyd sicrhau ei fod yn cydfynd ag ymrwymiad clir y llywodraeth i sicrhau system fetro ddi-garbon dros amser sy'n rhaid ei hymgorffori yn y gofynion caffael ar gyfer y cynllun hwn.

Mae trafodaethau positif ac adeiladol wedi parhau gyda Thrafnidiaeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf wrth iddynt symud rhagddynt gyda'r broses ddeialog gystadleuol. Rwyf wedi bod yn gwthio i weld a fedr y Metro newydd a'r fasnachfraint rheilffordd ddatblygu swyddi lleol, sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd cadwyni cyflenwi, ennyn ymgyfraniad cymunedau lleol a gweithredu'n bositif ar faterion amgylcheddol. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru a KeolisAmey i sicrhau bod dyheadau'r Ddeddf yn ystyriaeth allweddol wrth gyflawni'r fasnachfraint rheilffordd a'r Metro newydd ar gyfer de ddwyrain Cymru.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Y Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio

**6. Argymhelliad:** Wrth ddatblygu eu hymagwedd tuag at gyllidebu carbon mae'n rhaid i'r Llywodraeth ddangos bod eu hymagwedd yn ystyried nid yn unig fecanwaith cynhyrchu cyllideb garbon ond hefyd yn adnabod ymagwedd tuag at ddatgarboneiddio sy'n macsimeiddio effeithiau positif ar draws yr holl nodau llesiant. Rhaid i'r Llywodraeth hefyd ddangos sut mae eu cynlluniau gwariant ar gyfer cyllid y flwyddyn nesaf yn adlewyrchu'r ymrwymiadau hyn sy'n ymddangos.

Rwyf wedi herio Llywodraeth Cymru i ddangos yn glir ymrwymiad y llywodraeth drwyddi draw i leihau carbon. Rwyf wedi rhoi cymorth i dîm datgarboneiddio Llywodraeth Cymru yn benodol ar gynigion ar gyfer Cynllun Cyflawni Carbon Isel a fydd yn cyfrannu i'r saith nod llesiant. Mae hyn wedi arwain at sicrhau ymrwymiad polisi oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, a ddywedodd mai ei huchelgais oedd gweld y sector cyhoeddus yn dod yn garbon niwtral erbyn 2030. Byddaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ddod i benderfyniad ar y modd y gellir, mewn gwirionedd, gyflawni hyn.

## Cymorth i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus

**7. Argymhelliad:** Dylai fod yn ofynnol i bob rhaglen a ariennir gan y Llywodraeth, sy'n ffocysu ar ddulliau o ddatblygu arweinyddiaeth ar gyfer y sector cyhoeddus, gael cymorth i weithredu'r Ddeddf fel rhan ganolog o'u cylch gwaith neu griteria'r rhaglen.

Rydyn ni wedi datblygu cysylltiadau ardderchog gyda Chyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, gan gydweithio i ddylanwadu ar newid trefn ac ymddygiad yn y sector cyhoeddus drwy ddigwyddiadau a dargedwyd, cyfryngau cymdeithasol, seminarau a gweminarau mewn meysydd megis craffu, caffael, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a risg.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu partneriaeth gydag Academi Cymru er mwyn datblygu ar y cyd, ddealltwriaeth o'n gwaith, a darganfod cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a gweithredu dulliau o weithio ac arfer diddorol.
Ar raddfa ehangach na hyn, rydyn ni'n dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddynt ail-werthuso'u perthynas gyda chyrff cyhoeddus a rhaglenni eraill arwyddocaol ac adnoddau, i sicrhau bod ymagwedd fwy strategol a chydlynol yn cael ei mabwysiadu i gyflawni eu gofynion hwy eu hunain o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys adolygu llythyron cylch gwaith er mwyn ystyried datganiad cliriach o ddisgwyliadau mewn perthynas â'r Ddeddf.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Beth fyddwn ni'n ei wneud
## yn y 12 mis nesaf

Gan adeiladu ar fy ngwaith yn fy nwy flynedd gyntaf, byddaf yn parhau i sbarduno'r gweithredu a nodir yn fy nghynllun strategol gan roi pwyslais ar:

- **Barhau i roi cyngor pellach** a chymorth ar brosiectau penodol a dyfalbarhau gyda fy nghyngor perthnasol i drafnidiaeth, datgarboneiddio a chyllidebu.
- **Ffocysu fy ngwaith yn y drydedd flwyddyn** ar roi enghreifftiau o lwyddiannau cyflym drwy fy rhaglen y Gallu i Greu a datblygu ymhellach y Labordai Byw yr wyf ar hyn o bryd yn eu cynnal gyda chyrff cyhoeddus.
- **Monitro ac asesu amcanion llesiant** (pan fydd y set gyntaf o adroddiadau blynyddol wedi eu cyhoeddi). Bydd cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn a gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth i mi symud i mewn i fy nhrydedd flwyddyn, byddaf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ddangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud ac yn mabwysiadu newidiadau syml ledled Cymru, yn ogystal â mabwysiadu ymagweddau newydd a symud tuag at newidiadau trawsffurfiol.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwrpas 1:

## Amlygu'r materion mawr, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Byddaf yn ystyried ymyriadau pellach ar yr M4, yn cynnwys gweithio gydag eraill i archwilio dulliau amgen o wario'r arian a cheisio dylanwadu ar Grant Arloesi Tai a'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy, dau gyfle pwysig a fydd yn penderfynu polisi tai ac adeiladu mewn blynyddoedd i ddod.

Byddaf yn parhau i gyfrannu at yr Hwb Cymorth ACE gan ffocysu ar ddatblygu gweledigaeth - er enghraifft beth fyddai 'da' yn ei olygu yn nhermau atal/lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Rwyf yn cynllunio digwyddiad ar y cyd â'r CBI ar sgiliau'r dyfodol ac effaith awtomeiddio, a byddaf yn cyfrannu i adolygiad y Llywodraeth ar awtomeiddio.

Yn 2017-2018 roedd mater trwyddedu amgylcheddol yn elfen gyffredin a'r flwyddyn nesaf byddaf yn adrodd ar fy asesiad o'r modd y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r rheoliadau hyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf yn bwriadu adolygu gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddiwedd blwyddyn, yn cynnwys sut mae hyfforddiant ar y Ddeddf yn cael ei gyflwyno i staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddaf yn parhau i alluogi unigolion a grwpiau cymunedol i ddeall sut y gallant ddefnyddio'r Ddeddf ac yn monitro'r materion y tynnir fy sylw atynt i ganfod a gweithredu ar faterion systemig.

Pwrpas 2:

## Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor y pethau y maent yn ei wneud

Rwyf bob amser wedi dweud mai Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw herio gwasanaethau cyhoeddus i feddwl am yr effaith hirdymor. Byddaf yn cynyddu capasiti fy nhîm i fy hunan parthed tueddiadau'r dyfodol, ac i'r perwyl hwn, rwyf yn archwilio partneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y dyfodol a rhagweledIad.

Byddaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i benderfynu ar y diffiniad a fyddant hwy yn ei ddefnyddio ar gyfer atal, a byddaf yn monitro'r gyllideb parthed y symudiad tuag at wariant ataliol.

Byddaf hefyd yn ymgymryd ag adolygiad o adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus i fonitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Byddaf yn gweithio gydag Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd i gymryd un o fy meysydd blaenoriaeth, sgiliau ar gyfer y dyfodol, ac edrych ar y camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd yn y maes hwn a rhoi cyngor ar arfer da.

Byddaf hefyd yn parhau i roi cyngor a chymorth i:

- **Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** – gan gadw llygad ar Gabinet y Fargen Ddinesig a rhoi hyfforddiant i Fwrdd y Rhaglen.
- **Metro De Cymru** – gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a'r gweithredwr newydd i sicrhau bod yna dargedau clir ar gyfer system fetro carbon isel.
- **WelTAG** – monitro ac asesu effeithiolrwydd y canllawiau newydd i asesu ei effaith a chofnodi i ba raddau y mae'n arwain at benderfyniadau gwahanol.
- **Cynllunio Defnydd Tir** – cynyddu ein capasiti/ arbenigedd i helpu ein mewnbwn i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Llawlyfr Hyfforddi Datblygu Lleol.
- **Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol** – byddaf yn cadw llygad ar hwn a byddaf hefyd yn cyd-gynhyrchu fersiwn sy'n addas ar gyfer craffu arno gan fyrddau a phwyllgorau.

Pwrpas 3:

## Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen

Bydd y **Gallu i Greu** yn ddarn o waith pwysig. Bydd y casgliadau a'r arfer da a nodir drwy'r rhaglen hon yn tanategu fy nghyngor a fy nghymorth i gyrff cyhoeddus. Rwy'n gobeithio rhannu hyn, ynghyd â dulliau o weithio a chysylltiadau defnyddiol, gyda chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Bydd fy nhîm yn treialu'r arfer da hwn gydag ystod o sefydliadau i ddeall sut yr ydym yn helpu arfer da i 'deithio' a pha rwystrau sy'n atal hynny rhag digwydd.

Yn seiliedig ar brototeipio **Labordy Byw** Betsi Cadwaladr byddaf yn datblygu model peilot ar gyfer treialu pellach. Byddaf yn dwyn i mewn gapasiti ychwanegol i archwilio sut y gallaf ddwyn y **Cwmwl o Arloeswyr** yn ei flaen.

.

### *Ydych chi eisiau ymgyfrannu?*

*Hoffwn glywed oddi wrth grwpiau ac unigolion, a gweithio ar unrhyw un o'r materion uchod gyda'r rhai â ganddynt weledigaeth, profiad, syniadau, pryderon neu brofiadau bywyd. Cysylltwch drwy gyfrwng e-bost, trydar, llythyr neu ffôn os yr ydych yn dymuno darganfod mwy ac yn awyddus i ymgyfrannu. Am ragor o wybodaeth, cofrestrwch i dderbyn fy mwletin yn rheolaidd.*

Pwrpas 4:

## Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill.

Mae gan fy nhîm a minnau lawer o syniadau ar gyfer herio ein hunain ymhellach i sicrhau **bod y pum dull o weithio'n tanategu'r hyn yr ydym yn ei wneud ac yn cyfrannu i'r nodau llesiant.**

Byddwn yn parhau i weithredu datblygu cynaliadwy yn y swyddfa, yn darganfod dulliau o gynorthwyo busnesau lleol a mentrau cymunedol, ac yn edrych am ddulliau creadigol o adlewyrchu diwylliant Cymreig a'r iaith drwyddi draw yn ein gwaith. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r defnydd o ynni a darganfod dulliau o leihau allyriadau ymhellach, yn arbennig drwy'r modd yr ydym yn teithio i'r gwaith ac ar ran y gwaith.

Mae nifer o aelodau ein tîm yn wirfoddolwyr brwd yn y gymuned ac rwyf eisiau cynorthwyo a harneisio eu brwdfrydedd dros y gweithgaredd hwn yn 2018-2019. Rwyf ar hyn o bryd yn ystyried gweithredu Cynllun Gwirfoddoli lle mae pob aelod o'r tîm yn cael cyfnod byr o amser i gynorthwyo menter gymunedol sy'n cynyddu un o'r nodau llesiant. Rwyf yn gweld hyn fel datblygiad personol gwerthfawr i bobl yn ein tîm ac yn ffynhonnell o wybodaeth a phrofiad y gallant ei dwyn yn ôl a'u rhannu gyda chydweithwyr. Gwelaf gyfranogi mewn rhwydweithiau megis Busnes yn y Gymuned fel rhan bwysig o ddysgu a rhannu arfer da yn y cyswllt hwn.

Byddaf yn parhau i sicrhau bod fy ngwaith yn manteisio ar, ac yn adlewyrchu profiadau bywyd pobl, a bod yna gyfleoedd i randdeiliaid ymgyfrannu ym meysydd fy ngwaith, naill ai drwy raglenni megis y Gallu i Greu neu flaenoriaethau fy mholisi.



**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethol Dyfodol Cymru
Gorffennaf 5 2018

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol



## Adroddiad atebolrwydd

Yn yr adran hon, rwy'n adrodd ar ofynion atebolrwydd allweddol i Weinidogion Cymru ar ffurf debyg i adroddiad Cyfarwyddwyr sy'n cael ei baratoi gan gwmni preifat. Mae'r gofynion adrodd hyn wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Alan Morris yw cadeirydd fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac mae modd darllen am ei safbwynt ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu yn fy swyddfa ar ddiwedd ein hail flwyddyn weithredol yma.

Mae'n ofynnol i'm hadroddiad atebolrwydd gael tair adran: adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, Adroddiad Taliadau a Staffio a thystysgrif archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am adolygu fy adroddiad atebolrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â gwybodaeth arall yn fy natganiadau ariannol a rhoi barn ar y datgeliadau canlynol yn yr adroddiad hwn:

- Rheoleidd-dra gwariant
- Datgeliadau tâl a phensiwn GTGAP ar fy nghyfer i ac aelodau fy uwch dîm rheoli
- Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr, os yn berthnasol
- Taliadau colli swydd, os yn berthnasol
- Pecynnau gadael, os yn berthnasol
- Datgeliadau cyflog teg
- Dadansoddiad o niferoedd a chostau staff

### Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu a phwy sy'n gyfrifol am ac yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn fy swyddfa wedi'i nodi ar fy ngwefan ac yn fy Natganiad Llywodraethu. Hefyd, mae'n ofynnol i mi ddatgelu unrhyw fuddiannau arwyddocaol sydd gennyf a fy uwch dîm rheoli a allai wrthdaro â'n cyfrifoldebau rheoli. Mae modd gweld cofrestr cryno o fuddiannau ar gyfer fy uwch dîm rheoli yma. Rheolwyd unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a gododd yn ystod y flwyddyn yn unol â'm polisi gwrthdaro buddiannau.

### Fformat y cyfrifon

Paratowyd fy natganiadau ariannol yn unol â Pharagraff 20 Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac unrhyw Gyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Daeth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fodolaeth ar 1 Chwefror 2016 gyda'm penodiad yn Gomisiynydd cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018 ac yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro adnoddau fy swyddfa. Paratowyd y datganiadau ariannol sy'n dilyn yr adroddiad hwn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiedir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Cyllido

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond mae'n cael ei ariannu ganddi. Yn 2017-2018, derbyniwyd £1.48 miliwn i ariannu gweithgareddau (derbyniwyd £1.556 miliwn yn y cyfnod cyfrifo blaenorol).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

## Canlyniadau ar gyfer y cyfnod

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant, am y flwyddyn, o £1.433 miliwn, sef cynnydd o 30% ar y cyfnod blaenorol (£1.102 miliwn am y 14 mis hyd at 31.3.17). Cynyddodd balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ychydig i £501,000 (£454,000 ar 31.3.17). Mae £316,000 o'r balans hwn wedi'i ymrwymo i ariannu'r gwaith sy'n parhau ar fy rhaglen Y Gallu i Greu sy'n gosod sylfeini mewn partneriaeth â chwe phartner o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Daw'r Rhaglen hon i ben yn 2019-20.

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw ar lefel resymol hefyd ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau statudol o fewn y Ddeddf a rhag ofn i unrhyw faterion brys a phwysig sydd heb eu cynllunio gael eu dwyn i'm sylw. Mae costau ychwanegol o'r fath yn debygol o fod yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol.

## Cwynion

Ni dderbyniodd fy swyddfa unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod.

## Datgelu gwybodaeth i'r archwilwyr

Cyn belled ag y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni ac mae fy nhîm wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yn ystod y cyfnod, ni thalwyd fy archwilwyr am unrhyw waith ac eithrio archwilio.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail yr hyn a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac o'i incwm a'i wariant, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth', a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol'.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn rhinwedd paragraff 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
5 Gorffennaf 2018

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Pwrpas

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol a system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi cyflawni fy mholisïau, nodau ac amcanion, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dilyn Canllawiau Trysorlys EM. Mae'n nodi'r strwythurau llywodraethu ar gyfer fy swyddfa, a'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol a rheoli risg a oedd ar waith neu'n cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Mae'r systemau sydd ar waith ac a amlinellir yn y datganiad hwn wedi'u cynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach nag i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall y drefn felly roi sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Gan fod gwaith fy swyddfa'n torri tir newydd, deuthum i'r casgliad bod angen mabwysiadu "archwaeth" tuag at risg ar gyfer llawer o'm gwaith sy'n edrych tuag allan oherwydd na fyddai agwedd draddodiadol fwy minimalaidd neu ofalus, yn fy marn i, yn llwyddo i ddod â'r newid er gwell y sefydlwyd fy swyddfa i'w gyflawni. Esbonnir hyn ymhellach isod.

## Natur fy swyddfa ac atebolrwydd

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel corfforaeth undyn. Mae hyn yn golygu mai deilydd y swydd sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau) ac nid oes 'bwrdd' traddodiadol sy'n gyfrifol yn gorfforaethol am berfformiad a llywodraethu'r sefydliad. Rwy'n annibynnol ar weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2015, yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weithredoedd fy swyddfa, ac i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn benodol ar gyfer materion fel y trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Panel Ymgynghori

Sefydlodd Deddf 2015 banel i roi cyngor i mi ynglŷn â gweithredu fy swyddogaethau. Aelodau'r panel ymgynghori yw-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Comisiynydd Plant Cymru;** | **Comisiynydd y Gymraeg;** | **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;** | **Yr aelod o staff Llywodraeth Cymru a benodwyd gan Weinidogion Cymru yn Brif Swyddog Meddygol dros Gymru;** |
| **Cadeirydd y corff Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru neu aelod anweithredol arall o'r corff hwnnw a ddewisir gan y cadeirydd;** | **Swyddog gyda'r corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru – yn dwyn yr enw Wales TUC Cymru, a enwebir gan y corff hwnnw;** | **Cadeirydd, cyfarwyddwr neu swyddog cyffelyb y gall Gweinidogion Cymru ei benodi/phenodi o gorff sy'n cynrychioli pobl sy'n cynnal busnes;** | **Person arall y gall Gweinidogion Cymru ei benodi/phenodi.** |

Cyfarfu'r panel unwaith yn 2017-2018 i gynghori a thrafod fy Adroddiad Blynyddol cyntaf ac yn fy ail flwyddyn rwyf wedi tynnu ar brofiad aelodau unigol i lywio rhaglen waith fy sefydliad.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rwyf wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PASR) i ddarparu cyngor adeiladol ac i herio ar faterion llywodraethu, rheolaeth ariannol ac archwilio, a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol - gan gynnwys adnabod a rheoli risg. Aelodau'r Pwyllgor yw:

- **Alan Morris,** Archwilydd wedi ymddeol sy'n gefnogwr brwd i ddatblygu cynaliadwy yw cadeirydd y Pwyllgor;
- **Jocelyn Davies**, cyn AC Plaid Cymru a chyn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a chadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad, aelod o Banel Ymgynghorol Comisiynydd Plant Cymru a Chadeirydd eu PASR, ymddiriedolwr Gofal a Thrwsio Cymru, aelod bwrdd anweithredol o awdurdod Refeniw Cymru;
- **John Dwight,** Archwilydd wedi ymddeol, ymddiriedolwr a thrysorydd anrhydeddus Gofal Hosbis y Ddinas ac aelod o bwyllgor gweithredol cangen CIPFA-Cymru;
- **Gareth Madge,** cyn Brif Swyddog a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol gyda Heddlu De Cymru, aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr ACPO, Cadeirydd Cymdeithas Cyfreithwyr yr Heddlu; a
- **Jonathan Morgan,** cyn AC Ceidwadol a chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad ac ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Practice Solutions. Cadeirydd PASR yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae pob un ohonynt yn annibynnol ac nid ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd. Roedd gan bob aelod record presenoldeb o 100% yn y pedwar cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2017-2018.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi rhoi adroddiad i mi yn cwmpasu'r cyfnod o 15 mis rhwng ei sefydlu a 31 Mawrth 2018 ac ynddo, mae'n dod i'r casgliad y gall y Pwyllgor roi sicrwydd imi fod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a sicrwydd risg sydd ar waith yn briodol ac wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod 2017-2018, er eu bod yn dal i esblygu.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Uwch dîm rheoli

Fe wnes i ailstrwythuro fy sefydliad yn ystod y flwyddyn ac ar 31 Mawrth 2018 aelodau fy uwch dîm rheoli (UDRh) yw fi fy hun a thri chyfarwyddwr. Rydym yn cyfarfod yn fisol, o leiaf, gydag aelodau eraill o'm tîm ehangach i drafod cynnydd a materion gweithredol a strategol. Mae aelodau'r UDRh yn gyfrifol ac yn atebol imi am weithredu'r cynllun strategol sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer fy nhymor o saith mlynedd yn y swydd. Rwy'n cymryd penderfyniadau allweddol ar ôl trafod gydag aelodau'r UDRh. Rwyf hefyd wedi rhoi awdurdod i rai aelodau staff awdurdodi trafodion ariannol.

## Datblygu fframwaith llywodraethu

Datblygwyd fy fframwaith llywodraethu i raddau helaeth yn ystod y cyfnod cyfrifo cyntaf, oedd yn cwmpasu'r 14 mis hyd at 31 Mawrth 2017. Yn ystod 2017-2018, mae polisïau cychwynnol fy swyddfa wedi'u diweddaru yn sgil ailstrwythuro cyfrifoldebau dros reoli pobl a phrosiectau yn fy nhîm ac i adlewyrchu datblygiadau yn ein harferion gweithio wrth i ni barhau i ymgorffori'r pum ffordd o weithio a argymhellir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein trefniadau gweithio dydd i ddydd. Mae Archwiliad Mewnol wedi bod ar waith trwy gydol y flwyddyn ac mae wedi cyflawni rhaglen waith lawn ac mae'r PASR wedi bod yn gwbl weithredol.

Mae fy nghynllun strategol yn nodi'r hyn yr wyf yn gobeithio ei gyflawni o ran newid er gwell i bobl Cymru a sut rwy'n bwriadu mynd ati i wneud hynny mewn cydweithrediad â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'n ddogfen uchelgeisiol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus herio'r ffyrdd y maent yn gweithio ac addasu hen arferion er mwyn cyflawni'r hyn oedd gan Lywodraeth Cymru mewn golwg pan benderfynodd gyflwyno'r mesur a ddaeth yn Ddeddf yn 2015. Mae'r cynllun hwn yn ddeinamig ac fe'i haddesir yn ôl yr angen er mwyn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod fy nhymor yn y swydd.

## Ymagwedd at reoli risg

Mae fy ymagwedd tuag at reoli risg yn gyson â'm cynllun strategol ac mae'n unol â Deddf 2015 a'r hyn y bwriedir ei gyflawni trwyddi. Mae fy mholisi rheoli risg, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ei gwneud hi'n glir fy mod am greu a chynnal amgylchedd a fydd yn caniatáu i reolaeth effeithiol ar risg ffynnu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn derbyn gwybodaeth lawn.

Mae'r polisi'n ei gwneud hi'n glir nad wyf yn gyndyn i gymryd risgiau. I'r gwrthwyneb, er mwyn cyflawni'r amcanion yn fy nghynllun strategol a'r hyn a ddisgwylir, bydd angen ymagwedd agored neu archwaeth tuag at risg nad yw'n norm i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer fy ngwaith sy'n edrych tuag allan gyda chyrff cyhoeddus eraill yw'r unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fe allai peidio â gwneud hynny olygu y byddwn yn methu â manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn codi a byddai risg uchel o fethu â chyflawni'r amcanion heriol yr wyf wedi'u gosod yn y cynllun strategol a'r hyn y mae fy rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl gennyf. Yn yr un modd, rwyf wedi penderfynu bod angen i'm sefydliad weithredu geiriau'r Ddeddf a bod yn agored ac arloesol a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, ni fydd risgiau o'r fath yn cael eu cymryd yn fyrbwyll. Byddant yn cael eu rheoli'n briodol ac yn ofalus gyda'r nod o gyflawni cymaint â phosibl yn llwyddiannus.

Rwyf wedi cymryd ymagwedd fwy traddodiadol a gofalus tuag at fy mhrosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth.

Yn ystod 2017-2018 rwyf wedi diweddaru fy nghofrestr risg strategol mewn ymgynghoriad â staff a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hwyluswyd hyn gan gyfarfod o'r holl staff a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018. Nodwyd risgiau priodol yn y gofrestr risgiau strategol mewn perthynas â'm dyletswyddau statudol a'r rôl y bydd fy sefydliad yn ei chwarae wrth helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni amcanion y Ddeddf. Mae camau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn fy nhrefniadau gwaith.

## Archwilio Mewnol

Mae gwaith archwilio mewnol yn un modd allweddol o ddarparu sicrwydd y mae ei angen arnaf fel Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf wedi penodi Deloitte i weithredu fel archwilwyr mewnol i mi ac maent wedi llunio'r adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg
- Systemau Ariannol
- Seiberddiogelwch
- Y Ddeddf Diogelu Data

Mae Adroddiad Blynyddol Deloitte ar gyfer 2017-2018 yn cadarnhau "Yn seiliedig ar y gwaith y wnaethom yn ystod y flwyddyn, gallwn ddod i'r casgliad bod gan y Comisiynydd system reolaeth fewnol gadarn, a ddylai ddarparu sicrwydd cymedrol ynghylch cyflawni amcanion y Comisiynydd". Gellir cymryd cryn sicrwydd o'r modd y cynlluniwyd y rheolaethau llywodraethu corfforaethol a'r trefniadau rheoli risg. Cafodd yr archwiliadau ar gyfer Seiberddiogelwch a Diogelu Data eu cynnal tra roedd Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth newydd yn cael ei roi ar waith ac o ganlyniad, dim ond gradd sicrwydd cyfyngedig a gafwyd a gwnaed 11 o argymhellion. Gwnaed gwaith dilynol ym mis Mai 2018 a chadarnhawyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, bod 8 argymhelliad wedi'u cyflawni'n llawn a bod trefniadau ar waith ar gyfer mynd i'r afael â'r 3 arall. Rwyf wedi gofyn am raddfa sicrwydd wedi'i diweddaru ar gyfer seiberddiogelwch a threfniadau diogelu data fy swyddfa yn 2019-2020.


## Sicrwydd gwybodaeth

Rwyf wedi cwblhau adolygiad sylweddol o'm trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn 2017-2018 yn barod ar gyfer cyflwyno'r Gofynion Diogelu Data Cyffredinol newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Mae fframwaith llywodraethu gwybodaeth newydd wedi'i sefydlu gyda chyfres o bolisïau sylfaenol sy'n nodi trefniadau diogelwch ac egwyddorion llywodraethu gwybodaeth da, ynghyd â'r cyfrifoldebau a'r ymddygiadau yr wyf yn eu disgwyl gan bawb sy'n gweithio i mi. Ni fu unrhyw doriad ar ddiogelwch data yn ystod y flwyddyn. Ni roddwyd adroddiad ffurfiol ar unrhyw ddigwyddiadau'n gysylltiedig â data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod

## Crynodeb o effeithiolrwydd

O'r sicrwydd a ddarperir gan fy UDRh, fy ngwybodaeth o waith fy swyddfa, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan archwiliad mewnol ac allanol, gallaf adrodd nad oedd unrhyw wendidau arwyddocaol yn y system reolaeth fewnol fu ar waith yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Ar gyfer 2018-2019 lle bo angen, byddaf yn parhau i ddiweddaru fy strwythur staffio i sicrhau bod y trefniadau staffio mwyaf effeithlon ac effeithiol gennyf er mwyn cyflawni'r ystod eang o swyddogaethau a byddaf yn parhau i weithredu ar eiriau'r Ddeddf a datblygu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol yn fy swyddfa mewn ffordd gynaliadwy.



**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
5 Gorffennaf 2018

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Adroddiad taliadau a staff

Mae'r rhan hon o'm hadroddiad Atebolrwydd yn darparu gwybodaeth am fy mholisi tâl i mi a'm Uwch Dîm Rheoli.

- Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr, os yn berthnasol
- Taliadau colli swydd, os yn berthnasol
- Pecynnau gadael, os yn berthnasol
- Datgeliadau cyflog teg
- Dadansoddiad o niferoedd a chostau staff

## Taliadau i uwch aelodau'r uwch dîm rheoli

Fe'm penodwyd i ar 1 Chwefror 2016 a phenodwyd uwch aelodau staff eraill rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016. Gweinidogion Cymru sy'n pennu tâl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 5 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ar gyfer aelodau eraill fy Uwch Dîm Rheoli, cymerais gyngor ynghylch tâl gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.

Mae'r adrannau canlynol, sydd wedi cael eu harchwilio, yn rhoi manylion am daliadau a buddion pensiwn y swyddogion uchaf yn fy swyddfa:

## Nifer a dadansoddiad o gostau staff uwch fesul band (archwiliwyd)

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn Da (i'r £100 agosaf) | | Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31.3.17 | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31. 3.17 | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31. 3.17 | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31. 3.17 |
| **Sophie Howe** – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016. Llawn amser | 90-95 | 100-105 (CALI 90-95) | - | - | 36 | 35 | 125-130 | 135-140 |
| **Mike Palmer** – Cyfarwyddwr Perfformiad Polisi a Gweithredu, o 11 Gorffennaf 2016. Wedi ymddeol ar 31 Hydref 2018. Llawn amser | 40-45 (CALI 65-70) | 50-55 (CALI 65-70) | - | - | 6 | 13 | 45-50 | 60-65 |
| **Kate Carr** – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu o 19 Gorffennaf 2016. Llawn amser | 55-60 | 40-45 (CALI 55-60) | - | - | 23 | 16 | 75-80 | 55-60 |
| **Marie Brousseau-Navarro** - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi, o 12 Medi 2016. Rhan-amser 0.8 CALI | 45-50 (CALI 55-60) | 20-25 (CALI 55-60) | - | - | 19 | 10 | 60-65 | 30-35 |
| **Helen Verity** – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, o 6 Mehefin 2016. Rhan-amser 0.6 CALI | 40-45 (CALI 55-60) | 30-35 (CALI 55-60) | - | - | 17 | 14 | 55-60 | 45-50 |



## Datgeliadau pensiwn GTGAP ar fy nghyfer i ac aelodau fy uwch dîm rheoli (archwiliwyd)

| | Cyfanswm pensiwn cronedig | Cynnydd real pensiwn | GTGAP 31.3.18 | GTGAP 31.3.17 | Cynnydd real/ (gostyngiad) yn GTGAP |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Sophie Howe** – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016. Llawn amser | 0-5 | 0-2.5 | 38 | 20 | 11 |
| **Mike Palmer** – Cyfarwyddwr Perfformiad Polisi a Gweithredu, o 11 Gorffennaf 2016. Wedi ymddeol ar 31 Hydref 2017. Llawn amser | 35-40 | 0-2.5 | 715 | 694 | 5 |
| **Kate Carr** – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu, o 19 Gorffennaf 2016. Llawn amser | 0-5 | 0-2.5 | 23 | 9 | 9 |
| **Marie Brousseau-Navarro** - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi, o 12 Medi 2016. Rhan amser 0.8 CALI | 0-5 | 0-2.5 | 15 | 5 | 7 |
| **Helen Verity** – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, o 6 Mehefin 2016. Rhan-amser 0.6 CALI | 0-5 | 0-2.5 | 19 | 8 | 8 |

## Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "Alpha" - yn gynlluniau aml-gyflogwr heb eu hariannu sydd â buddiannau wedi'u diffinio ond nid yw ein swyddfa yn gallu canfod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cafodd y PCSPS ei brisio gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2017-2018, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £137,732 yn daladwy i'r PCSPS (2016-17 £97,496) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr fel arfer bob pedair blynedd wedi i'r cynllun gael ei brisio'n llawn. Gosodir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost y buddion sy'n cronni yn ystod 2017-2018 ar gyfer eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwnnw i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad gan gyflogwr. Ni chymerodd yr un o'r gweithwyr yn y swyddfa hon yr opsiwn hwnnw.

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, mae pob gwas sifil a benodir o'r newydd a mwyafrif y rheiny sydd yn y gwasanaeth eisoes wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu clasurol a mwy) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn

arferol ar 1 Ebrill 2012, yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alpha wedi cael 'bancio' buddion PCSPS, ac i'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS, bydd y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn 'prynu arian' cyfranddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha. Mae'r buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer premiwm, bydd buddion yn cronni ar raddfa o 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn y bôn, mae clasurol a mwy yn gynllun cymysg gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn ôl y cynllun clasurol a buddion ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002, wedi'u cyfrifo yn unol â'r cynllun premiwm. Yn nuvos mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn alpha'n codi mewn ffordd debyg i nuvos, ond bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio'u pensiwn (cymudo) a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhan-ddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) tuag at gynnyrch pensiwn rhan-ddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth wedi iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os byddant eisoes wedi cyrraedd neu fynd heibio i'r oedran pensiwn. Mae oedran pensiwn yn 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond nodwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## (i) Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actiwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw GTGAP neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan. Cyfrifir GTGAP yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008 ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau yn deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir taliadau pensiwn.

## (ii) Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Adrodd ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill - pecynnau gadael
(archwiliwyd)

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw iawndal i unrhyw aelod o staff.

Telir costau diswyddo a chostau gadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn yn ystod blwyddyn yr ymadawiad. Pan fydd y Comisiynydd yn cytuno ar ymddeoliadau cynnar, y Comisiynydd fydd yn talu'r costau ychwanegol yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeoliadau ar sail afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Codir costau llawn yr ymadawiad i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad. Mae symiau sy'n daladwy mewn blynyddoedd sydd i ddod yn cael eu credydu i ddarpariaeth a ddefnyddir pan fydd y taliadau'n cael eu gwneud.

## Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr
(archwiliwyd)

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-gyfarwyddwyr.

## Datgeliadau cyflog teg
(archwiliwyd)

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| **Band tâl yr unigolyn sy'n derbyn y tâl uchaf (£000)** | 90-95 | 90-95 |
| **Cyfanswm canolrifol (£)** | 34,975 | 43,050 |
| **Cymhareb** | 1:2.65 | 1:2.15 |

Mae'n ofynnol i mi ddatgelu'r berthynas rhwng tâl yr unigolyn sy'n derbyn y tâl uchaf a thâl canolrifol y gweithlu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau. Mae'r pwynt canolrifol wedi gostwng ar gyfer 2017-2018 oherwydd gostyngiad yn nifer y Cyfarwyddwyr o bedwar i dri a chyflwyno dwy swydd gyflogedig tymor penodol yn gwneud gwaith ymchwil polisi a roddwyd i fyfyrwyr PhD yn 2017-2018 ar waelod fy ngraddfa gyflog.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau
(heb fod yn destun archwiliad)

Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fy sefydliad. Mae dadansoddiad cyflog yn ôl rhyw yn fesur pwysig wrth i ni symud tuag at Gymru fwy Cyfartal. Ar gyfer 2017-2018, rwyf felly'n dewis adrodd ar sefyllfa cyflogau yn ôl rhyw ar gyfer pobl sy'n gweithio yn fy nhîm. Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos canolrif a chymedr graddfeydd tâl fesul awr ar gyfer y rhai yn fy nhîm y mae gennyf reolaeth uniongyrchol dros eu cyfraddau tâl. Mae'r ail dabl yn dangos canolrif a chymedr graddfeydd tâl fesul awr pan gynhwysir aelodau'r tîm o sefydliadau partner.

| **Bwlch cyflog rhwng y rhywiau:** cyflogir yn uniongyrchol yn unig | **2017-18** | |
|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw |
| **Canolrif cyfradd cyflog fesul awr (£)** | 16.29 | 16.10 |
| **Cymedr cyfradd cyflog fesul awr (£)** | 17.19 | 16.10 |

| **Bwlch cyflog rhwng y rhywiau::** Cynhwysir rhai cyflogedig ar secondiad | **2017-18** | |
|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw |
| **Canolrif cyfradd cyflog fesul awr (£)** | 18.07 | 16.10 |
| **Cymedr cyfradd cyflog fesul awr (£)** | 18.32 | 15.91 |

## Adroddiad Staff

## Niferoedd staff a Chostau cysylltiedig

Ar 31 Mawrth 2018 roedd 32 aelod o staff gan y Comisiynydd (25.06 cyfwerth ag amser llawn) gan gynnwys y Comisiynydd. Ar 31 Mawrth 2017 y ffigurau cymharol oedd 26 o bobl (17.84 cyfwerth ag amser llawn)

## Costau staff (archwiliwyd)
Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

| | **2017-18** | **2016-17** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Cyflogau** | 641 | 469 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 68 | 52 |
| **Costau pensiwn** | 136 | 103 |
| **Is-gyfanswm** | 845 | 624 |
| **Secondiadau i mewn a staff asiantaeth** | 225 | 185 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allan | - | - |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,070** | **809** |

Mae'r dadansoddiad o gostau staff ar gyfer 2016-17 wedi'i gywiro. Cywiriadau: Cynnydd o £131,472 yn y cyflogau; gostyngiad o £103,962 mewn nawdd cymdeithasol; gostyngiad o £27,510 mewn pensiynau. Effaith net - dim. Roedd y dadansoddiad a ddatgelwyd yn Adroddiad Staff 2016-17 yn anghywir. Roedd cyfanswm y costau staff yn gywir ac nid yw wedi newid.

## Roedd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) am y cyfnod fel a ganlyn:
(heb fod yn destun archwiliad)

| | **2017-18** | **2016-17** |
|---|---|---|
| | **CALI** | **CALI** |
| **Cyflogedig yn Uniongyrchol** | 15.57 | 9.31 |
| **Rhai Cyflogedig ar Secondiad** | 3.88 | 4.24 |
| **Cyfanswm** | **19.45** | **13.55** |

## Cyfrif cyfwerth ag amser llawn y rhai oedd ar secondiad yn gyflogedig ac yn ddi-dâl ar gyfer y cyfnod oedd fel a ganlyn:

| | **2017-18** | **2016-17** |
|---|---|---|
| | **CALI** | **CALI** |
| **Rhai Cyflogedig ar Secondiad** | 3.88 | 4.24 |
| **Rhai Di-dâl ar Secondiad** | 1.04 | 4.29 |
| **Cyfanswm** | **4.92** | **8.53** |

## Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y gweithwyr ar secondiad cyfwerth ag amser llawn o'r deunaw sefydliad yr ydym wedi cydweithio â hwy ers i mi ddechrau yn fy swydd

| **Sefydliad** | **Maes gwaith** | **2017-18** | **2016-17** |
|---|---|---|---|
| | | **CALI** | **CALI** |
| **Masnach Deg Cymru** | Polisi | 1.00 | - |
| **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** | Polisi | 0.83 | - |
| **Llywodraeth Cymru** | Cymorth Busnes a Pholisi | 0.75 | 1.71 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | Polisi | 0.75 | 0.18 |
| **Comisiynydd Plant Cymru** | Cymorth Busnes a Pholisi | 0.65 | 0.63 |
| **Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr** | Polisi | 0.18 | - |
| **Chwaraeon Cymru** | Polisi | 0.17 | - |
| **United Welsh** | Polisi | 0.10 | - |
| **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru** | Polisi | 0.10 | - |
| **Ymddiriedolaethau Natur Cymru** | Polisi | 0.10 | - |
| **Canolfan Cydweithredol Cymru** | Polisi | 0.09 | - |
| **Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG** | Polisi | 0.08 | - |
| **BT Cymru Wales** | Rheoli Prosiectau | 0.08 | - |
| **Interlink RCT** | Polisi | 0.03 | - |
| **Cyngor Celfyddydau Cymru** | Polisi | 0.01 | - |
| **Asiantaeth Ynni Hafren Gwy** | Polisi | 0.00 | 4.29 |
| **Heddlu De Cymru** | Polisi | 0.00 | 0.86 |
| **RenewableUK Cymru** | Polisi | 0.00 | 0.86 |
| **Cyfanswm** | | **4.92** | **8.53** |

## Taliadau i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
(heb fod yn destun archwiliad)

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd yn cynnwys pum aelod annibynnol, a benodir gan y Comisiynydd. Mae'r aelodau yn derbyn lwfans dyddiol o £250 ac mae'r Cadeirydd yn cael lwfans dyddiol o £300. Yn 2017-18 gwnaed y taliadau canlynol:

| | **2017 -18** | **2016 -17** |
|---|---|---|
| | **(£)** | **(£)** |
| **Alan Morris** (Cadeirydd) | 2,400 | 600 |
| **Jonathan Morgan** | 1,250 | 500 |
| **John Dwight** | 1,500 | 500 |
| **Gareth Madge** | 1,375 | 500 |
| **Jocelyn Davies** | 2,000 | 500 |
| **Total** | **8,525** | **2,600** |

## Cyfansoddiad staff

Rydym yn casglu ystadegau'r gweithlu mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw pob un o'r rhain yn cael eu cyhoeddi oherwydd maint bach ein gweithlu ac anhawster yn sgil hynny i gynnal ein rhwymedigaethau i ddiogelu anhysbysrwydd data sensitif.

## Ystadegau rhyw a thâl y gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Cyfrif pennau yn ôl rhyw, band tâl, math o gontract a phatrwm gwaith ar 31 Mawrth 2018: (mae dros dro'n cynnwys staff a gyflogir ar gontractau tymor penodol a rhai ar secondiad o sefydliadau partner).

| Lefel cyflog (neu gyfatebol ar gyfer rhai ar secondiad) Sefydliad | Ll/A gwryw parh | Ll/A gwryw dros dro | Rh/A gwryw parh | Rh/A gwryw dros dro | Ll/A benyw parh | Ll/A benyw dros dro | Rh/A benyw parh | Rh/A benyw dros dro | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd 1 £19 - 22k yf | | | | | 1 | 1 | | 2 | **4** |
| Gradd 2 £23 – 27k yf | | | | | 2 | | | | **2** |
| Gradd 3 £30 – 35k yf | 2 | | | | | 2 | | | **4** |
| Gradd 4 £38 – 43k yf | | | | | 1 | 2 | 1 | 1 | **5** |
| Gradd 5 £49 – 53k yf | | | | | 1 | | 1 | | **2** |
| Gradd 6 £58 - £62 yf | | | | | 1 | | 2 | | **3** |
| Comisiynydd £90 -95k yf | | | | | 1 | | | | **1** |
| Gweithwyr partneriaeth | | 1 | | 1 | | 3 | | 6 | **11** |
| **Cyfanswm** | **2** | **1** | **0** | **1** | **7** | **8** | **4** | **9** | **32** |

## Ystadegau rhyw y gweithlu

heb fod yn destun archwiliad)

Mae'r tabl hwn yn dangos 32 o weithwyr ar 31 Mawrth 2018 yn ôl rhyw, ynghyd â chymhariaeth yn erbyn y flwyddyn flaenorol a dyddiad y Cyfrifiad 2014: Cymru (3,092,000)

| Rhyw | CCDC 31/3/2018 | 2018 | CCDC 31/3/17 | 2017 | Cymru 2014 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm nifer | % | Cyfanswm nifer | % | nifer | % |
| Gwryw | 4 | 12.5 | 6 | 23 | 1,500,000 | 49 |
| Benyw | 28 | 87.5 | 20 | 77 | 1,560,000 | 51 |

## Ystadegau oed y gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 & Over | Heb ddatgelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 5 | 7 | 6 | 0 | 1 | 7 |

Cyfrif pennau yn ôl Oed ar 31 Mawrth 2018

## Ystadegau ymadawyr â'r gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Bu 7 o ymadawyr yn ystod y flwyddyn.

- Daeth 2 secondiad i ben
- Daeth 2 gontract tymor penodol i ben
- Ymddeolodd 1 person
- Ymddiswyddodd 2 o bobl i ymgymryd â chyflogaeth arall

| Beichiogrwydd Mabwysiadu Mamolaeth Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 | |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr beichiog yn 2017 -2018 | 0 |
| Nifer y gweithwyr gafodd Absenoldeb Mabwysiadu a/neu Mamolaeth yn 2017 - 2018 | 0 |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Ystadegau hyfforddiant a datblygu'r gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Cyfrif pennau yn ôl rhyw, band tâl, math o gontract a phatrwm gwaith aelodau'r tîm a fanteisiodd ar gyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd yn allanol yn ystod y flwyddyn. Sylwch fod y diffiniad 'dros dro' yn cynnwys staff a gyflogir ar gontractau tymor penodol, neu rai sy'n gweithio ar secondiad o sefydliadau partner.

| Lefel cyflog (neu cyfatebol ar gyfer ar secondiad) Sefydliad | Ll/A gwryw parh | Ll/A gwryw dros dro | Rh/A gwryw parh | Rh/A gwryw dros dro | Ll/A benyw parh | Ll/A benyw dros dro | Rh/A benyw parh | Rh/A benyw dros dro | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd 1 £19 - 22k pa | | | | | | | | 1 | **1** |
| Gradd 2 £24 – 28k pa | | | | | 1 | | | | **1** |
| Gradd 3 £31 – 35k pa | 1 | | | | 1 | 1 | | | **3** |
| Gradd 4 £39 – 43k pa | | | | | 1 | | | 1 | **2** |
| Gradd 5 £47 – 51k pa | | | | | | | | | |
| Gradd 6 £58 - £62 pa | | | | | | | 1 | | **1** |
| Comisiynydd £91k pa | | | | | | 1 | | | **1** |
| Ar Secondiad heb dâl | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **1** | | | | **3** | **2** | **1** | **2** | **9** |

Cefnogwyd naw o bobl i fynychu digwyddiadau hyfforddi allanol fel aelodau unigol o'r tîm. Cefnogwyd aelodau'r tîm ar draws y rhan fwyaf o raddau, rhyw a phatrwm gweithio i gymryd rhan fel y dangosir uchod.

Yn ogystal, darparwyd nifer o ddiwrnodau datblygu tîm ar gyfer y tîm cyfan

- Diwrnod tîm yn adolygu ein gwahanol arddulliau gweithio ac effaith y rhain ar ein perthynas, ein dulliau gweithio a'n hymddygiadau. (Insights Discovery)
- Diwrnod tîm gyda'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dod i ddeall ein cofrestr risg.
- Diwrnod tîm yn adolygu ein prosesau swyddfa yn erbyn y saith nod llesiant.
- Diwrnod tîm ar gynllunio strategol
- Diwrnod tîm rheoli i archwilio methodolegau ystwyth

## Data absenoldeb salwch

(heb fod yn destun archwiliad)

Caiff ffigyrau absenoldeb salwch eu casglu, eu monitro a'u cofnodi ar gyfer aelodau'r tîm sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. (19 o bobl, 17.8 CALl ar 31 Mawrth 2018). Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 adroddwyd mai'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch oedd 0.4 y cant. (0.6 y cant 2016-2017). Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 15 diwrnod o absenoldeb salwch tymor byr ar gyfer 6 aelod o'r tîm. Nid oedd unrhyw achosion o absenoldeb hirdymor yn y flwyddyn ariannol hon.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

(heb fod yn destun archwiliad)

Costau ymgynghoriaeth o £7,025 yn gysylltiedig â darparu cyngor strategol gwrthrychol i lywio cyfansoddiad strwythurol fy sefydliad: Datblygu strwythur sefydliadol Ystwyth (Agile) £5,400; a Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth £1,625.



**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
5 Gorffennaf 2018

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

## Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Paragraff 21 o Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 31Mawrth 2018 a'i gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Sail ar gyfer fy marn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn i.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol i mi adrodd i chi yn eu cylch yn unol â'r ISAs (UK) os:

- nad yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi datgelu unrhyw ansicrwydd perthnasol a all fwrw amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol am gyfnod o o leiaf ddeuddeng mis o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

### Gwybodaeth Arall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar y rheiny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynglŷn â'i sicrwydd.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion sydd wedi eu cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio, yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o ran taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu.
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn

### Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y ddeddf honno, am fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y rheolaeth fewnol sydd ei hangen yn ôl barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnesau gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Future Generations Commissioner for Wales

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nodau yw rhoi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol, pe byddai'n rhesymol ystyried y gallent, yn unigol neu'n rhan o'r cyfanwaith, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/cyfrifoldebau archwilwyr. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
10 Gorffennaf 2018

# Datganiadau ariannol

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31.3.17 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Gwariant: | | | |
| Costau gweinyddol: | | | |
| Costau staff | 2 a 3 | 1,070 | 809 |
| Dibrisiant | 2 | 11 | 6 |
| Costau gweinyddol eraill | 2 | 352 | 287 |
| | | 1,433 | 1,102 |
| Incwm: | | | |
| Incwm o weithgareddau | | - | - |
| Incwm arall | | - | - |
| | | | |
| Gwariant net | | 1,433 | 1,102 |
| Llog taladwy/derbyniadwy | | | - |
| Gwariant net ar ôl llog | | 1,433 | 1,102 |

## Gwariant cynhwysfawr arall

| | Nodyn | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31.3.17 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Enillion/(colled) net ar ailbrisio offer a chyfarpar | | - | - |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr am gyfnod y flwyddyn | | 1,433 | 1,102 |

Daw'r holl incwm a gwariant o weithrediadau parhaus. Nid oes unrhyw enillion na cholledion heblaw'r rhai a adroddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru

Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | | | 2018 | | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | | £000 | | £000 |
| Asedau nad ydynt yn gyfredol: | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | | 15 | | 11 |
| | | | | | |
| Asedau cyfredol | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 6 | 2 | | 23 | |
| Arian parod ac arian cywerth | 7 | 601 | | 607 | |
| | | | 603 | | 630 |
| | | | | | |
| Cyfanswm asedau | | | 618 | | 641 |
| | | | | | |
| Rhwymedigaethau cyfredol: | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 8 | | (112) | | (187) |
| | | | | | |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 506 | | 454 |
| | | | | | |
| Rhwymedigaethau hirdymor: | | | | | |
| Darpariaethau | | | (5) | | |
| | | | | | |
| Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau | | | 501 | | 454 |
| | | | | | |
| Ecwiti'r trethdalwyr: | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 501 | | 454 |



**Sophie Howe,**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2018

Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad Llifoedd Arian am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018

| | | 1.4.17 to 31.3.18 | 1.2.16 to 31.3.17 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant net | Taliadau Cydnabyddiaeth Adroddiad a 2 | (1,433) | (1,102) |
| Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian | 2 | 11 | 6 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 6 | 21 | (23) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn taliadau masnach | 8 | (75) | 187 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | | 5 | |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredol | | (1,471) | (932) |
| | | | |
| Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 5 | (15) | (17) |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | | (15) | (17) |
| | | | |
| All-lif arian net | | (1,486) | (949) |
| | | | |
| Llifoedd arian o weithgareddau cyllido | | - | - |
| | | | |
| Cyllido Net | | 1,480 | 1,556 |
| Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian cywerth | 7 | (6) | 607 |
| | | | |
| Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod | | 607 | |
| Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod | | 601 | 607 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018

| | | 1.4.17 i 31.3.18 | 1.2.16 i 31.3.17 |
|---|---|---|---|
| | Note | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | | 454 | - |
| | | | |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr 2017-2018** | | | |
| **Cyllid gan Lywodraeth Cymru** | | 1,480 | 1,556 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | (1,433) | (1,102) |
| | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | 501 | 454 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn



# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Paratowyd y datganiadau ariannol am y cyfnod deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer cyfnod cyfrifo cyntaf y Comisiynydd o 1 Chwefror 2016 i 31 Mawrth 2017. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiedir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol y Comisiynydd er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae fy nhîm wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt eto'n effeithiol ac nad ydynt wedi eu mabwysiadu yn gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) IFRS16 Prydlesi, mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'n rhesymol amcangyfrif effaith IFRS16, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IASB) ond nad yw wedi'i fabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd ac a fydd yn gymwys o 2019-2020, ar hyn o bryd.

Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd ar gyfer fy swyddfa isod.

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol oherwydd, yn fy marn i, mae effaith ailbrisio asedau sefydlog ar eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu costau presennol yn amherthnasol.

### 1.2 Cyllid

Yr unig ffynhonnell arian ar gyfer fy swyddfa yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, a gredydir i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant.

### 1.3 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae'r holl asedau nad ydynt yn gyfredol wedi'u prisio ar gost hanesyddol (gweler 1.1 uchod). Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £1,000. Mae niferoedd mawr o'r un math o ased wedi'u grwpio gyda'i gilydd wrth benderfynu a oeddent yn disgyn uwchben neu islaw'r trothwy.

### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn gyfredol trwy randaliadau cyfartal dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig, fel a ganlyn:

- Offer TGCh 3 blynedd
- Dodrefn 3 blynedd

Codir dibrisiant blwyddyn lawn yn ystod blwyddyn y caffaeliad.

### 1.5 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredol yw'r trafodion hynny sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu fy swyddfa. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn. Caiff pob gwariant ei ddosbarthu fel gwariant gweinyddol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

## 1.6 Treth Ar Werth

Nid yw fy swyddfa wedi ei chofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phryniannau asedau sefydlog gyda TAW yn gynwysedig, gan na ellir adennill TAW.

## 1.7 Pensiynau

Mae fy staff yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Mae cost elfen budd diffiniedig y cynllun yn cael ei chydnabod yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n dwyn budd o wasanaethau gweithwyr trwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus. Mae atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynllun, mae fy swyddfa yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y'u telir.

## 1.8 Prydlesi

Mae prydlesi asedau lle mae holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased ar brydles yn syrthio ar fy swyddfa yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Caiff yr ased ei chofnodi fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr sy'n cyfateb i isafswm y taliadau prydles. Codir taliadau i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a chodir tâl cyllid yn seiliedig ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles.

Codir rhenti prydlesi gweithredol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

## 1.9 Adroddiadau segmentol

Mae fy swyddfa yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau y mae'r canlyniadau gweithredu yn cael eu hadrodd ynddynt.

## 1.10 Treuliau staff

Mae fy swyddfa yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig fel gwyliau blynyddol na chafodd eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

## 1.11 Darpariaethau

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol y mae eu hamseriad neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth

## 1.12 Arian parod ac arian cywerth

Mae fy swyddfa yn cadw arian a gaiff ei adneuo mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl ei dderbyn. Nid yw fy swyddfa yn cadw unrhyw arian mân.

## 2. Costau gweinyddol eraill

| | 1.4.17 i 31.3.18 | | 1.2.2016 i 31.3.2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2.1 Costau gweinyddu:** | | | | |
| **Adeiladau** | 45 | | 24 | |
| **Swyddfa** | 102 | | 95 | |
| **Hyfforddiant a recriwtio** | 6 | | 8 | |
| **Teithio a Chynhaliaeth** | 30 | | 27 | |
| **Tâl yr archwilydd allanol** | 16 | | 17 | |
| **Tâl yr archwilydd mewnol** | 12 | | 9 | |
| **Offer TGCh** | 34 | | 25 | |
| **Gwaith prosiect** | 102 | | 82 | |
| | | 347 | | 287 |
| **2.2 Eitemau nad ydynt yn arian:** | | | | |
| **Tâl dibrisiant ar asedau cyffredin** | 11 | | 6 | |
| **Colled wrth waredu asedau sefydlog** | - | | - | |
| **Darpariaeth yn ystod y flwyddyn** | 5 | | | |
| | | 16 | | 6 |
| | | | | |
| | | 363 | | 293 |

## 3: Costau staff

Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cyflogau** | 641 | 469 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 68 | 52 |
| **Costau pensiwn** | 136 | 103 |
| **Is-gyfanswm** | 845 | 624 |
| **Secondiadau i mewn a staff asiantaeth** | 225 | 185 |
| **Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allan** | - | - |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,070** | **809** |

Mae'r dadansoddiad o gostau staff ar gyfer 2016-17 wedi'i gywiro. Cywiriadau: Cynnydd o £131,472 yn y cyflogau; gostyngiad o £103,962 mewn nawdd cymdeithasol; gostyngiad o £27,510 mewn pensiynau. Effaith net - dim. Roedd y dadansoddiad a ddatgelwyd yn Adroddiad Staff 2016-17 yn anghywir. Roedd cyfanswm y costau staff yn gywir ac nid yw wedi newid.

## 4. Gwybodaeth segmentol

Mae fy swyddfa yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau y mae'r canlyniadau gweithredu yn cael eu hadrodd ynddynt.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Future Generations Commissioner for Wales

## 5. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Offer TGCh | Dodrefn ac Offer Swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 17 | - | 17 |
| Ychwanegiadau | 13 | 2 | 15 |
| Gwerthiannau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 30 | 2 | 32 |
| | | | |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 6 | - | 6 |
| Cost am y flwyddyn | 10 | 1 | 11 |
| Gwerthiannau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 16 | 1 | 17 |
| | | | |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 1 Ebrill 2017 | 11 | - | 11 |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2018 | 14 | 1 | 15 |

## 6. Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | 31.03.18 | 31.03.17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Masnach a derbyniadau eraill | - | - |
| Rhagdaliadau a chroniadau incwm | 2 | 23 |
| | | |
| | 2 | 23 |

## 7. Arian parod ac arian cywerth

| | 31.03.18 | 31.03.17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | 607 | - |
| Newid net mewn balansau arian parod ac arian cywerth | (6) | 607 |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | 601 | 607 |

Roedd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2018 yn cael eu cadw mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 8. Taliadau masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31.03.18 | 31.03.17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | - | - |
| Taliadau masnach | 36 | 37 |
| Croniadau | 76 | 150 |
| | | |
| | 112 | 187 |

## 9. Ymrwymiadau dan brydlesi

Roedd y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol mewn perthynas â phrydlesi gweithredol sy'n dod i ben

| | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | £000 | |
| | Tir & Adeiladau | Arall | Tir & Adeiladau | Arall |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu: | | | | |
| O fewn blwyddyn | 38 | 1 | 50 | 1 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | 1 | 38 | 2 |
| Ar ôl pum mlynedd | | | | |
| | 38 | 2 | 88 | 3 |

Swm y taliadau prydles a gydnabyddir ar gyfer y cyfnod cyfrifo hwn yw £50,847

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## 10. Offerynnau cyllidol

Mae IFRS7, Offerynnau Cyllidol, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau cyllidol wedi ei gael yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol fy ngweithgareddau a'r modd y mae fy ngweithrediadau'n cael eu hariannu, nid yw fy Swyddfa yn agored i risg ariannol i'r un graddau ag y mae endidau busnes yn ei wynebu. At hynny, mae offerynnau cyllidol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau a restrir ac y mae IFRS7 fwyaf perthnasol iddynt. Mae gen i bwerau cyfyngedig iawn i fenthyca neu fuddsoddi arian dros ben ac mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ydynt yn cael eu cadw i newid y risgiau yr wyf yn eu hwynebu wrth ymgymryd â gweithgareddau.

Risg hylifedd

Ariennir gofynion adnoddau refeniw a chyfalaf net fy Swyddfa gan Lywodraeth Cymru. Felly nid yw fy Swyddfa yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau cyfradd llog.

Risg arian cyfred tramor

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau arian tramor.

Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa fel y maent ar 31 Mawrth 2018.

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2018.

## 12. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2018.

## 13. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, derbyniodd fy swyddfa ei unig ffynhonnell arian gan Lywodraeth Cymru (£1.480 miliwn ar gyfer eleni ac £1.556 miliwn yn y cyfnod cyfrifo blaenorol). Mae cyflogres fy swyddfa'n cael ei chontractio allan i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a bu nifer fechan o drafodion materol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gweithredu'r gyflogres a'r pensiynau, gydag OGCC, Cyllid a Thollau EM a Swyddfa'r Cabinet. Nid oedd unrhyw drafodion materol gyda sefydliadau lle roedd uwch staff, neu unrhyw un o'u teuluoedd, yn meddu ar swyddi dylanwadol.

## 14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol a'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 5 Gorffennaf 2018 gan Sophie Howe

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

02921 677 400



Dylunio: www.yogicomms.uk